# Cynllun Datblygu Lleol 2021 > 2036

Cyngor Caerdydd - Mehefin 2023

## CDLl Newydd Caerdydd
## Strategaeth a Ffefrir i Ymgynghori Arni




www.cdllcaerdydd.co.uk
02920 872087
CDL@caerdydd.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English

CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD





# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Rhagair | 4 |
| 2. | Cyflwyniad | 6 |
| 3. | Beth yw'r Strategaeth a Ffefrir? | 7 |
| 4. | Dylanwadau ar y Cynllun | 8 |
| 5. | Cyd-destun Caerdydd | 11 |
| 6. | Heriau a Chyfleoedd Allweddol | 12 |
| 7. | Gweledigaeth ac Amcanion | 17 |
| 8. | Opsiynau Strategaeth Twf a Gofodol | 27 |
| 9. | Strategaeth a Ffefrir | 49 |
| 10. | Polisïau Strategol | 54 |


**Atodiadau:**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Rhestr o Ddogfennau Ategol | 89 |
| 2. | Asesiad Cydnawsedd | 91 |
| 3. | Adolygiad o Bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig | 94 |
| 4. | Canllaw Cynllunio Atodol i'w Baratoi | 102 |
| 5. | Rhestr Termau | 104 |
| 6. | Llyfryddiaeth | 110 |

# 1. Rhagair

Rwy'n falch o gyflwyno dull strategol arfaethedig y Cyngor ar gyfer datblygu Caerdydd hyd at 2036. Mae'r ddogfen hon, Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), ynghyd â deunyddiau ategol eraill, yn egluro dull gweithredu'r Cyngor, gan amlinellu opsiynau a ystyriwyd a'r rhesymau pam y cynigir y strategaeth.

Cymeradwywyd y Strategaeth a Ffefrir yng nghyfarfod y Cyngor ar 29 Mehefin 2023, ac rydym yn ymgynghori ar y ddogfen hon a'r deunydd technegol ategol am 10 wythnos rhwng 27 Gorffennaf a 5 Hydref 2023. Rwy'n mawr obeithio y byddwch yn cymryd yr amser i ystyried y materion a godwyd a chyflwyno eich barn.

Mae hwn yn gam pwysig wrth adolygu ein CDLl presennol a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2016 ac mae'n nodi'r hyn rwy'n ei gredu sy'n lefel o dwf uchelgeisiol ond y gellir ei gyflawni er mwyn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion mwyaf dybryd yn y ddinas dros y blynyddoedd i ddod.

Yn gyntaf oll, mae'r cynllun hwn yn ceisio darparu cartrefi o ansawdd da a chyfleoedd cyflogaeth i'n dinasyddion yn y lleoedd cywir, gyda'r seilwaith cywir. Trwy gael amrywiaeth a dewis o safleoedd ledled y ddinas ar gyfer datblygiadau newydd, gallwn sicrhau y gellir cwblhau'r datblygiadau arfaethedig presennol a darparu'r cyfleusterau cymdeithasol, cymunedol a thrafnidiaeth angenrheidiol i greu cymdogaethau gwirioneddol gynaliadwy, gyda nifer sylweddol o'r cartrefi hyn yn gartrefi fforddiadwy hefyd.

Mae'n bwysig darparu'r cartrefi fforddiadwy hyn i helpu i ddiwallu anghenion yr 8,000 o bobl sydd wedi'u cofrestru fel rhai digartref ar restr aros tai'r Cyngor. Yn gysylltiedig â hyn, bydd y cynllun hefyd yn helpu'r Cyngor i gyrraedd ei darged o ddarparu 2,800 o dai Cyngor fforddiadwy newydd ar amrywiaeth a dewis o safleoedd ledled y ddinas erbyn 2030.

Yn yr un modd, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cydnabod rôl bwysig Caerdydd fel sbardun economaidd i'r Rhanbarth ac mae'n canolbwyntio ar adfywio ac adnewyddu trefol yn ogystal â chefnogi datblygiadau dwysedd uchel, defnydd cymysg, a wasanaethir yn dda gan seilwaith trafnidiaeth a'r ystod eang o gyfleusterau sydd gan y ddinas i'w cynnig.

Yn bwysig, bydd y cynllun yn chwarae rhan allweddol wrth fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur y mae'r Cyngor wedi'u datgan drwy sicrhau bod datblygiadau newydd yn ystyried achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd ac yn cynnwys mesurau i amddiffyn ein hamgylchedd naturiol. Mae blaenoriaethau eraill y cynllun wrth iddo ddatblygu yn cynnwys sicrhau bod dyluniad datblygiadau newydd yn gynaliadwy ac o ansawdd uchel gan wneud cyfraniad cadarnhaol at greu cymunedau, lleoedd a mannau unigryw ac iach a'n bod yn cadw ac yn hyrwyddo ein treftadaeth adeiledig a'n hasedau diwylliannol.



Mae'r dadansoddiad manwl o ddatblygiadau posibl yn y ddinas dros gyfnod y CDLl yn awgrymu y gallwn ddangos tystiolaeth a chyflawni lefel o dwf a fydd yn gwneud y defnydd gorau o dir llwyd/tir a ddatblygwyd o'r blaen yn y ddinas a'n galluogi i ddiogelu ein hasedau seilwaith gwyrdd pwysicaf.

Rwy'n gobeithio am ddyfodol gwell i holl drigolion Caerdydd a gall y Cynllun hwn osod y safonau ar gyfer cenedlaethau heddiw a rhai'r dyfodol. Mae dinas heb Gynllun Datblygu cryf, uchelgeisiol a chyfredol yn rhoi Caerdydd a Chymru mewn perygl sylweddol o weld datblygu amhriodol heb fod y rheolaethau a'r polisïau angenrheidiol ar waith. Gallai hefyd adael rhai o'n dinasyddion mwyaf agored i niwed heb y cartrefi, y cyfleusterau a'r seilwaith angenrheidiol ar adeg pan fo eu hangen fwyaf.

Cam ymgynghori yw hwn lle rydym yn edrych ar ba bolisïau strategol sydd eu hangen arnom ac yn eiriol dros yr hyn rydym yn ei deimlo sy'n gweddu orau i Gaerdydd o ran lefel twf. Nid yw'n golygu cytuno ar leoliadau datblygiadau newydd na pha safleoedd fydd yn cael eu "dyrannu" yn y cynllun newydd, bydd hynny'n digwydd yn ddiweddarach ar y cam nesaf sef y CDLl Adneuo mwy manwl flwyddyn i nawr pan fydd cyfleoedd pellach i wneud sylwadau.

I gloi, rwy'n eich gwahodd i fanteisio ar y cyfle i fagu gwell dealltwriaeth o'r materion datblygu sy'n wynebu Caerdydd yn y dyfodol a sut mae'r Cyngor yn bwriadu mynd i'r afael â nhw. Rhowch wybod i ni beth yw eich barn am y dull hwn ac os nad ydych yn cytuno, amlinellwch sut rydych chi'n credu y gellid gwneud pethau'n wahanol.

Mae rhagor o wybodaeth am sut i wneud sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir ar gael ar wefan y CDLl Newydd CDLlCaerdydd.co.uk a thrwy gysylltu â Thîm y CDLl yn cdll@caerdydd.gov.uk

Mae'n bwysig iawn bod cymaint o bobl â phosibl a rhai â buddiannau hefyd yn gwneud sylwadau ar y cynllun hwn. Byddwn wedyn yn ystyried pob sylw a wnaed cyn paratoi cynllun manylach sef y CDLl Adneuo a fydd yn y pen draw yn cael ei archwilio gan Arolygydd Cynllunio Annibynnol.

Diolch am ddangos diddordeb yn y ddogfen bwysig hon. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at dderbyn eich barn ond cofiwch ei gyflwyno erbyn 5 Hydref 2023.

**Y Cynghorydd Dan De'Ath**




**Cyngor Caerdydd**

**Yr Aelod Cabinet dros Gynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd**

# 2. Cyflwyniad

**2.1** Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi a chadw'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn gyfredol. Mae'r CDLl yn nodi polisïau cynllunio ac yn dyrannu safleoedd ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau. Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am reoli datblygu sy'n cynnwys prosesu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio, gyda'r CDLl yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau cyson a chlir. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau uchod, rydym wrthi'n paratoi CDLl Newydd. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y CDLl Newydd yn darparu fframwaith polisi ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio, ond bydd ei gynnwys yn parhau i gael ei fonitro a'i adolygu i sicrhau bod y Cynllun yn parhau i fod yn berthnasol a'i fod yn gweithio fel y bwriadwyd.

**2.2** Mae'r CDLl yn cael effaith uniongyrchol ac ystyrlon ar bobl a chymunedau Caerdydd ac ar y bobl sy'n gweithio yn y ddinas neu'n ymweld â hi. Bydd yn siapio datblygiad y ddinas a'i rhinweddau amgylcheddol yn y dyfodol, gan ddylanwadu arni'n economaidd ac yn gymdeithasol. Bydd y CDLl yn ymateb i anghenion economi sy'n gynyddol bwysig yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, gan wneud darpariaeth ar gyfer swyddi, cartrefi, seilwaith a chyfleusterau cymunedol newydd. Mae hefyd yn sicrhau bod lles ei chymunedau'n cael ei gynnal, a rheolir effeithiau datblygiadau a defnydd tir yn gynaliadwy. Bydd yn arwain rhaglenni ariannu a buddsoddi, cynlluniau a strategaethau eraill, cymunedau a thirfeddianwyr, tra'n darparu ar gyfer gwella a diogelu ein hamgylchedd. Wrth wneud hynny, mae'n cynnig mesur o sicrwydd a hyder ynghylch pa fath o ddatblygiad a fydd, ac na fydd, yn cael ei ganiatáu, ac ym mha leoliadau yn ystod cyfnod y cynllun.





# 3. Beth yw'r Strategaeth a Ffefrir?

**3.1** Mae'r Strategaeth a Ffefrir hon yn rhan o gyfres o ddogfennau y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu paratoi yn y broses o gynhyrchu'r CDLl Newydd ar gyfer Caerdydd. Mae'n cynrychioli cam cynnar, ond pwysig, wrth baratoi'r Cynllun ac yn dilyn camau ymgynghori anffurfiol cynharach ar y weledigaeth a'r amcanion yn haf 2021, ac ar dwf strategol ac opsiynau gofodol yn hydref 2021.

**3.2** Pwrpas y Strategaeth a Ffefrir yw gosod y weledigaeth hirdymor ar gyfer y ddinas a'r amcanion strategol, a'r polisïau defnydd tir strategol i gyflawni'r weledigaeth honno. Bydd yn rhoi cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu a defnyddio tir tan 2036. Mae hefyd yn dweud wrthym faint o ddatblygiad sydd ei angen ac yn fras lle mae hyn yn debygol o fod. Fodd bynnag, nid y Strategaeth a Ffefrir yw'r CDLl llawn, yn hytrach mae'n nodi egwyddorion strategol eang ar gyfer datblygu yn ein hardal. Enw'r Cynllun llawn yw'r CDLl Adneuo a bydd yn cynnwys polisïau manwl a phenodol yn ogystal â ffiniau aneddiadau, ardaloedd i'w gwarchod a dyraniadau safle-benodol.

**3.4** Cyhoeddwyd Arfarniad Cynaliadwyedd y Strategaeth a Ffefrir fel dogfen ar wahân ynghyd â'r Adroddiad Sgrinio Asesu Rheoliadau Cynefinoedd. Mae'r ddwy ddogfen hon ar gael ar Wefan y CDLl ar gyfer ymgynghori arnynt ac fe groesewir sylwadau ar eu cynnwys.

**3.5** Mae rhagor o wybodaeth am y camau wrth baratoi'r CDLl ar gael o fewn y Cytundeb Cyflawni neu ar Wefan y CDLl.



# 4. Dylanwadau ar y Cynllun

**4.1** Er bod y CDLl yn chwarae rhan allweddol wrth lunio penderfyniadau a lleoliad a natur datblygiadau yn y ddinas, caiff ei baratoi a'i weithredu o fewn y fframwaith cenedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru drwy 'Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040' a deddfwriaeth, a thrwy Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol cysylltiedig.

**4.2** Mae'r broses ar gyfer paratoi'r CDLl wedi'i gosod o fewn rheoliadau statudol, gyda chanllawiau gweithdrefnol pellach wedi'u cynnwys yn y Llawlyfr CDLl fel y'i paratowyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd paratoi a chynnwys y CDLl yn cael eu hasesu yn erbyn tri phrawf cadernid sef:

1. A yw'r Cynllun addas?
2. A yw'r Cynllun yn briodol?
3. A fydd y Cynllun yn cyflawni?

**4.3** Bydd paratoi'r Cynllun yn dirwyn i ben gyda'r Arolygydd Cynllunio (fel y'i penodir gan Lywodraeth Cymru). Bydd yr Arolygydd yn archwilio'r CDLl yn erbyn y tri phrawf hyn i asesu ei gadernid. Bydd canfyddiadau'r Archwiliad yn cael eu cyhoeddi yn Adroddiad yr Arolygydd, ac mae ei gynnwys a'i argymhellion yn rhwymo'r Awdurdod.

**4.4** Wrth i'r Cyngor gynllunio ar gyfer y dyfodol, rhaid i ni hefyd weithio'n agos gydag amrywiol bartneriaid, asiantaethau eraill, cyrff cyllido a llunwyr penderfyniadau i hysbysu, arwain a gweithredu rhaglenni a chynigion.

**4.5** Mae sawl dogfen a strategaeth bwysig a nodir isod yn ymwneud â Chaerdydd. Rydym wedi a byddwn yn paratoi'r Cynllun, lle bo'n berthnasol, i adlewyrchu dogfennau a chynlluniau sefydliadau eraill, gan gynnwys ein hawdurdodau cynllunio cyfagos, a pholisïau a strategaethau cenedlaethol a rhanbarthol. Byddwn yn gweithio gyda'n cymdogion ac eraill i baratoi'r CDLl fel y bo'n briodol.

**4.6** Bu sawl newid cyd-destunol sylweddol yn neddfwriaeth Cymru ers mabwysiadu'r CDLl presennol. Mae'r rhain yn cynnwys cyhoeddi Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (Deddf) 2017. Ond efallai mai'r peth mwyaf arwyddocaol yw cyhoeddi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol i 2040.

**4.7** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynrychioli newid sylweddol, ac mae'n ofynnol i'r Cynllun gyfrannu at ei nodau o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru fel rhan o gynnal datblygu cynaliadwy. Bydd y Cynllun yn edrych ar y nodau a'r amcanion llesiant cenedlaethol yn ogystal â nodau llesiant y Cyngor ei hun yn ei bolisïau a'i gynigion.



**4.8** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn derfynol Cymru'r Dyfodol ar 24 Chwefror 2021. Mae'r ddogfen hon yn disodli Cynllun Gofodol Cymru ac yn nodi fframwaith gofodol 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir yng Nghymru. Mae Cymru'r Dyfodol yn rhan allweddol o'r system cynlluniau datblygu yng Nghymru ac mae ar frig yr hierarchaeth cynlluniau datblygu. Mae'n cynnig fframwaith ar gyfer darparu seilwaith/twf newydd ac mae'n ceisio mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, sicrhau datgarboneiddio a gwydnwch o ran yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau. Bydd angen i'r CDLl Newydd fod yn unol â Chymru'r Dyfodol a bydd angen ystyried y fframwaith gofodol a blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy broses adolygu'r CDLl

**4.9** Bydd angen i'r CDLl Newydd ystyried hefyd ystyriaethau cenedlaethol a rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg gan gynnwys effaith Brexit a Covid a gwaith sy'n dod i'r amlwg ar baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol.

**4.10** Bydd angen i'r CDLl Newydd ystyried sawl strategaeth, gan gynnwys "Cryfach, Tecach, Gwyrddach" sy'n nodi gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cygnor dros y pum mlynedd nesaf o dan y penawdau canlynol:

- **Caerdydd Gryfach:** Denu buddsoddiad a busnesau newydd i'r ddinas, hybu cynhyrchiant economaidd, creu swyddi o ansawdd da yn sectorau gwerth uchel a sylfaenol Caerdydd, a chryfhau ein gwydnwch yn wyneb newid yn yr hinsawdd a bygythiadau amgylcheddol cysylltiedig.
- **Caerdydd Decach:** Darparu addysg, hyfforddiant, gwasanaethau i mewn i waith a gwasanaethau cymdeithasol rhagorol, yn ogystal â chysylltedd trafnidiaeth, i sicrhau bod pob dinesydd yn gallu elwa ar dwf Caerdydd a'r cyfleoedd newydd mae hynny'n eu creu.
- **Caerdydd Wyrddach:** Darparu rhwydwaith cadarn o deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, gan wneud Caerdydd yn 'ddinas 15 munud', cynhyrchu ynni adnewyddadwy a gwella bioamrywiaeth leol, gan sicrhau bod twf yn gynaliadwy ac yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i fod yn Ddinas Garbon Niwtral erbyn 2030.

**4.11** Mae Strategaeth Caerdydd Un Blaned y Cyngor yn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a ddatganwyd gan y Cyngor yn 2019. Mae'r Strategaeth yn cynnwys gweledigaeth sy'n:

- Nodi uchelgais 10 mlynedd y Cyngor i fod yn Garbon Niwtral yn ei weithgareddau ei hun;
- Galw ar y ddinas gyfan, yr holl ddinasyddion, ifanc a hŷn, ysgolion, partneriaid allweddol, cyflogwyr a rhanddeiliaid i weithio'n gadarnhaol gyda ni i ddatblygu map ffordd ledled dinas a chynllun gweithredu ar gyfer dinas garbon niwtral erbyn 2030;
- Nodi cyfleoedd a allai ail-fframio economi Caerdydd mewn modd sy'n wydn, yn gadarn ac yn hirdymor, gan sicrhau bod Caerdydd yn un o ddinasoedd gwyrdd pennaf y Deyrnas Gyfunol; a
- Diffinio'r rhaglenni a'r cyfleoedd uniongyrchol y mae angen i ni fynd i'r afael â hwy ar frys.

**4.12** Cefnogir Strategaeth Caerdydd Un Blaned y Cyngor gan y Papur Gwyn Trafnidiaeth sy'n nodi cynllun 10 mlynedd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, lleihau tagfeydd a gwella ansawdd aer yn y ddinas.

**4.13** Bydd angen i'r CDLl newydd hefyd ymateb i'r argyfwng natur ledled y ddinas a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn 2021. Yn ogystal â datgan argyfwng natur yng Nghaerdydd, penderfynodd y Cyngor i:

- Osod bioamrywiaeth gyda'r un amlygrwydd â newid yn yr hinsawdd yng nghanol y broses o wneud penderfyniadau yng Nghyngor Caerdydd.
- Cyflwyno sylwadau yn ôl yr angen i Lywodraethau Cymru a San Steffan, fel y bo'n briodol; i roi'r pwerau, yr adnoddau a'r cymorth technegol angenrheidiol i awdurdodau lleol yng Nghymru i'w helpu i gyflawni'r nod hwn yn llwyddiannus.
- Parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws y sir, y rhanbarth ac yn genedlaethol i ddatblygu a gweithredu dulliau arfer gorau a all ddiogelu bioamrywiaeth Cymru. Gan gynnwys ceisio dull gweithredu ar y cyd ag awdurdodau cyfagos.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid lleol gan gynnwys Cynghorwyr, trigolion, pobl ifanc, busnesau a phartïon perthnasol eraill, i ddatblygu strategaeth sy'n cyd-fynd ag Un Blaned a Choed Caerdydd gyda tharged o ddim colled net o ran bioamrywiaeth. Bydd hyn hefyd yn archwilio ffyrdd o fanteisio i'r eithaf ar fanteision lleol y camau gweithredu hyn mewn sectorau eraill fel cyflogaeth, iechyd, amaethyddiaeth, trafnidiaeth a'r economi.

**4.14** Mae'r Strategaeth a Ffefrir hon hefyd yn adlewyrchu'r Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) gan roi ystyriaeth lawn a gofalus i'r holl ffactorau perthnasol a glustnodwyd ynddo. Wrth i ni barhau â'r broses o baratoi'r Cynllun Newydd, bydd yr ACI a'r gofynion ar gyfer cynhyrchu'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) yn ein helpu i ddatblygu'r CDLl mewn modd sy'n sicrhau ei fod yn ystyried y gwerthoedd cynaliadwyedd ac amgylcheddol hynny.

**4.15** Bydd newidiadau cyd-destunol o'r fath, canfyddiadau'r Adroddiad Adolygiad Terfynol sy'n nodi hyd a lled y newidiadau tebygol i'r CDLl presennol a bydd newidiadau mewn tystiolaeth yn bwysig wrth lywio sut y caiff y Cynllun ei baratoi, a'i gyfeiriad yn strategol drwy'r Strategaeth a Ffefrir hon, ond hefyd ar lefel polisi manwl.

**4.16** Mae gwaith a chyswllt helaeth wedi, ac yn cael ei wneud i hybu a chodi ymwybyddiaeth a chyfathrebu gydag ystod eang o sefydliadau ac unigolion. Mae'r wybodaeth, y materion a'r dystiolaeth sy'n deillio o gyfathrebiadau o'r fath wedi bod yn amhrisiadwy yn y gwaith a wnaed hyd yma a bydd yn parhau i sicrhau bod paratoi'r CDLl mor seiliedig ar wybodaeth a chydsyniol â phosibl.



# 5. Cyd-destun Caerdydd

## The Cardiff Context

**5.1** Caerdydd yw prifddinas a dinas fwyaf Cymru a hi yw'r unfed ddinas ar ddeg fwyaf yn y Deyrnas Gyfunol. Mae wedi ei lleoli yn ne-ddwyrain Cymru ac ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Roedd Caerdydd yn dref fechan tan ddechrau'r 19fed ganrif, ei hamlygrwydd fel porthladd glo pan ddechreuodd cloddio am lo yn y rhanbarth yn helpu'r dref i ehangu. Pennwyd Caerdydd yn ddinas ym 1905 ac ym 1955 daeth Caerdydd yn brifddinas Cymru.

**5.2** Lleolir Caerdydd ar wastadedd arfordirol Aber Afon Hafren. Mae ymyl deheuol Maes Glo De Cymru yng Nghaerffili a Rhondda Cynon Taf yn gefnlen drawiadol gref yng ngogledd y ddinas, wedi'i hollti'n ddramatig gan Afon Taf yn Nhongwynlais. Mae Afonydd Elái a Rhymni hefyd yn cydgyfeirio'n y ddinas o'r gorllewin a'r dwyrain, yn y drefn honno. I'r de-orllewin mae llethrau Lecwydd ym Mro Morgannwg yn gefnlen gref arall. Mewn cyferbyniad, mae'r tir gwastad i'r de-ddwyrain, ger Aber Afon Hafren a Chasnewydd yn rhan o Wastadeddau Gwent. Mae'r glannau hyn sydd heb eu datblygu yn gwrthgyferbynnu â'r arfordir datblygedig ymhellach i'r gorllewin sy'n cynnwys Bae Caerdydd a'r Morglawdd a'r llyn dŵr croyw cysylltiedig. Mae'r lleoliad hwn wedi dylanwadu ar ddatblygiad y ddinas a'i ffurf drefol unigryw ac mae'n parhau i wneud hynny.

**5.3** Caerdydd yw prif ganolfan fasnachol Cymru yn ogystal â chartref y Senedd, canolfan Llywodraeth Cymru. Dangosodd yr amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn diwethaf fod gan y ddinas boblogaeth o 369,202. Mae economi'r ddinas yn bwysig yn genedlaethol ac mae'n brif sbardun i economi'r ddinas-ranbarth yn ne-ddwyrain Cymru sydd â chyfanswm poblogaeth o 1.54 miliwn.

**5.4** Mae Caerdydd yn ymestyn dros tua 54.2 milltir sgwâr, ac mae tua 53% o'r sir yn drefol gyda'r 47% sy'n weddill yn gyfuniad o gefn gwlad a dyffrynnoedd afonydd strategol sy'n cynnwys patrwm amrywiol o dirweddau ac ystod eang o adnoddau.

**5.5** Mae gan Gaerdydd gysylltiadau trafnidiaeth da o'r dwyrain i'r gorllewin am ei bod wedi ei lleoli ar goridor yr M4 a phrif reilffordd Llundain i dde Cymru ac yn cysylltu â'r cymoedd i'r gogledd trwy gyfrwng yr A470 a rhwydwaith reilffordd y Metro.

**5.6** Mae Caerdydd yn elwa o ystod eang ac amrywiol o gyfleusterau manwerthu, diwylliannol, addysg bellach a chwaraeon.

# 6. Heriau a Chyfleoedd Allweddol

**6.1** Mae'r materion, yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu Caerdydd wedi bwydo'n uniongyrchol ddatblygiad Gweledigaeth, Amcanion a Strategaeth a Ffefrir y CDLl Newydd ac mae'r rhain wedi'u rhestru'n llawn yn y Papur Ymgynghoriad ar Weledigaeth, Materion ac Amcanion (Mai 2021). Cardiff Darperir crynodeb o'r materion, yr heriau a'r cyfleoedd allweddol isod, wedi'u grwpio yn ôl meysydd pwnc:

## ECONOMAIDD

- Caerdydd yw sbardun economaidd y ddinas-ranbarth o 1.5 miliwn o bobl ac mae'n chwarae rhan hanfodol wrth greu swyddi a denu buddsoddiad. O ystyried hyn, mae'n bwysig bod y CDLl Newydd yn **darparu ar gyfer lefel briodol o swyddi newydd** i gyflawni dyheadau'r Cyngor a'r Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ehangach. Bydd angen i'r cynllun ystyried a yw'r tir cyflogaeth presennol mewn lleoliadau addas ac yn addas i'r diben ar gyfer sectorau twf priodol, ynghyd â'r cynnydd posibl mewn gweithio ystwyth a gweithio gartref, a'r effaith y gallai hyn ei chael ar alw/gofynion tir cyflogaeth.
- Mae ailddatblygu Bae Caerdydd wedi arwain at adfywio hen ardal y dociau gyda chyfleusterau busnes, preswyl, gwestyau, manwerthu a hamdden ac adloniant newydd. Mae'n hanfodol bod y CDLl Newydd yn darparu fframwaith polisi sy'n **parhau â'r adfywiad yma ar Fae Caerdydd** ac yn cefnogi nifer o brosiectau adfywio allweddol dros gyfnod y cynllun hyd at 2036.
- Mae'r porthladd gweithredol yng Nghaerdydd yn chwarae rhan sylweddol o ran symud nwyddau a rhaid i'r CDLl Newydd **ddiogelu a gwella'r rôl hon o ran y porthladd gweithredol**.
- Mae gan Gaerdydd gronfeydd mwynau calchfaen sylweddol o ansawdd da a chronfeydd wrth gefn sy'n ffynhonnell bwysig o agregau i'r rhanbarth. Bydd angen i'r CDLl Newydd **ddiogelu adnoddau mwynau hysbys a gwneud darpariaeth ar gyfer digon o gronfeydd mwynol** i fodloni'r dosraniad cronfeydd mwynol a gytunwyd ar gyfer y rhanbarth dros gyfnod y cynllun hyd at 2036.

## CYMDEITHASOL

- Mae poblogaeth y ddinas wedi cynyddu'n gyson dros yr 20 mlynedd diwethaf ac mae amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn dangos y bydd Caerdydd yn parhau i weld twf hyd at 2036. Mae twf parhaus poblogaeth y ddinas yn golygu bod angen gwneud darpariaeth ar gyfer cartrefi newydd a bydd angen i'r Cynllun **ddarparu lefel briodol o dai newydd gydag amrywiaeth a dewis o gartrefi newydd** a seilwaith cysylltiedig.
- Mae'r ddinas bellach yn ail, ychydig y tu ôl i Fro Morgannwg fel yr Awdurdod Lleol lleiaf fforddiadwy yng Nghymru ac yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae dros 7,600 o aelwydydd ar y rhestr aros tai cyfun ac mae digartrefedd yn parhau i gynyddu. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol drafft ar gyfer Caerdydd (sy'n aros am broses gymeradwyo Llywodraeth Cymru) yn amcangyfrif bod angen cyfartaledd o 1,090 o dai fforddiadwy net ychwanegol bob blwyddyn dros gyfnod y cynllun 15 mlynedd hyd at 2036. Mae'r amcangyfrif hwn wedi'i rannu rhwng 792 o unedau ar rhent cymdeithasol y flwyddyn a 298 y flwyddyn ar rhent canolradd / Perchentyaeth Cost Isel. O ystyried hyn, mae'r **angen i ddarparu mwy o dai fforddiadwy** yn fater allweddol i'r Cynllun ei ystyried. Bydd angen i'r CDLl Newydd sicrhau bod ystod a dewis o gartrefi yn cael eu hymgorffori o fewn datblygiadau newydd a nodi safleoedd fforddiadwy wedi eu harwain gan dai.
- Mae angen sylweddol yn y ddinas am leiniau newydd i Sipsiwn a Theithwyr er mwyn darparu ar gyfer y twf yn safleoedd presennol y ddinas. Bydd y CDLl Newydd **angen nodi safleoedd Sipsiwn a Theithwyr priodol** i ddiwallu'r angen amlwg hwn.
- Mae anghydraddoldebau mawr i'w cael o fewn y ddinas gydag amddifadedd o ran tai, yr amgylchedd ffisegol, cyflogaeth, incwm, cyflawniadau addysgol ac iechyd yn gyffredinol wedi'u canoli yn yr 'arc ddeheuol' - ardal sy'n ymestyn o Drelái yn y gorllewin i Laneirwg yn y dwyrain gyda phoblogaeth o tua 155,000 o bobl. Bydd angen i'r CDLl Newydd ddarparu fframwaith polisi sy'n **lleihau anghydraddoldebau ar draws y ddinas** dros gyfnod y cynllun hyd at 2036.
- Mae gan Gaerdydd gefndir diwylliannol amrywiol a lleiafrifoedd ethnig sydd i gyfrif am 15.3% o boblogaeth Caerdydd. Mae hyn lawer yn uwch na chyfartaledd Cymru o 4.4%, a'r uchaf o bell ffordd ymhlith awdurdodau lleol Cymru. Mae yna hefyd fwy o amrywiaeth ymysg poblogaeth ifanc y ddinas: yng Nghaerdydd, mae 22.4% o'r rhai 0-19 oed yn nodi eu bod yn perthyn i grŵp lleiafrif ethnig. Bydd angen i'r CDLl Newydd **ystyried anghenion penodol lleiafrifoedd ethnig** wrth gynllunio datblygiadau newydd.
- Mae gan drigolion Caerdydd ffyrdd iachach o fyw na chyfartaledd Cymru: maent yn bwyta mwy o ffrwythau/llysiau, yn gwneud mwy o weithgarwch corfforol, ac yn llai tebygol o ysmygu. Fodd bynnag, mae mwy na hanner poblogaeth Caerdydd dros bwysau, yn ordew neu dan bwysau; ac mae bron i draean yn gwneud llai na 30 munud o weithgaredd corfforol yr wythnos. Bydd angen i'r CDLl Newydd **hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw a mwy o weithgarwch corfforol**.
- Er bod lefel troseddau a gofnodwyd yn gyffredinol wedi gostwng yn sylweddol yn y ddinas dros y 15 mlynedd diwethaf, ni welwyd gostyngiad cyfatebol o ran ofn troseddu oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol neu feddw, gyrwyr peryglus a diffyg seilwaith pwrpasol i feicwyr. Bydd angen i'r CDLl Newydd **helpu i fynd i'r afael â throsedd ac ofn troseddu.**
- Canol dinas Caerdydd yw prif ganolfan siopa de-ddwyrain Cymru ac fe'i cefnogir gan amrywiaeth o ganolfannau ardal a lleol sy'n cynnig cyfleusterau siopa a chymunedol lleol a gwasanaethau gwerthfawr i drigolion. Cyn y pandemig, roedd manwerthwyr eisoes yn wynebu amodau masnachu anodd; cyflymodd cyfyngiadau'r pandemig y duedd hon gan arwain at gau nifer o siopau ffisegol wrth i gwmnïau ailstrwythuro, mynd i ddwylo gweinyddwyr neu gael eu datod, gan arwain at lefelau uwch o swyddi gwag ar draws y canolfannau. Bydd gofyn i'r CDLl Newydd ddarparu fframwaith polisi i adfywio canol y ddinas a chydnabod pwysigrwydd darparu cyfleusterau siopa canolfannau ardal a lleol a

gwasanaethau sy'n hygyrch ac sy'n darparu swyddi lleol i drigolion yn ogystal â chynnal cymunedau ffyniannus a bywiog.

- Mae poblogaeth y ddinas yn mynd yn hŷn. Erbyn 2037 rhagamcennir y bydd nifer y bobl sy'n 65-84 oed yn cynyddu 42% a'r nifer sy'n 85 oed ac yn hŷn bron yn dyblu. Mae poblogaeth hŷn yn newid y math o dai a gwasanaethau (fel iechyd a gofal) y bydd eu hangen ar ein cymunedau, ond hefyd yn lleihau nifer y bobl sy'n defnyddio ac yn cefnogi busnesau a gwasanaethau yn ariannol. Bydd angen i'r fframwaith polisi yn y CDLl Newydd **ymateb i anghenion poblogaeth hŷn.**

## DIWYLLIANNOL

- Mae'r iaith, diwylliant a'r dreftadaeth Gymraeg yn bwysig i wead cymdeithasol a diwylliannol a hunaniaeth gymunedol Caerdydd. Mae canlyniadau'r cyfrifiad o 2021 yn dangos bod 12.2% o drigolion Caerdydd yn gallu siarad Cymraeg, cynnydd o 1.1% ers 2011; gyda Chaerdydd yn gweld y cynnydd mwyaf mewn siaradwyr Cymraeg o bob awdurdod lleol. Gellir priodoli llawer o'r cynnydd hwn i blant ifanc. O ran niferoedd yn hytrach na chyfran, Caerdydd sydd â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Bydd angen i'r fframwaith polisi yn y CDLl Newydd **hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y ddinas** drwy greu amodau ffafriol i'r Gymraeg ffynnu.
- Mae gan Gaerdydd dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog. Ym mis Rhagfyr 2019 cafodd Caerdydd ei datgan yn ddinas gerddoriaeth gyntaf y Deyrnas Gyfunol a nod ei Strategaeth Gerddoriaeth yw gosod cerddoriaeth yng nghanol dyfodol Caerdydd. Rhaid i'r fframwaith polisi yn y CDLl Newydd ategu'r nod hwn.
- Mae sector twristiaeth a hamdden Caerdydd yn creu buddion economaidd a diwylliannol sylweddol i'r ddinas a'r rhanbarth ehangach. Bydd angen i'r CDLl Newydd ystyried mesurau i **gefnogi'r sector a'i helpu i adlamu'n ôl wedi effeithiau'r pandemig.**
- Mae gan Gaerdydd dreftadaeth adeiledig gref a chyfoethog a gwnaed nifer o ddynodiadau i nodi asedau treftadaeth yng Nghaerdydd. Mae Cryfach, Tecach, Gwyrddach yn cynnwys ymrwymiad i warchod a dathlu adeiladau lleol fel tafarndai, mannau cymunedol a lleoliadau cerddoriaeth - yn enwedig y rhai sy'n rhan gyfoethog o hanes dosbarth gweithiol y ddinas - drwy gryfhau ein rheoliadau cynllunio. Bydd angen i'r fframwaith polisi yn y CDLl Newydd ymateb i hyn a **diogelu'r asedau treftadaeth adeiledig hyn.**

## AMGYLCHEDDOL

- Mae angen mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau carbon. Mae'r Cyngor wedi datgan ein bod mewn argyfwng hinsawdd ac wedi ymrwymo i ymdrechu i fod yn ddinas garbon niwtral erbyn 2030. Bydd angen i'r CDLl Newydd ddarparu fframwaith polisi i **cefnogi a galluogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy a sefydlu gofynion ar gyfer datblygiadau carbon isel ac egwyddorion datblygu cynaliadwy eraill fel teithio llesol a seilwaith gwyrdd.**
- Mae gan Gaerdydd gasgliad amrywiol ac eang o rywogaethau a safleoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth yn lleol, ar lefel y Deyrnas Gyfunol ac ar lefel Ewropeaidd sydd angen eu diogelu. Mae'r ddinas wedi datgan argyfwng natur a bydd angen fframwaith polisi cadarn ar y CDLl Newydd sy'n cynnal ac yn gwella **bioamrywiaeth, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau ond hefyd yn galluogi sicrhau 'budd net' o ran bioamrywiaeth** ar safleoedd datblygu newydd.
- Mae Caerdydd wedi'i lleoli ar yr arfordir ac ar gydgyfeiriad tair afon fawr ac mae mewn mwy o berygl o lifogydd oherwydd lefelau'r môr yn codi a digwyddiadau tywydd eithafol amlach. Mae amlder a difrifoldeb llifogydd yn cynyddu a disgwylir iddo gynyddu ymhellach yn sgil newid yn yr hinsawdd. Bydd angen i'r CDLl Newydd ddarparu fframwaith polisi i s**icrhau bod perygl llifogydd a datblygiadau newydd yn cael eu rheoli'n effeithiol** gan ystyried y dystiolaeth a'r canllawiau diweddaraf.
- Mae Caerdydd eisoes yn cyflawni un o'r cyfraddau ailgylchu gorau yn y byd, ond ar hyn o bryd rydym yn perfformio'n wael o'i gymharu ag Awdurdodau Lleol eraill Cymru ac mae angen i ni adeiladu ymhellach ar y cynnydd hwn i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o 70% erbyn 2025. Bydd angen i'r fframwaith polisi yn y CDLl Newydd **helpu'r ymgyrch i sicrhau cyfraddau ailgylchu uwch** a meithrin yr economi gylchol.
- Wrth i Gaerdydd barhau i dyfu, bydd angen seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy newydd law yn llaw â chartrefi a swyddi newydd. Bydd y CDLl Newydd yn darparu fframwaith polisi a fydd yn **lleihau'r ddibyniaeth ar geir** a thrwy hynny leihau tagfeydd ac allyriadau niweidiol a **cheisio hyrwyddo newid moddol i fathau cynaliadwy o deithio fel bysiau a threnau a theithio llesol fel cerdded a beicio**.
- Rhagwelir y bydd perchnogaeth cerbydau trydan yn codi i gyfran o 60% o'r farchnad erbyn 2030 felly bydd angen i'r CDLl Newydd ddarparu fframwaith polisi **sy'n darparu'r seilwaith gwefru angenrheidiol.**
- Mae lleoliad Caerdydd yn nodedig iawn gyda'r gefnen i'r gogledd, llethrau Lecwydd i'r gorllewin, gwastadeddau isel Gwent i'r dwyrain, Aber Afon Hafren i'r de, a thri dyffryn afon yn rhedeg drwy'r ddinas. Mae astudiaethau tirwedd wedi cydnabod gwerth yr ardaloedd cefn gwlad o fewn y ddinas ac mae tri dyffryn afon Caerdydd sef y Taf, yr Eláí a'r Rhymni (gan gynnwys Nant Fawr) yn chwarae rhan strategol bwysig fel coridorau bywyd gwyllt a hamdden sy'n cysylltu'r ardal drefol â chefn gwlad. Bydd angen i'r CDLl Newydd ddarparu fframwaith polisi sy'n **gwarchod y patrwm tirweddau amrywiol yma**.
- Mae coed yn cynnig adnodd gweledol ac amgylcheddol gwerthfawr, yn darparu clustogfa rhag llygredd sŵn, yn gwella ansawdd aer, yn cysgodi, oeri'r aer, rhoi cysgod rhag yr elfennau, cadw priddoedd, tarfu ar a storio dŵr glaw a chynnig cartref a mannau bwydo ar gyfer amrywiaeth eang o fywyd gwyllt. Gall coed a choetiroedd hefyd ddarparu ardaloedd ar gyfer chwarae anffurfiol. Mae Cryfach, Tecach, Gwyrddach, yn cynnwys ymrwymiad i gynyddu canopi coed ac ardaloedd bioamrywiol y ddinas o 19% i 25% o ran cyfanswm y defnydd tir. Bydd angen i'r CDLl Newydd ymateb i hyn a darparu fframwaith polisi sy'n **cynnal a gwella coedwig drefol amrywiol.** Bydd hyn yn sicrhau bod Caerdydd yn aros yn lle deniadol a braf i fyw ynddo, yn arbennig yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd, a fydd yn gweld mwy o berygl llifogydd, datblygiad hinsawdd llai tymherus a mwy o bwysau ar adnoddau pridd bregus.

- Mae seilwaith gwyrdd a glas yn bwysig ar gyfres o raddfeydd, megis adeiladau unigol, strydoedd, cymdogaethau neu ar raddfa tirwedd. Maent yn helpu bywyd gwyllt i ffynnu, ac yn dod â nifer o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan gynnwys lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd, gwella cynefinoedd bioamrywiaeth a chyfraddau atgynhyrchu rhywogaethau, gan gynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer chwaraeon a hamdden a chyfrannu at iechyd a lles cymunedau a chreu lleoliadau mwy pleserus yn weledol. Atgyfnerthwyd hyn yn ystod pandemig Covid-19 gyda'r cyfnodau clo yn pwysleisio gwerth a phwysigrwydd creu lleoedd a darparu mannau agored lleol ar gyfer iechyd, lles a hamdden. Mae'n bwysig bod y CDLl Newydd yn darparu fframwaith polisi **sy'n sicrhau bod datblygiadau newydd yn ystyried y manteision sy'n codi o seilwaith gwyrdd a glas,** a bod effeithiau datblygu ar y buddion hynny yn cael eu hystyried ar y raddfa briodol.
- Mae pridd yn adnodd bregus, na ellir yn ei hanfod ei adnewyddu sydd yn gallu cynnig nifer o wasanaethau buddiol, gan gynnwys storio carbon, cefnogi twf planhigion, gan gynnwys cnydau economaidd, cynnig cartref i amrywiaeth eang o fywyd gwyllt, storio, hidlo a rheoli llif dŵr, a chynnal adeiladau. Bydd angen fframwaith polisi ar y CDLl Newydd sy'n **osgoi dinistrio priddoedd neu golli defnydd ymarferol o briddoedd yn ddiangen mewn datblygiadau newydd.**
- Er gwaethaf gwelliannau wrth ryddhau carthion yng Nghaerdydd ac ymhellach i fyny'r afon, mae ansawdd dŵr Afonydd Elái, Taf a Rhymni yn dal i fod yn is na gofynion mesurau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr; er enghraifft, mae afon Elái mewn 'cyflwr gwael' ac mae afonydd Taf a Rhymni mewn 'cyflwr cymedrol'. O ystyried hyn, bydd angen fframwaith polisi ar y CDLl Newydd sy'n **gwarchod ac yn gwella ansawdd dŵr** pan gynigir datblygiad newydd a allai effeithio ar yr afonydd hyn.
- Wrth i Gaerdydd barhau i dyfu, bydd angen hyrwyddo dyluniad o ansawdd uchel ac o greu lleoedd sy'n ystyried hynodrwydd lleol. Mae dylunio da yn fwy na dim ond ymddangosiad. Mae'n ymwneud â sut mae adeiladau'n cysylltu â'u hamgylchoedd, o ran dylunio trefol, tirlunio, plannu coed, golygfeydd lleol a'r patrwm gweithgarwch lleol. Bydd angen i'r fframwaith polisi yn y CDLl Newydd **sicrhau nad yw hynodrwydd lleol Caerdydd yn cael ei danseilio drwy ddatblygiadau newydd ansensitif ond yn cael ei atgyfnerthu trwy atebion dylunio o ansawdd uchel.**
- Caerdydd sydd â'r lefelau llygredd NO2 a Deunydd Gronynnol (PM2.5 a PM10) uchaf yng Nghymru. Mae llygredd aer yn un o brif achosion salwch a marwolaethau y gellir eu hosgoi, gyda thrafnidiaeth petrol a disel yn gyfrannwr mawr. Mae ansawdd aer gwael hefyd yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd naturiol ac ar goetiroedd fel Coed Ffawydd Caerdydd yng ngogledd-orllewin y ddinas. Bydd angen i'r CDLl Newydd ddarparu fframwaith polisi sy'n **lliniaru unrhyw effeithiau ar ansawdd aer yn deillio o ddatblygiadau newydd.**



# 7. Gweledigaeth ac Amcanion

## Gweledigaeth

Creu dinas deg, iach, yn lle gwell i fyw ynddi, sy'n gynaliadwy ac yn garbon-isel drwy:

- Greu dinas sy'n fwy gwyrdd, teg a chryf sy'n gwella iechyd y boblogaeth bresennol a llesiant cenedlaethau'r dyfodol;
- Bodloni anghenion am gartrefi carbon-isel, swyddi a seilwaith newydd yn y dyfodol;
- Datblygu dinas amlwg o ran ei hygyrchedd sy'n ail-siapio symudiadau wedi ei seilio yn y bôn ar ddulliau teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus;
- Defnyddio dulliau creu lleoedd, dylunio o ansawdd uchel, rheoli cynaliadwyedd a gweithio gyda chymunedau lleol i greu canol dinas a chymdogaethau lleol ffyniannus;
- Gwarchod a gwella ein hasedau naturiol, hanesyddol a diwylliannol;
- Rhoi Caerdydd ar flaen y gad ymhlith dinasoedd gan ddangos arweiniad a chymryd camau gweithredu beiddgar i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

**7.1** Mae angen i'r CDLl Newydd fod wedi ei seilio ar weledigaeth a strategaeth gryno, hirdymor sy'n amlinellu sut y cynllunir i'r ddinas ddatblygu, newid neu gael ei chadw hyd at 2036.

**7.2** Ymgynghorwyd ar weledigaeth y CDLl Newydd yn ystod haf 2021 a'i chymeradwyo gan y Cyngor ar 30 Medi 2021. Er nad oes gweledigaeth i fanteisio arni'n uniongyrchol o Gynllun Llesiant Caerdydd 2023 i 2028, mae gweledigaeth y CDLl Newydd yn adlewyrchu ei saith nod llesiant sef:

1. **Prifddinas sy'n gweithio i Gymru**
2. **Caerdydd Un Blaned**
3. **Cymunedau diogel, hyderus a grymus**
4. **Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu i fyny**
5. **Cefnogi pobl allan o dlodi**
6. **Mae Caerdydd yn lle gwych i heneiddio a**
7. **Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus.**

**7.3** Defnyddiwyd amcanion strategol y CDLl mabwysiedig presennol fel man cychwyn ar gyfer nodi amcanion strategol ar gyfer y CDLl Newydd.

**7.4** Mae ymddangosiad ystod o sbardunau cyd-destunol a pholisi ers i'r CDLl mabwysiedig gael ei baratoi, yn fwyaf nodedig Cymru'r Dyfodol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, datgan argyfyngau hinsawdd a natur, a'r angen i ymateb i effeithiau'r pandemig yn golygu bod angen adolygu amcanion strategol y CDLl mabwysiedig. Roedd angen hefyd sicrhau bod amcanion strategol y CDLl Newydd yn cael eu plethu â materion allweddol a gweledigaeth y CDLl Newydd.

**7.5** Er nad ydynt wedi'u clustnodi'n uniongyrchol fel amcanion strategol CDLl Newydd diwygiedig ynddynt eu hunain, mae Nodau Llesiant y Cyngor, fel yr amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol wedi chwarae rôl ategol bwysig. Mae Atodiad 2 yn cynnwys asesiadau cydnawsedd rhwng amcanion strategol diwygiedig y CDLl Newydd, y Nodau Llesiant, Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Chanlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol a nodir yn Polisi Cynllunio Cymru a Chymru'r Dyfodol.

**7.6** Mae amcanion strategol Diwygieidig y CDLl Newydd yn dangos digon o ddyhead ac uchelgais ond gellir eu cyflawni hefyd o fewn cyd-destun cynllunio gofodol. Maent yn ymateb ac yn cyflawni o ran y prif faterion, yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu Caerdydd ac yn rhoi llwyfan i gyflawni ei weledigaeth. Yn bwysig, maent yn cynnig llwyfan i Gynllun cadarn, yn enwedig o ran eu haddasrwydd, eu priodoldeb a pha mor gyflawniadwy ydynt.

**7.7** Mae amcanion strategol y CDLl Newydd wedi'u grwpio isod o dan dri phrif bennawd.

# 1. Ymateb i'n hangen yn y dyfodol



***Amcan 1: Darparu amrywiaeth o gartrefi carbon-isel o ansawdd i fynd i'r afael â'r argyfwng tai ac anghenion tai yn y dyfodol.***

***Bydd y Cynllun yn:***

- blaenoriaethu adeiladu tai fforddiadwy a gosod targedau ar gyfer darparu tai fforddiadwy;
- Darparu amrywiaeth a dewis o gartrefi newydd o wahanol ddeiliadaeth, math a lleoliad mewn ymateb i anghenion tai penodol, gan gynnwys ymateb i anghenion pobl hŷn;
- Darparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr a grwpiau eraill sydd angen tai arbenigol;
- Chwilio am gyfleoedd ar gyfer cartrefi newydd yn y ddinas a chanolfannau lleol a lleoliadau tir llwyd cynaliadwy; a
- Ei gwneud yn ofynnol i gartrefi newydd fod yn ddi-garbon erbyn 2025.





***Amcan 2: Darparu gofod ar gyfer mwy o swyddi a manteisio i'r eithaf ar rôl Caerdydd fel prifddinas Cymru a sbardun economaidd de-ddwyrain Cymru i wella ffyniant y rhanbarth.***

***Bydd y Cynllun yn:***

- Sicrhau ystod a dewis o safleoedd cyflogaeth mewn ymateb i anghenion cyflogaeth;
- Blaenoriaethu cyfleoedd ar gyfer safleoedd cyflogaeth newydd yng nghanol y ddinas a lleoliadau tir llwyd cynaliadwy;
- Sicrhau bod clystyrau sectorau arbenigol uchel eu gwerth yn cael eu datblygu;
- Sicrhau bod tir cyflogaeth presennol sy'n cyfrannu at gyflenwi'r safleoedd sy'n ofynnol i fodloni anghenion cyflogaeth yn cael ei warchod;
- Sicrhau adferiad economaidd y ddinas ar ôl Covid-19 ac ymateb i'r newid mewn arferion gwaith drwy wella canol y ddinas, mwy o weithio gartref a'r angen am hybiau gweithio a chyfarfod newydd ledled y ddinas.



***Amcan 3: Sicrhau bod seilwaith newydd yn cael ei ddarparu'n brydlon ac yn ddigonol i gefnogi cymunedau a thwf yn y dyfodol.***

***Bydd y Cynllun yn:***

- Nodi'r seilwaith allweddol sydd ei angen, sut a phryd y caiff ei gyflawni gan gynnwys:
  - Ail-gydbwyso seilwaith trafnidiaeth i gefnogi tramwy torfol cyhoeddus fel rhan o'r prosiect Metro, a seilwaith beicio a cherdded cynhwysfawr;
  - Seilwaith cymdeithasol a chymunedol i gefnogi'r cysyniad o gymdogaethau 15 munud;
  - Ysgolion, cyfleusterau iechyd, chwaraeon/hamdden, cyfleusterau gwastraff, darpariaeth gladdu, dŵr, dŵr gwastraff, ac ynni;
  - Amgylcheddol - Cyfraniadau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, creu mannau gwyrdd a thir cyhoeddus hygyrch newydd;

- Cefnogi sefydliadau a seilwaith addysg uwch Caerdydd i gydnabod eu rôl allweddol fel rhan o ddinas ddysgu a'u cyfraniad at ddatblygu economaidd;
- Sefydlu camau i wella cysylltedd digidol ledled y ddinas i ateb y galw sy'n deillio o weithio gartref cynyddol yn dilyn Covid a hwyluso mannau cyfarfod a gweithio newydd ledled y ddinas.
- Ystyried Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) fel mecanwaith i sicrhau buddsoddiad mewn seilwaith sy'n gysylltiedig â datblygiadau cymwys newydd.

# 2. Creu dinas gynaliadwy ac iach sy'n ymateb i heriau newid yn yr hinsawdd ac yn gwella llesiant cenedlaethau'r dyfodol



***Amcan 4: Ymateb i'r argyfwng hinsawdd fel bod Caerdydd yn dod yn fwy gwydn ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gael atebion sy'n defnyddio ynni'n effeithlon yn unol â Strategaeth Caerdydd Un Blaned i ddod yn ddinas garbon niwtral erbyn 2030.***

***Bydd y Cynllun yn: :***

- Nodi sut y bydd Caerdydd yn dod yn ddinas a Chyngor di-garbon gyda phartneriaid allweddol erbyn 2030 a thu hwnt, a chwilio am ffyrdd o fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd gan gynnwys:
  - Rôl ecosystemau wrth fynd i'r afael â storio carbon, rheoli llifogydd yn naturiol, ansawdd aer, ynysoedd gwres a llygredd sŵn;
  - Polisïau i gyflawni datblygiadau newydd di-garbon;
  - Rheoli perygl llifogydd;
  - Sicrhau darpariaeth seilwaith ar gyfer cerbydau glanach.



- Nodi'r mesurau i leihau ôl troed carbon Caerdydd a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy leihau'r galw am ynni gan gynnwys:
  - Lleoli datblygiadau mewn mannau cynaliadwy er mwyn lleihau'r angen i deithio a lleihau dibyniaeth ar geir;
  - Gwella effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon-isel;
  - Sicrhau bod Cam 1 a Cham 2 y Rhwydwaith Gwres Lleol ar gyfer Bae Caerdydd a chanol y ddinas yn cael ei gyflawni;
  - Sicrhau cynnydd yn y gorchudd canopi coed ledled y ddinas a chefnogi bioamrywiaeth ehangach; a
- Hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel a pherfformiad amgylcheddol cartrefi newydd



***Amcan 5: Gwneud y ddinas yn haws symud ynddi gyda ffocws ar deithio cynaliadwy a llesol.***

***Bydd y Cynllun yn:***

- Nodi sut y gall pobl symud o amgylch y ddinas mewn modd mwy cynaliadwy, iach ac integredig gyda datblygiadau newydd wedi'u lleoli'n dda o ran y seilwaith trafnidiaeth;
- Cael gwared ar dagfeydd yn y ddinas a sicrhau bod allyriadau'n cyrraedd y safonau ansawdd aer;
- Sicrhau bod seilwaith bysiau a beicio yn cael eu darparu;
- Sicrhau bod canolfannau ardal a lleol a chanol y ddinas yn dod yn fwy hyfyw a hygyrch;
- Sicrhau amgylchedd o ansawdd uchel i gerddwyr ac ardaloedd cyhoeddus;
- Sicrhau bod cyflawni targed y rhaniad moddol a theithio llesol yn cyd-fynd â thargedau'r Papur Gwyn Trafnidiaeth;
- Integreiddio'r system tramwy torfol Metro/Cledrau Croesi arfaethedig ar gyfer Caerdydd;
- Hyrwyddo mathau cynaliadwy o drafnidiaeth ac integreiddio trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy effeithiol gan gynnwys cyfnewidfeydd trafnidiaeth newydd ac
- Integreiddio datblygiadau newydd gyda buddsoddiad cenedlaethol a rhanbarthol mewn seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy gan gynnwys Metro De Cymru.



## *Amcan 6: Creu amgylcheddau iachach, lleihau anghydraddoldebau a gwella llesiant.*

### *Bydd y Cynllun yn:*

- Cyfrannu'n gadarnhaol at gyfle cyfartal a mynediad i bawb drwy fynd i'r afael ag anghydbwysedd anghydraddoldeb, amddifadedd ac allgáu;
- Cefnogi anghenion pobl ddigartref, di-waith, pobl ag anableddau, pobl sy'n uniaethu fel rhai sy'n perthyn i grŵp lleiafrif ethnig, a phobl ag angen tai;
- Hyrwyddo rôl Caerdydd fel Dinas Noddfa fel lle croesawgar a chynhwysol i fyw ynddo;
- Cefnogi'r gwaith o ddarparu amgylcheddau iachach a hygyrch er mwyn helpu i fynd i'r afael â gordewdra, dibyniaeth ar gamblo a mynediad at fwyd iach lleol a hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw;
- Sicrhau cymunedau cryf a chydlynol sy'n cydnabod addewid Caerdydd i wneud Caerdydd yn Ddinas sy'n Dda i Blant ac yn Ddinas sy'n Dda i Bobl Hŷn;
- Nodi sut y gellir cyflawni safonau ansawdd aer ac ansawdd dŵr;
- Hyrwyddo rôl mannau gwyrdd, strydoedd gwyrdd a gwelliannau ardal gyhoeddus, o ran sicrhau manteision llesiant;
- Rheoli gwastraff, sicrhau ailddefnyddio ac ailgylchu, a rheoli llygredd;
- Sicrhau bod canol y ddinas yn cael ei adfywio'n amgylchedd a phrofiad iach, hygyrch, gwyrdd o ansawdd uchel i bawb;
- Cyflawni adfywio cymdogaethau lleol a chanolfannau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd uwch;
- Sicrhau amgylcheddau mwy diogel sy'n lleihau'r posibilrwydd o droseddu;
- Hwyluso mynediad teg a chyfle i addysg Gymraeg ym mhob rhan o'r ddinas fel bod yr iaith yn parhau i ffynnu;
- Hyrwyddo darpariaeth gwasanaethau a swyddi yn yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf i leihau anghydraddoldebau; a
- Hyrwyddo rôl seilwaith naturiol a chaled i leihau llygredd sŵn.





## *Amcan 7: Sicrhau canol dinas defnydd cymysg bywiog a ffyniannus a datblygu potensial llawn Bae Caerdydd fel cyrchfan graidd i Gaerdydd a thu hwnt, ond gan sicrhau canolfannau manwerthu ardal a lleol ffyniannus a bywiog wrth wraidd cymdogaethau lleol.*

### *Bydd y Cynllun yn:*

- Manteisio i'r eithaf ar rôl strategol allweddol Canol y Ddinas fel canolfan gwasanaethau ariannol dwysedd uchel a chanolfan gymdeithasol o bwys cenedlaethol a chreu effaith gydgrynhoi wrth ddenu buddsoddiad pellach;
- Diogelu a gwella rôl canolfannau ardal a lleol gydag amrywiaeth o ddefnyddiau sy'n gwasanaethu cymunedau lleol, sy'n hygyrch drwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio;
- Sicrhau bod canol y ddinas yn cael ei adfywio a'i uwchraddio'n gynhwysfawr yn 'amgylchedd cyrchfan' pwysig, bywiog, gwyrdd, cynhwysol, hygyrch ac o ansawdd uchel;
- Manteisio i'r eithaf ar y potensial ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg dwysedd uchel ynghlwm â'r orsaf drafnidiaeth yn y Sgwâr Canolog;
- Cefnogi gallu canol y ddinas ac ardaloedd ehangu i addasu drwy sicrhau rhagdybiaeth o ran defnydd cymysg a buddsoddiad pellach law yn llaw â'r rôl fanwerthu allweddol;
- Parhau i adfywio tir i'r de o'r orsaf drafnidiaeth ranbarthol a chysylltu â Bae Caerdydd;
- Sicrhau cyflwyno datblygiad Cwr y Gamlas yn gynt, i greu cyrchfan fawr newydd yng nghanol y ddinas, gan gysylltu'r ddinas â glan ei hafon a chreu mannau cyhoeddus newydd;
- Sicrhau y gall canolfannau weithredu mor hyblyg â phosibl lle mae amrywiaeth o ddefnyddiau manwerthu, cyflogaeth, masnachol, cymunedol, hamdden, iechyd a sector cyhoeddus yn dod at ei gilydd mewn berw o weithgarwch i'w gwneud yn ddichonadwy fel cyrchfannau i fynd iddynt unwaith eto, drwy lunio gweledigaeth ar gyfer pob canolfan, sefydlu ffiniau a nodi safleoedd ar gyfer ailddatblygu; a
- Parhau i adfywio Bae Caerdydd fel cyrchfan dwysedd uchel, defnydd cymysg gan:
  - Ddarparu seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy gan gynnwys Cledrau Croesi rhwng yr Orsaf Ganolog, y Bae a Heol Casnewydd – gan gynnwys adfywio o amgylch gorsafoedd newydd yn y ddinas, Rhodfa Lloyd George, y Bae, Ffordd y Cefnfor, Sblot ac ardaloedd Heol Casnewydd;
  - Adfywio Rhodfa Lloyd George a'r ardal gyfagos;
  - Gwelliannau i ardal Sgwâr Mount Stuart a datblygu arena yn Nglanfa'r Iwerydd gan gynnwys cysylltiadau â glannau'r Bae;
  - Camau pellach ar gyfer safle'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol yn y dyfodol;
  - Adfywio ardal Dociau Caerdydd, gan gynnwys ardaloedd Doc y Rhath/ Basn y Rhath a Phentir Alexandra.



### *Amcan 8: Sicrhau bod y ddinas yn addasu'n gadarnhaol i'r heriau newydd a ddaw yn sgil goblygiadau'r pandemig.*

**Bydd y Cynllun yn:**

- Gweithredu ar y gwersi a ddysgwyd i sicrhau bod y ddinas yn fwy gwydn a hyblyg os ceir achosion pandemig yn y dyfodol;
- Cefnogi adferiad y ddinas ar ôl y pandemig;
- Nodi'r newidiadau ehangach sydd eu hangen sydd hefyd yn helpu'r agenda datgarboneiddio, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwella iechyd a llesiant; a
- Nodi unrhyw newidiadau parhaol cadarnhaol gofynnol mewn mannau ac fel rhan o ddatblygiadau newydd; a
- Ymateb i'r newid mewn arferion gwaith ar ôl Covid drwy gynnydd mewn gweithio gartref a'r angen am fannau gweithio a chyfarfod newydd ledled y ddinas.



### *Amcan 9: Defnyddio dull creu lleoedd i greu mannau cynaliadwy, gwella canol y ddinas a'i chymdogaethau, manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd adfywio, gwella rôl mannau cyhoeddus, sicrhau y gellir rheoli twf yn effeithiol yn y dyfodol a chyflawni datblygiadau newydd â dylunio o ansawdd uchel.*

**Bydd y Cynllun yn:**

- Diffinio egwyddorion creu lleoedd fel dull trosfwaol wrth lunio cynlluniau i greu lleoedd gwych mewn lleoliadau newydd a phresennol i:
  - Sicrhau bod pensaernïaeth, dyluniadau tirwedd a chreu lleoedd o ansawdd uchel yn flaenoriaeth ar gyfer pob datblygiad newydd, tai, adeiladau, lleoedd, strydoedd a mannau gwyrdd;
  - Ystyried anghenion, iechyd a lles pawb o'r dechrau'n deg;
  - Hyrwyddo datblygiadau yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy a'r defnydd mwyaf effeithlon ar dir gan flaenoriaethu 'tir llwyd yn gyntaf';



  - Hyrwyddo teithio cynaliadwy a llesol yn rhan o rwydwaith symud sy'n fwy integredig;
  - Hyrwyddo datblygiadau defnydd cymysg dwysedd uchel;
  - Darparu mannau cyhoeddus sydd wedi'u cynllunio'n dda ac sy'n gysylltiedig;
  - Diffinio nodweddion lleol o ran cymeriad a natur unigryw mewn datblygiadau newydd;
  - Sefydlu rheolaethau llym ar is-rannu cartrefi sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys addasiadau i fflatiau a Thai Amlfeddiannaeth.

# 3. Gofalu am ein hasedau naturiol, hanesyddol a diwylliannol



### *Amcan 10: Sicrhau gwydnwch ecosystemau drwy warchod a gwella Seilwaith Gwyrdd a Glas Caerdydd, ei bioamrywiaeth ac asedau naturiol eraill.*

**Bydd y Cynllun yn:**

- Gwneud Caerdydd yn ddinas werdd enghreifftiol drwy sicrhau gwydnwch ecosystemau;
- Nodi ac esbonio sut bydd asedau naturiol allweddol y ddinas yn cael eu diogelu a'u gwella, gan gynnwys:
  - Mannau agored, parciau a rhandiroedd;
  - Gwella mynediad at ddyffrynnoedd afonydd Elái, Taf, Nant Fawr a Rhymni sydd o bwysigrwydd strategol;
  - Cefn gwlad, gan gynnwys y 'gefnlen werdd' strategol bwysig a ffurfiwyd gan y gefnen i'r gogledd o'r ddinas;
  - Adnodd bioamrywiaeth a bywyd gwyllt cyfoethog Caerdydd gan gynnwys safleoedd dynodedig a nodweddion/rhwydweithiau eraill gan gynnwys coed a gwrychoedd;

- Cydnabod y rôl y gall seilwaith gwyrdd ei chwarae wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd;
- Darparu budd net ar gyfer bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, hyrwyddo lles a chreu amgylcheddau iach; a
- Sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu diogelu gan gynnwys adnoddau a chronfeydd mwynau a thywod/graean.



***Amcan 11. Diogelu a gwella asedau hanesyddol a diwylliannol Caerdydd ynghyd â chefnogi sectorau twristiaeth a diwylliant cynaliadwy.***

***Bydd y Cynllun yn:***

- Nodi ac esbonio sut y caiff asedau hanesyddol a diwylliannol allweddol y ddinas eu diogelu a'u gwella gan gynnwys:
  - Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig, Henebion, Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig y ddinas ac ardaloedd o bwysigrwydd archeolegol;
  - Nodweddion eraill nad ydynt wedi'u dynodi sy'n gwneud cyfraniadau pwysig i hynodrwydd hanesyddol a diwylliannol Caerdydd.
- Nodi sut y gellir gwarchod a gwella sefyllfa'r Gymraeg yn unol â deddfwriaeth berthnasol gan gynnwys seilwaith, datblygiadau, dehongli ac arwyddion newydd;
- Nodi sut y gall economi nos a sîn gerddoriaeth Caerdydd fod yn rhan o ganol dinas bywiog ac amrywiol; a
- Manteisio i'r eithaf ar rôl Caerdydd fel cyrchfan twristiaeth ryngwladol a dinas sy'n croesawu digwyddiadau mawr.



# 8. Opsiynau Strategaeth Twf a Gofodol

## Strategic Growth Options

**8.1** Rhan bwysig o'r system llunio cynlluniau yng Nghymru yw'r angen i ystyried gwahanol opsiynau fel elfen annatod o baratoi cynlluniau. Felly aseswyd gwahanol opsiynau twf yn ymwneud â lefelau twf posibl yn y dyfodol dros gyfnod y cynllun. Mae canllawiau'n nodi bod yn rhaid i opsiynau fod yn realistig ac yn gynaliadwy. Nid oes opsiwn 'dim twf' wedi ei gynnwys gan fod pobl yn byw'n hirach, mae genedigaethau'n cynyddu ar hyn o bryd ac oherwydd cynnydd economaidd, bydd pobl yn parhau i fudo i'r sir. Ar ben hynny, rhaid i'r CDLl adlewyrchu'r weledigaeth a darparu ar gyfer anghenion cymdeithasol ac economaidd Caerdydd.

**8.2** Er mwyn llywio cyfeiriad poblogaeth a thwf cartrefi yn y ddinas yn y dyfodol paratowyd tri opsiwn twf posibl yn hydref 2021 ac a fu'n destun proses ymgynghori dros y gaeaf 2021/22. Nododd y tri opsiwn y cysylltiadau rhwng twf poblogaeth a thwf amcanol cyflogaeth ac roeddent yn cynnig senarios amlwg wahanol. Fe'i gwnaed yn glir yn ystod yr ymgynghoriad y gallai'r opsiwn terfynol a ddewisir fod yn un o'r rhain neu'n ffigwr gwahanol pe bai hynny'n cael ei ystyried yn fwy priodol. Mae canfyddiadau'r ymgynghoriad, ynghyd â'r gwaith ehangach a wnaed fel astudiaethau technegol ac Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, wedi hwyluso ystyriaeth o fanteision ac anfanteision yr opsiynau i benderfynu ar y lefel fwyaf priodol o dwf ar gyfer Caerdydd.

**8.3** Mae'r tri opsiwn a ystyriwyd wedi'u nodi isod:

- **Opsiwn A:** Yn seiliedig ar darged y Cyngor ar gyfer twf economaidd dros gyfnod y cynllun hyd at 2036 - bydd y Cynllun yn darparu ar gyfer tua 19,000 o gartrefi newydd a 30,000 o swyddi newydd.
- **Opsiwn B:** Yn seiliedig ar darged a arweinir gan bolisi anheddau o 1,600 annedd y flwyddyn dros gyfnod y cynllun hyd at 2036 – bydd y Cynllun yn darparu ar gyfer tua 24,000 o gartrefi newydd a 32,300 o swyddi newydd.
- **Opsiwn C:** Yn seiliedig ar ffigurau poblogaeth ac aelwydydd rhagamcanol 2014 ac sy'n cyfateb i barhau â'r lefelau twf yn y CDLl mabwysiedig dros gyfnod y cynllun hyd at 2036 - bydd y Cynllun yn darparu ar gyfer tua 30,500 o gartrefi newydd a 43,000 o swyddi newydd.

**8.4** lEr mwyn llywio'r broses o ystyried opsiynau twf a gofodol, cynhaliwyd ymarferiad ymgynghori yn ystod gaeaf 2021/22. Roedd hwn yn cynnwys arolwg ar-lein a nodir crynodeb o ganlyniadau hwn yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1 Ymatebion i opsiynau twf**

| | Nifer yr Ymatebion | % o blaid |
|---|---|---|
| **Opsiwn A – 19,000 o gartrefi newydd** a **30,000 o swyddi newydd** | 200 | 48.0 |
| **Opsiwn B – 24,000 o gartrefi newydd** a **32,300 o swyddi newydd** | 51 | 12.2 |
| **Opsiwn C – 30,500 o gartrefi newydd** a **43,000 o swyddi newydds** | 62 | 14.9 |
| **Arall** | 104 | 24.9 |
| | **417** | **100.0** |

**8.5** Mae canlyniadau llawn yr arolwg gan gynnwys y rhesymau pam y cafodd gwahanol opsiynau eu ffafrio ynghyd â chrynodeb o sylwadau eraill a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad i'w gweld yn yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol sydd ar gael ar Wefan y CDLl.

**8.6 I** grynhoi, roedd y rhai a ddewisodd lefel uwch o dwf tai yn cydnabod yr angen i ddarparu ar gyfer cartrefi newydd a gynhyrchir gan dwf poblogaeth naturiol y ddinas a'r rhai sy'n symud i'r ddinas i fyw a gweithio gyda'i gilydd i fodloni'r angen brys ac amlwg am dai fforddiadwy newydd i'r rhai sy'n profi digartrefedd ac ar restr aros y Cyngor. Roedd cydnabyddiaeth hefyd y bydd twf yn cynnig cyfleoedd gwaith i'r ddinas a'r rhanbarth, yn lleihau diweithdra ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ledled y ddinas. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion i'r arolwg ar-lein yn cefnogi Opsiwn A neu lai. Roedd y rhesymau dros gefnogi Opsiwn A neu lai yn seiliedig ar ganlyniadau negyddol posibl lefelau uwch o dwf o ran effaith amgylcheddol a cholli mannau gwyrdd a'r angen i ddod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd ac angen i wasgaru twf yn rhanbarthol yn hytrach na'i ganolbwyntio mewn dinasoedd.

**8.7** Pa bynnag opsiwn aiff yn ei flaen, y neges sy'n deillio o'r ymatebion i'r ymgynghoriad y mae'n rhaid i strategaeth y cynllun fynd i'r afael â hwy yw sut y gellir cyflawni'r lefel twf a ddymunir yn effeithiol mewn modd cynaliadwy nad yw'n cael effaith negyddol ar rinweddau presennol Caerdydd. Mae hwn yn fater allweddol y mae'n rhaid iddo fod yn rhan greiddiol o'r Strategaeth a Ffefrir fel bod y cynllun cyfan yn cynrychioli fframwaith i gyflawni datblygu cynaliadwy: gwella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol pobl a chymunedau a chyflawni ansawdd bywyd gwell ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.



## Asesiad Opsiynau

**8.8** Ar y dechrau, rhaid pwysleisio bod y "banc tir" presennol sy'n cynnwys cartrefi sy'n cael eu codi, gyda chaniatâd cynllunio neu'n aros am lofnodi cytundeb cyfreithiol, yn sylweddol. Mae'r cyflenwad hysbys hwn o dai ynghyd â ffactorau addasu megis amcangyfrifon o safleoedd annisgwyl sy'n dod i'r amlwg yn ystod cyfnod y cynllun yn golygu bod rhan fawr o'r twf tai ym mhob un o'r tri opsiwn eisoes wedi'u clustnodi neu wedi ymrwymo iddynt.

**8.9** TMae'r tri opsiwn wedi'u hystyried ac amlinellir crynodeb o'r canfyddiadau isod. Mae'r canllawiau'n nodi mai'r man cychwyn ddylai fod amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pennu lefelau twf mewn CDLlau ac maent yn ei gwneud yn glir y dylid cyfiawnhau unrhyw wyro oddi wrth y ffigurau hyn â thystiolaeth amlwg. Felly, mae'r adran hon yn ystyried yr opsiynau i ddechrau yn erbyn y graddau y maent yn bodloni amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ac yna'n asesu yn erbyn ffactorau eraill yn seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol fel y rhestrir isod:

- Yn unol â Chymru'r Dyfodol a goblygiadau trawsffiniol/dinas-ranbarth;
- Yn unol â'r Cynllun Corfforaethol, 'Cynllun Llesiant Caerdydd' a 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach'
- I ba raddau y cyflawnir anghenion economaidd sydd wedi eu tystiolaethu;
- I ba raddau y cyflawnir anghenion cymdeithasol/tai sydd wedi eu tystiolaethu;
- Oblygiadau amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd
- Ffactorau cyflawni a chapasiti; a
- Canfyddiadau'r ymgynghoriad (amlinellir uchod).

## Yn unol ag Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru

**8.10** Mae amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru yn dod o 2018 ac fe'u cyhoeddwyd yn 2019. Mae'r amcanestyniadau hyn yn awgrymu bod angen tua 13,500 o gartrefi dros gyfnod y cynllun hyd at 2036. Fodd bynnag, mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar y 10 mlynedd diwethaf, pan fu tanddarpariaeth i ddiwallu'r angen am dai. Hefyd, o'i gymharu â'r "banc tir" presennol o safleoedd a amlinellir uchod, byddai defnyddio'r amcanestyniadau hyn i bob pwrpas yn arwain at strategaeth "dim twf" ar gyfer y cynllun sy'n golygu na fyddai'r ddinas yn gallu diwallu ei hanghenion cymdeithasol ac economaidd fel yr amlinellir uchod.

**8.11** Mae hefyd yn bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru yn ystyried Caerdydd fel Ardal Dwf Genedlaethol yn Cymru'r Dyfodol. Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn cydnabod mai Caerdydd fydd y prif anheddiad yn y rhanbarth o hyd, a'i thwf wedi'i siapio gan farchnadoedd tai a chyflogaeth cryf. O ystyried hyn, ystyrir bod rhesymau cryf dros wyro oddi wrth lefel y twf a nodir yn amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru.

**8.12** Er mwyn archwilio pa lefel o dwf uwch na'r amcanestyniadau hyn sy'n briodol, comisiynodd y Cyngor Edge Analytics sy'n arbenigwyr annibynnol cydnabyddedig ar lefel y Deyrnas Gyfunol i lunio tri senario twf amgen. Nodir y rhain isod:

- **Opsiwn A:** Yn seiliedig ar darged y Cyngor ar gyfer twf economaidd dros gyfnod y cynllun hyd at 2036 - bydd y Cynllun yn darparu ar gyfer tua 19,000 o gartrefi newydd (1,267 yf/0.8% o dwf) a 30,000 o swyddi newydd.

- **Opsiwn B**: Yn seiliedig ar darged a arweinir gan bolisi anheddau o 1,600 annedd y flwyddyn dros gyfnod y cynllun hyd 2036 – bydd y Cynllun yn darparu ar gyfer tua 24,000 o gartrefi newydd (1,600 yf/1% o dwf) a 32,300 o swyddi newydd.
- **Opsiwn C:** Yn seiliedig ar ffigurau amcanestyniad poblogaeth ac aelwydydd 2014 ac sy'n cyfateb â pharhau â'r lefelau twf yn y CDLl mabwysiedig dros gyfnod y cynllun hyd at 2036 – bydd y Cynllun yn darparu ar gyfer tua 30,500 o gartrefi newydd (2,033 yf/1.3% o dwf) a 43,000 o swyddi newydd.

**8.13** Mae Edge Analytics wedi diweddaru'r senarios twf amgen hyn i ystyried canlyniadau cyfrifiad 2021 a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2022. Mae'r ffigurau diweddaraf hyn yn arwain at newidiadau bach i ffigurau'r boblogaeth a'r cyfraddau mudo ar gyfer opsiynau A a B a hefyd y gofyniad anheddau ar gyfer opsiwn A. Mae'r newidiadau hyn wedi'u diweddaru wedi'u cynnwys o fewn y cromfachau isod.

**8.14 Mae Opsiwn A** yn seiliedig ar darged y Cyngor ar gyfer twf economaidd o 1,600 o swyddi'r flwyddyn ac mae'n cynnig twf yn y boblogaeth o 26,829 (28,191) neu 7.4% (7.6%) dros gyfnod y cynllun hyd at 2036. Mae hyn yn cyfateb i 17,017 (18,111) o aelwydydd ychwanegol a chyfradd cwblhau anheddau o 1,179 (1,254) y flwyddyn. Mae'r senario yma yn rhagamcanu y byddai mudo net yn 737 (740) o bobl y flwyddyn.

**8.15 Mae Opsiwn B** yn darged sy'n cael ei arwain gan bolisi anheddau o 1,600 annedd y flwyddyn. Byddai'r senario yma yn arwain at dwf poblogaeth o 39,373 (39,742) neu 10.9% (10.7%) dros gyfnod y cynllun hyd at 2036. Mae hyn yn cyfateb i 23,103 o aelwydydd ychwanegol a mudo net i'r ddinas o 1,460 (1,390) o bobl y flwyddyn.

**8.16 Mae Opsiwn C** yn seiliedig ar amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru yn 2014 ac yn cynnig twf yn y boblogaeth o 56,154 neu 14.9% dros gyfnod y cynllun hyd at 2036. Mae hyn yn cyfateb i 29,363 o aelwydydd ychwanegol a chyfradd cwblhau anheddau o 2,034 y flwyddyn. Mae'r senario hwn yn rhagamcanu y byddai mudo net yn 1,129 o bobl y flwyddyn.

**8.17** O ran y senario twf mwyaf priodol i'w ddwyn yn ei flaen yn y CDLl Newydd, ystyrir bod Opsiwn C yn afrealistig o ystyried y lefel uchel o dwf a gynigir dros gyfnod y cynllun. Mae'r opsiwn hwn yn cynnig twf yn y boblogaeth fwy na dwywaith amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru ac felly mae'n gwyro'n sylweddol o'r dystiolaeth ddiweddaraf ar dwf demograffig. Mae Opsiwn A yn cyd-fynd yn well â'r amcanestyniadau diweddaraf gan Lywodraeth Cymru sy'n cynrychioli cynnydd o 64%, ond nid yw'n darparu digon o dwf i gyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru o ran bod Caerdydd mewn Ardal Dwf Genedlaethol nac anghenion cymdeithasol ac economaidd y Cyngor fel yr amlinellir uchod. O ystyried hyn, ystyrir bod y senario targed a arweinir gan anheddau o 1,600 y flwyddyn yn cynrychioli'r opsiwn mwyaf realistig a dibynadwy gan ei fod yn dangos effaith dychweliad rhagolygon mwy cadarnhaol o ran cwblhau tai. Bydd cynllunio ar gyfer y fath lefel o gwblhau tai yn helpu'r ddinas i adfer wedi'r pandemig, yn darparu tai fforddiadwy y mae mawr eu hangen ac yn rhan sylfaenol o dwf economaidd y dyfodol ynghyd â chyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y ddinas fel ardal dwf genedlaethol a sbardun economaidd y ddinas-ranbarth.



## Yn unol â goblygiadau Cymru'r Dyfodol a goblygiadau Trawsffiniol /Dinas-ranbarth

**8.18** Mae Cymru'r Dyfodol yn gosod Caerdydd mewn Ardal Dwf Genedlaethol ac yn cydnabod y pery Caerdydd o hyd yn brif anheddiad yn y rhanbarth, a'i thwf wedi'i siapio gan farchnadoedd tai a chyflogaeth cryf. Mae hefyd yn cydnabod yr angen am system drafnidiaeth fwy integredig yn ne-ddwyrain Cymru i gyflawni ei hamcanion ehangach. Cefnogir yr angen i ddarparu cymunedau mwy cynaliadwy ynghyd â rhoi gwerth ar yr amgylchedd a pharchu hynodrwydd.

**8.19** IO ran y cyfeiriad polisi a nodir yn Cymru'r Dyfodol, mae pryderon nad yw Opsiwn A yn nodi lefel digon uchel o dwf i Gaerdydd er mwyn gwneud y mwyaf o'i rôl fel Ardal Dwf Genedlaethol ac sydd yng nghanol y ddinas-ranbarth. Fodd bynnag, mae lefel y twf a gynigir yn Opsiwn C gyfryw fel bod pryderon difrifol y gallai arwain at ganolbwyntio gormod o fuddsoddiad yng Nghaerdydd a fyddai'n rhagfarnu gallu awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth i gyflawni eu cyfleoedd adfywio trwy ddargyfeirio twf i'r llain tir arfordirol. Yn ogystal, byddai'n rhoi mwy o straen ar system drafnidiaeth ranbarthol sydd eisoes yn profi problemau capasiti.

**8.20** Fel y nodir uchod, ystyrir bod Opsiwn A yn methu â darparu'r ysgogiad angenrheidiol. Mae Opsiwn B yn cynnig lefel o dwf yr ystyrir ei fod yn taro'r cydbwysedd priodol. Mae'n gwneud y mwyaf o rôl Caerdydd fel Ardal Dwf Genedlaethol a chanolbwynt y ddinas-ranbarth, gan ddarparu 'pwerdy economaidd' digon cryf, ond nid i'r graddau a allai arwain at ganolbwyntio gormod o fuddsoddi ar Gaerdydd ar draul ardaloedd eraill

## Yn unol â 'Cynllun Llesiant Caerdydd' a 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach'

**8.21** Mae 'Cynllun Llesiant Caerdydd' a 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' yn nodi ystod o amcanion lefel uchel. Mae amcanion y Cynllun Llesiant yn cynnwys (1) Prifddinas sy'n gweithio i Gymru a (2) Caerdydd Un Blaned a 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' yn ceisio Caerdydd gryfach trwy ddenu buddsoddiad a busnesau newydd i'r ddinas, hybu cynhyrchiant economaidd, creu swyddi o ansawdd da yn sectorau gwerth uchel a sylfaenol Caerdydd, a rhoi hwb i'n gwytnwch yn wyneb newid yn yr hinsawdd a bygythiadau amgylcheddol cysylltiedig.

**8.22** Yn gyffredinol, ystyrir mai Opsiwn B sy'n cyd-fynd fwyaf â'r dogfennau polisi hyn. Er ei fod yn darparu llai o swyddi a chartrefi nag Opsiwn C, ni ystyrir fod iddo'r effeithiau trawsffiniol negyddol sy'n gysylltiedig ag Opsiwn C o ran denu gormod o dwf i Gaerdydd ar draul y rhanbarth. Mae Opsiwn A yn syrthio'n brin o'r nod o gyflawni'r amcanion lefel uchel hyn a bodloni anghenion cymdeithasol ac economaidd amlwg.

### I ba raddau y cyflawnir anghenion economaidd sydd wedi eu tystiolaethu;

**8.23** Mae tystiolaeth gref o'r angen i Gaerdydd ddarparu ystod eang a dewis o swyddi dros gyfnod y cynllun. Cefnogir hyn gan bolisïau strategol a nodir yn Cymru'r Dyfodol ynghyd â Chynllun Llesiant y Cyngor a 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' - sy'n dyheu i Gaerdydd fod wrth galon dinas-ranbarth ffyniannus. Mae perfformiad economaidd cryf Caerdydd o'i gymharu â'r ddinas-ranbarth ehangach hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd Caerdydd yn parhau i yrru ffyniant er budd de-ddwyrain Cymru gyfan.

**8.24** I gloi, mae gan Opsiwn C y fantais o nodi darpariaeth ar gyfer mwy o swyddi ond gallai darparu mwy o swyddi nag o dai arwain at lefelau cymudo sy'n anghynaliadwy. Mae Opsiwn A yn darparu swyddi ond nid yw'n darparu digon o dai newydd i gefnogi'r twf swyddi hwn. Mae Opsiwn B yn taro cydbwysedd mwy realistig ac yn dal i ddarparu digon o swyddi i roi ystod lawn a dewis o gyfleoedd gwaith.

### I ba raddau y darperir ar gyfer anghenion cymdeithasol / tai sydd wedi eu tystiolaethu;

**8.25** Mae angen i Gaerdydd ddarparu nifer sylweddol o dai newydd, yn enwedig llety fforddiadwy a chartrefi teuluol. Ni ystyrir bod Opsiwn A yn nodi digon o ddarpariaeth i ddiwallu anghenion tai dros gyfnod y cynllun o ystyried yr angen am dai fforddiadwy a safle Caerdydd mewn Ardal Dwf Genedlaethol. Mae Opsiwn C yn gosod lefel o ddarpariaeth sy'n diwallu orau y lefelau uchel o anghenion. Fodd bynnag, mae'n wynebu'r risg o nodi lefel o dwf a allai danseilio ardaloedd awdurdodau lleol eraill rhag cyrraedd eu targedau tai a gwyro'r farchnad i'r llain tir arfordirol

**8.26** Ystyrir bod Opsiwn B yn cynrychioli lefel o dwf a all ddarparu ystod eang a dewis o gyfleoedd tai sy'n cydnabod safle Caerdydd mewn Ardal Dwf Genedlaethol ac sy'n ymateb yn dda i anghenion tai ond ar lefel gyffredinol nad yw'n effeithio'n negyddol ar ddarpariaeth effeithiol safleoedd tai ar draws de-ddwyrain Cymru. O ystyried bod yr anghenion presennol lawer uwch na'r galw blaenorol, mae'n gwbl briodol y bydd angen niferoedd uwch o dai.





### Oblygiadau amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd

**8.27** Fel y nodwyd uchod, ymrwymwyd eisoes i gryn dipyn o'r twf a gynigir ym mhob un o'r tri opsiwn ar ystod o safleoedd tir llwyd a maes glas. Fodd bynnag, o ystyried y capasiti tir llwyd cyfyngedig i ddarparu tir ar gyfer cartrefi a swyddi, mae'n anochel y gallai rhai opsiynau olygu bod angen rhyddhau tir maes glas. Bydd hyn o bosibl yn cael effaith ar amgylchedd Caerdydd a'r goblygiadau ehangach i ffactorau newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, er y byddai colli cefn gwlad i ddatblygiad yn cael rhywfaint o effaith, mae gan wahanol rannau o gefn gwlad Caerdydd werthoedd, cyfyngiadau a rhinweddau cynhenid gwahanol. Gall safleoedd tir llwyd hefyd fod â gwerth amgylcheddol uchel sy'n cynrychioli amwynderau lleol poblogaidd y gwneir defnydd da ohonynt o fewn cyrraedd hawdd i gartrefi. Felly, mae'n rhaid ymgymryd yn ofalus â blaenoriaethu safleoedd tir llwyd addas i'r eithaf gan y gallai dewis ansensitif o safleoedd tir llwyd arwain at ganlyniadau negyddol sylweddol i gymunedau cyfagos a'r amgylchedd.

**8.28** Pa bynnag lefel o dwf a ddewisir, bydd angen i'r cynllun nodi sut y gellir lleihau effaith ar yr amgylchedd a chynnwys mesurau lliniaru a gwella priodol yn y strategaeth gyffredinol. O ran yr opsiynau twf sy'n cael eu hystyried, byddai manylion safleoedd a ddewisir a mesurau lliniaru posibl yn llywio'r canlyniadau amgylcheddol manwl. Felly mae'n amhriodol cysylltu twf yn uniongyrchol â niwed gan fod y CDLl Newydd yn darparu'r mecanwaith i reoli effeithiau a lliniaru yn effeithiol yn erbyn niwed posibl.

**8.29** I gloi, mae'n anochel y bydd ystyriaeth lawn o'r oblygiadau amgylcheddol yn adlewyrchu'r dadansoddiad fesul safle a nodir yn fanylach yn yr adran ganlynol. Mae hyn yn sicrhau bod ffactorau amgylcheddol yn cyfrannu'n llawn at ystyried opsiynau gan fod dadansoddiadau manylach ar y safleoedd yn cynnig tystiolaeth o addasrwydd safleoedd sydd, yn ei dro, yn helpu i lywio'r ystyriaethau capasiti a ystyrir isod.



## Ffactorau cyflawni a chapasiti

**8.30** Mae'r gallu i ddarparu'n ymarferol y nifer ofynnol o swyddi a chartrefi sydd wedi'u cynnwys yn yr opsiwn twf a ddewiswyd yn ystyriaeth berthnasol wrth asesu lefelau twf gan fod y gallu i gyflawni'n brawf allweddol o gadernid er mwyn gallu derbyn y cynllun. Yn gysylltiedig â hyn mae gallu'r ardal i amsugno'r lefelau twf ychwanegol gan gynnwys darpariaeth amserol i'r seilwaith ategol angenrheidiol, yn enwedig datrysiadau cludiant.

**8.31** O ystyried effeithiau'r pandemig, costau cynyddol adeiladu a deunyddiau a chyfraddau llog, nid yw'r amodau economaidd presennol yn ffafriol ar gyfer dod a chartrefi newydd ger bron a chreu swyddi newydd mewn niferoedd uchel. Fodd bynnag, rhaid i'r CDLl wneud darpariaethau ar gyfer cyfnod llawn y cynllun a pheidio â gwneud penderfyniadau tymor byr yn seiliedig ar amodau'r farchnad ar y pryd. Yn wir, gall polisi cynllunio chwarae rhan allweddol wrth helpu i ddarparu fframwaith i fynd i'r afael â'r amodau presennol a hwyluso darparu swyddi a chartrefi sydd eu hangen yng Nghaerdydd yn y dyfodol.

**8.32** Byddai Opsiwn C yn golygu cwblhau 2,034 o gartrefi'r flwyddyn ar gyfer cyfnod y cynllun hyd at 2036. Mae hyn yn cyferbynnu â'r gyfradd dros y 15 mlynedd ddiwethaf (2006 i 2021) o 1,070 y flwyddyn a'r flwyddyn uchaf erioed yn ystod y cyfnod diweddar o ran cwblhau tai o 2,368 yn 2006/07 (pan oedd tua 70% o'r rhain yn fflatiau). Byddai'r opsiwn hwn felly'n cynrychioli lefel arbennig o uchel o dwf dros gyfnod cymharol fyr sy'n codi pryderon cyflawni.

**8.33** Ar y llaw arall, ystyrir bod Opsiynau A a B yn gallu cael eu cyflawni dros gyfnod y cynllun. Cydnabyddir bod lefel y gwaith o gwblhau tai yn Opsiwn B yn sylweddol uwch na chyfraddau adeiladu tymor hwy blaenorol (tua 1,600 o anheddau y flwyddyn ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun) ond nid yw hyn yn golygu nad oes modd ei gyflawni. Fel y nodwyd uchod, ymrwymwyd eisoes i gryn dipyn o'r safleoedd ar gyfer y lefelau twf hyn eisoes ac mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd tai strategol a ddyrennir yn y CDLl presennol bellach ar y gweill gyda'r niferoedd sy'n cwblhau yn cynyddu ar sail flynyddol tebyg am debyg. Bydd yr ystod a'r dewis cytbwys yma o safleoedd o gymorth mawr i ddarparu tai dros gyfnod y cynllun y gellir ei reoli drwy nodi taflwybr i'r ddarpariaeth yn y cynllun. Mae'r ddau hefyd yn cynrychioli lefelau twf y gellir eu cynnwys o ran y capasitïau presennol. Bydd datblygiadau newydd hefyd yn rhoi cyfle i gyflwyno seilwaith newydd nid yn unig i fynd i'r afael â darpariaeth ar y safle ond hefyd er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r ddarpariaeth strategol o ran seilwaith ffisegol a chymdeithasol a fydd yn dod â manteision ehangach.



## Casgliadau Cyffredinol

**8.34** Yn gyffredinol, cefnogir Opsiwn B gan y dystiolaeth gryfaf. Yn bwysig, mae'r dadansoddiad a nodir uchod yn dangos y gellir ystyried yn rhesymol mai Opsiwn B sy'n cynrychioli'r opsiwn mwyaf priodol a chytbwys o'i gymharu â'r ddau opsiwn arall sydd ag anfanteision sylweddol sy'n mynd i graidd strategaeth y cynllun.

**8.35** Mae rhesymau cryf dros beidio â chefnogi Opsiynau A ac C. Mae Opsiwn C yn afrealistig o ystyried y lefel uchel o dwf a gynigir dros gyfnod y cynllun. Mae'r opsiwn hwn yn cynnig twf yn y boblogaeth fwy na dwywaith amcanestyniadau diweddaraf Llywodraeth Cymru ac felly mae'n gwyro'n sylweddol o'r dystiolaeth ddiweddaraf ar dwf demograffig. Ystyrir bod y lefel hon o dwf o fewn cyfnod y cynllun yn codi problemau amgylcheddol a chapasiti mawr, yn enwedig o ran cludiant. Ar ben hynny, mae pryderon sylfaenol ynghylch cyflawni lefel mor uchel o dwf yn ymarferol. I'r gwrthwyneb, anfantais sylfaenol Opsiwn A yw ei fod yn syrthio'n brin o ran darparu'r angen sydd wedi ei dystiolaethu am gartrefi a swyddi newydd ynghyd â methu â chyflawni dyheadau polisi Caerdydd a Cymru'r Dyfodol o'r ddinas yn chwarae rôl allweddol wrth galon dinas-ranbarth ffyniannus.

**8.36** O ystyried hyn, ystyrir bod y senario targed a arweinir gan anheddau o 1,600 y flwyddyn yn cynrychioli'r opsiwn mwyaf realistig a dibynadwy gan ei fod yn dangos effaith dychweliad rhagolygon mwy cadarnhaol o ran cyflawniadau tai. Bydd cynllunio ar gyfer y fath lefel o dai yn helpu'r ddinas i adfer wedi'r pandemig, yn darparu tai fforddiadwy y mae mawr eu hangen a bod yn rhan sylfaenol o dwf economaidd yn y dyfodol ynghyd â chyflawni dyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y ddinas fel Ardal Dwf Genedlaethol a sbardun economaidd y ddinas-ranbarth.

**8.37** Mae'r materion a drafodir wrth ddod i'r casgliad hwn hefyd yn berthnasol ar lefel ehangach i baratoi'r CDLl Newydd cyfan. Mae'n bwysig bod y CDLl Newydd yn nodi strategaeth sydd nid yn unig yn nodi'r lefel briodol o dwf ond sydd hefyd yn darparu pecyn cyffredinol o ddyraniadau a pholisïau sy'n darparu ar gyfer y twf hwn mewn ffordd reoledig a chynaliadwy. Dylai'r strategaeth hefyd fynd i'r afael yn effeithiol â materion fel effaith ar yr amgylchedd, darparu atebion trafnidiaeth gynaliadwy, ynghyd â chynrychioli cwantwm o ddatblygiad y gellir ei gyflawni'n realistig dros gyfnod y cynllun.

## Opsiynau Gofodol

**8.38** Mae'r adran hon yn nodi opsiynau gofodol arfaethedig i ddarparu ar gyfer lefelau twf tai a swyddi yng Nghaerdydd i ddiwallu anghenion a nodwyd yn ystod cyfnod y cynllun hyd at 2036. Fel y dangosir yn Nhabl 2 mae nifer sylweddol o ymrwymiadau gan gynnwys safleoedd maes glas wedi'u dyrannu yn y CDLl mabwysiedig presennol sydd eto i'w hadeiladu.

**8.39** Gan fod y safleoedd hyn yn ymrwymiadau ag iddynt ganiatâd cynllunio, cânt eu dwyn yn eu blaen i'r cynllun newydd, er nad ydynt wedi'u codi eto, maent yn ffurfio elfen sylweddol o'r ddarpariaeth dai newydd ar gyfer y CDLl Newydd.

**8.40** Er mwyn darparu ar gyfer twf tai clustnodwyd wyth Dewis Gofodol amgen ac mae'r rhain wedi'u nodi isod. Mae pob opsiwn yn ceisio:

- Cefnogi Caerdydd fel sbardun allweddol ar gyfer twf, fel rhan o Ardal Dwf Genedlaethol fel a nodir yn Cymru'r Dyfodol;
- Canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy a'r egwyddorion creu lleoedd;
- Alinio ag ymagwedd Un Blaned Caerdydd – i ddatgarboneiddio'r ddinas a dod yn Ddinas Garbon Niwtral erbyn 2030, tra'n creu cyfleoedd economaidd a hyrwyddo lles cymdeithasol.

**8.41** Wrth ddatblygu'r opsiynau gofodol, rhoddwyd sylw hefyd i'r Safleoedd Ymgeisiol a gyflwynwyd, i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a nodau llesiant Caerdydd. Dylid nodi bod cynhyrchu opsiynau yn un o ofynion pwysig cyfarwyddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Mae'r opsiynau strategol wedi cael eu hasesu yn erbyn yr AoG/AAS o fewn yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd – Asesiad Amgylcheddol Strategol cychwynnol. Mae hyn yn rhan allweddol o'r broses o ddewis yr opsiwn strategol mwyaf addas ar gyfer Caerdydd.

- Opsiwn 1: Estyniad pellach i'r ymrwymiadau Safleoedd Strategol presennol
- Opsiwn 2: Dwysáu trefol yn seiliedig ar strategaeth tir llwyd yn unig
- Opsiwn 3: Adnewyddu ac adfywio yn seiliedig ar safleoedd defnydd cymysg tir llwyd
- Opsiwn 4: Twf yn seiliedig ar ganolfannau dosbarth a lleol yn unol â chysyniad dinas y pentrefi
- Opsiwn 5: Twf yn seiliedig ar nodau llif trafnidiaeth
- Opsiwn 6: Coridorau twf tramwy cyhoeddus strategol
- Opsiwn 7: Opsiwn 7 Ardaloedd twf maes glas gwasgaredig
- Opsiwn 8: Opsiwn 8: Cyfuniad gwasgaredig o dir llwyd a maes glas



**8.42** Mae pob opsiwn gofodol wedi bod yn destun ymgynghori ac ymgysylltu i asesu a gwerthuso eu priodoldeb gyda'r bwriad o sefydlu neu ddatblygu opsiwn a ffefrir. Mae eu cynnwys yn adlewyrchu'r angen i roi sylw i ddeddfwriaeth, polisi cynllunio cenedlaethol, strategaethau lleol a rhanbarthol tra'n cydnabod y nodweddion, asedau a materion penodol sy'n gyffredin yng Nghaerdydd ac yn ffurfio ymagwedd strategol sy'n cyflawni'r weledigaeth, ac sy'n hyrwyddo ac yn arwain datblygiad ar gyfer y ddinas.

**8.43** Mae'r opsiynau a glustnodwyd yn tybio bod angen alinio gwelliannau seilwaith â datblygiadau newydd, gan gynnwys gwelliannau i rwydweithiau trafnidiaeth, cyfleustodau, seilwaith gwyrdd, iechyd, addysg a chyfleusterau cymdeithasol. O ganlyniad, mae'r term 'datblygiad' a ddefnyddir yn yr Opsiynau Gofodol ar gyfer Twf yn cyfeirio at gydbwysedd tai, cyfleoedd cyflogaeth a'r seilwaith cysylltiedig.

**8.44** Nid oes un opsiwn o reidrwydd yn cael ei ystyried yn well wrth baratoi a thrafod, ac mae lle a hyblygrwydd i'r opsiynau gael eu haddasu i ystyried ffactorau ychwanegol. Cydnabyddir y gallai'r opsiwn a ffefrir gyfuno elfennau o fwy nag un opsiwn.

**8.45** Mae'r tablau isod yn rhoi esboniad o bob un o'r opsiynau gofodol fel y'u hystyriwyd. Dilynir hyn gan Opsiwn Gofodol a Ffefrir a glustnodwyd i'w ystyried fel rhan o'r Strategaeth a Ffefrir hon.

.



## Opsiwn 1 – Ymestyniad pellach i Ymrwymiadau Safleoedd Strategol presennol

**Disgrifiad**

Roedd twf a datblygiad yn canolbwyntio ar dwf tir maes glas o amgylch y Safleoedd Tai Strategol presennol a glustnodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig a bennwyd yn flaenorol fel y lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer twf ar raddfa strategol. Byddai gofyn cael asesiad pellach i nodi maint y twf sy'n bosibl mewn lleoliadau penodol

**Canfyddiadau'r ymgynghoriad**

Dewisodd 8% o'r ymatebwyr yr opsiwn hwn ac roeddent yn teimlo y byddai'n ychwanegu at y patrwm datblygu presennol a'r seilwaith arfaethedig ac yn darparu mwy o dai fforddiadwy oherwydd y costau is sy'n gysylltiedig â datblygu tir maes glas.

**Asesiad Crynodol**

Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar dwf o amgylch Safleoedd Tai Strategol maes glas presennol a glustnodwyd yn y CDLl mabwysiedig. Drwy wneud hynny, mae'r opsiwn hwn yn ychwanegu at y patrwm datblygu presennol a'r buddsoddiad arfaethedig mewn seilwaith megis gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus a darparu ysgolion newydd.

**Y Pethau Cadarnhaol**

- Mae'n darparu canran uwch o dai fforddiadwy oherwydd y costau is sy'n gysylltiedig â datblygu tir maes glas.
- Byddai'n galluogi datblygiadau newydd i fanteisio ar fuddsoddiad seilwaith sydd eisoes wedi ei gynllunio megis gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus a darparu ysgolion newydd.
- Byddai'n darparu gwell ystod a dewis o fathau o dai

**Y Pethau Negyddol**

- Byddai'n arwain at golli tir maes glas.
- Nid yw'n ystyried galw'r farchnad yn ddigonol.
- Mae'n cynyddu nifer y teithiau a'r pellteroedd teithio.
- Mae dyraniadau tai strategol yn y CDLl presennol wedi cyflawni cyfraddau is na'r hyn a ragwelwyd sy'n golygu bod swm sylweddol o dir ar gyfer tai eisoes ar gael hyd at 2036.
- Mae'n rhoi pwysau ar gymunedau yn yr ardaloedd hynny sydd yn hanesyddol wedi ysgwyddo'r rhan fwyaf o ddatblygiadau.

**Casgliadau**

**Mae'r opsiwn hwn yn cynrychioli twf sy'n seiliedig ar Safleoedd Tai Strategol Maes Glas presennol a glustnodwyd yn y CDLl mabwysiedig. Mae'r safleoedd hyn wedi cyflawni lefelau is o dai na'r disgwyl yn y Strategaeth CDLl mabwysiedig ac mae ganddynt eisoes ddigon o dir tai wedi'i ymrwymo yn ystod cyfnod y cynllun hyd at 2036.  O ystyried hyn byddai unrhyw dir ychwanegol y tu hwnt i'r ymrwymiadau hyn yn anodd ei gyfiawnhau a gallai fod yn amhosibl ei gyflawni yn ystod cyfnod y cynllun. .**



## Opsiwn 2 - Dwysáu trefol yn seiliedig ar strategaeth tir llwyd yn unig

**Disgrifiad**

Twf a datblygiad wedi'i ganolbwyntio oddi mewn i ffin aneddiadau gan wneud y gorau o gapasiti'r ardal drefol ac annog dwyseddau uwch mewn lleoliadau priodol;

**Canfyddiadau'r ymgynghoriad**

Dewisodd 44% o'r ymatebwyr yr opsiwn hwn a theimlent y byddai'n amddiffyn ardaloedd maes glas y tu allan i ffin aneddiadau, yn sicrhau datblygiadau tir llwyd ac yn gwella trafnidiaeth gynaliadwy a'r seilwaith presennol.

**Asesiad Crynodol**

Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio twf o fewn ffiniau'r anheddiad. Wrth wneud hynny, mae'n gwneud y mwyaf o gapasiti'r ardal drefol ac yn annog dwysedd uwch mewn lleoliadau priodol

**Y Pethau Cadarnhaol**

- Mae'n diogelu ardaloedd maes glas y tu allan i ffin yr anheddiad.
- Byddai'n galluogi adfywio tir llwyd.
- Byddai'n gwella trafnidiaeth gynaliadwy am ei fod yn adeiladu ar seilwaith trafnidiaeth sy'n bod yn barod.
- Byddai'n helpu i ddarparu cymdogaethau cynaliadwy gan fod safleoedd wedi'u lleoli ger cyfleusterau manwerthu a chymunedol presennol.
- Byddai'n helpu i fynd i'r afael ag amddifadedd o fewn ardaloedd trefol y ddinas gyda chyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy ac i bobl hŷn mewn cymunedau lleol.

**Y Pethau Negyddol**

- Byddai'n darparu llai o dai fforddiadwy oherwydd costau datblygu uwch adfer tir llwyd.
- Yn cynnig llai o ystod a dewis o fathau o dai.
- Byddai angen sicrhau bod seilwaith gwyrdd a choridorau cysylltiedig o fewn ardaloedd trefol yn cael eu gwarchod.
- Byddai angen sicrhau bod asedau treftadaeth yn cael eu diogelu

**Casgliadau**

**Byddai'r opsiwn hwn yn gwneud y defnydd gorau o dir llwyd yn yr ardal drefol bresennol ac mae iddo nifer o bethau cadarnhaol sylweddol o'i blaid. Byddai'n lleihau'r ddibyniaeth ar safleoedd maes glas i sicrhau twf tai, yn mynd i'r afael ag amddifadedd o fewn ardaloedd trefol drwy adfywio safleoedd tir llwyd a darparu tai fforddiadwy a thai i bobl hŷn mewn cymunedau lleol, ac yn helpu i ddarparu cymdogaethau cynaliadwy lle gellir gwneud y defnydd mwyaf posibl o'r seilwaith cynaliadwy presennol, a lleoli'r datblygiadau newydd ger cyfleusterau manwerthu a chymunedol presennol.**

**Wrth ddatblygu'r opsiwn hwn, byddai'n bwysig sicrhau bod mannau gwyrdd a choridorau presennol yn yr ardal drefol yn cael eu diogelu a'u gwella ar gefn cynlluniau adfywio. Byddai angen cydnabod hefyd y dylid diogelu asedau treftadaeth. Ar ben hynny, byddai'r opsiwn hwn yn arwain at lai o dai fforddiadwy yn dod ger bron o safleoedd datblygu oherwydd y costau adfer tir uwch a byddai'r math o dai a ddarperir yn ddatblygiadau dwysedd uwch.**

## Opsiwn 3 - Adnewyddu ac adfywio yn seiliedig ar safleoedd tir llwyd defnydd cymysg

**Disgrifiad**

Fel yn achos Opsiwn 2 canolbwyntir yn gryf ar dwf a datblygiad o fewn ffin yr anheddiad gan wneud y mwyaf o gapasiti'r ardal drefol ac annog dwyseddau uwch mewn lleoliadau priodol ond hefyd gan anelu'r twf at gefnogi adfywio safleoedd tir llwyd defnydd cymysg ar raddfa fawr a phrosiectau adnewyddu.

**Canfyddiadau'r ymgynghoriad**

Dewisodd 39% o'r ymatebwyr yr opsiwn hwn a theimlent y byddai'n amddiffyn ardaloedd maes glas y tu allan i ffin aneddiadau, yn cefnogi adnewyddu trefol a gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus, yn sicrhau adfywio tir llwyd, gwella trafnidiaeth gynaliadwy a'r seilwaith presennol ac yn cefnogi economi gymysg trwy gydbwyso twf tai a swyddi .

**Asesiad Crynodol**

Fel gydag Opsiwn 2 mae ffocws cryf ar dwf a datblygiad o fewn ffin yr anheddiad. Drwy wneud hynny yn gwneud y gorau o gapasiti'r ardal drefol ac annog dwyseddau uwch mewn lleoliadau priodol ond hefyd yn anelu twf at gefnogi'r gwaith o adfywio safleoedd tir llwyd defnydd cymysg ar raddfa fawr a phrosiectau adnewyddu.

**Y Pethau Cadarnhaol**

- Yn diogelu ardaloedd maes glas y tu allan i ffin aneddiadau.
- Cefnogi adnewyddu trefol ac adfywio tir llwyd.
- Byddai'n gwella trafnidiaeth gynaliadwy am ei fod yn adeiladu ar seilwaith sy'n bod yn barod.
- Cyfleoedd ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth fel gorsafoedd rheilffordd newydd ar gefn cynlluniau adfywio trefol ar raddfa fawr.
- Byddai'n helpu i ddarparu cymdogaethau cynaliadwy gan fod safleoedd wedi'u lleoli ger cyfleusterau manwerthu a chymunedol presennol.
- Byddai'n helpu i fynd i'r afael ag amddifadedd o fewn ardaloedd trefol y ddinas gyda chyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy ac i bobl hŷn mewn cymunedau lleol.
- Yn cefnogi economi gymysg drwy gydbwyso swyddi a thwf tai.



**Y Pethau Negyddol**

- Darparu llai o dai fforddiadwy oherwydd costau datblygu uwch adfer tir llwyd.
- Yn cynnig llai o ystod a dewis o fathau o dai.
- Byddai angen sicrhau bod seilwaith gwyrdd a choridorau cysylltiedig o fewn ardaloedd trefol yn cael eu diogelu;
- Byddai angen sicrhau bod asedau treftadaeth yn cael eu diogelu

**Casgliadau**

**Yn yr un modd ag Opsiwn 2 byddai'r opsiwn hwn yn gwneud y defnydd gorau o dir llwyd yn yr ardal drefol bresennol ond hefyd yn anelu twf i gefnogi adfywio safleoedd tir llwyd defnydd cymysg ar raddfa fawr a phrosiectau adnewyddu.**

**Fel gydag Opsiwn 2 mae iddo bethau cadarnhaol sylweddol. Byddai'n lleihau'r ddibyniaeth ar safleoedd maes glas i sicrhau twf tai, byddai'n mynd i'r afael ag amddifadedd o fewn ardaloedd trefol drwy adfywio safleoedd tir llwyd a darparu tai fforddiadwy a thai i bobl hŷn mewn cymunedau lleol, ac yn helpu i ddarparu cymdogaethau cynaliadwy gan wneud y defnydd gorau posibl o'r seilwaith cynaliadwy presennol, a lleoli'r datblygiadau newydd ger cyfleusterau manwerthu a chymunedol presennol.**

**O ystyried maint y cynlluniau adfywio ac adnewyddu, byddai cyfleoedd i leoli defnydd cyflogaeth a thai gyda'i gilydd i gefnogi economi gymysg a sicrhau gwelliannau trafnidiaeth trwy orsafoedd rheilffyrdd newydd.**

**Wrth fynd â'r opsiwn hwn yn ei flaen byddai'n bwysig sicrhau bod mannau gwyrdd a choridorau presennol yn yr ardal drefol yn cael eu diogelu a'u gwella ar gefn cynlluniau adfywio. Byddai angen cydnabod hefyd y dylid diogelu asedau treftadaeth.**

**Ar ben hynny, byddai'r opsiwn hwn yn arwain at lai o dai fforddiadwy yn dod ymlaen o safleoedd datblygu oherwydd y costau adfer tir uwch a byddai'r math o dai a ddarperir yn ddatblygiadau dwysedd uwch.**

## Opsiwn 4 - Twf yn seiliedig ar ganolfannau dosbarth a lleol yn unol â chysyniad dinas y pentrefi

**Disgrifiad**

Fel yn achos Opsiwn 2 ond gyda'r ffocws o ran twf a datblygu yn y rhwydwaith presennol o ganolfannau ardal a lleol o fewn ffiniau'r anheddiad yn cynnig dinas â defnydd mwy cymysg, mwy cerddadwy a chynaliadwy

**Canfyddiadau'r ymgynghoriad**

Dewisodd 28% o'r ymatebwyr yr opsiwn hwn gan deimlo y byddai'n gwarchod ardaloedd maes glas y tu allan i ffin yr anheddiad, yn cefnogi gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol cryfach yn y lleoliadau mwyaf hygyrch, yn cryfhau rôl bresennol canolfannau ardal a lleol, yn gwella trafnidiaeth gynaliadwy a seilwaith presennol, yn cefnogi datblygu ac adfywio tir llwyd, a chefnogi darparu cymdogaethau cynaliadwy.

**Asesiad Crynodol**

Fel gydag Opsiwn 2 ond gyda ffocws twf a datblygiad yn y rhwydwaith presennol o ganolfannau ardal a lleol o fewn ffin yr anheddiad. A thrwy wneud hynny yn darparu dinas fwy cymysg ei defnydd, mwy cerddadwy a chynaliadwy

**Y Pethau Cadarnhaol**

- Yn diogelu ardaloedd maes glas y tu allan i ffin aneddiadau.
- Yn cryfhau rôl y canolfannau ardal a lleol a chefnogi gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol cryfach yn y lleoliadau hynny.
- Yn cefnogi darparu cymdogaethau cynaliadwy.
- Cefnogi adnewyddu trefol ac adfywio tir llwyd.
- Byddai'n gwella trafnidiaeth gynaliadwy am ei fod yn adeiladu ar seilwaith trafnidiaeth sy'n bod yn barod.
- Byddai'n helpu i fynd i'r afael ag amddifadedd o fewn ardaloedd trefol y ddinas gyda chyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy a thai i bobl hŷn mewn cymunedau lleol

**Y Pethau Negyddol**

- Darparu llai o dai fforddiadwy oherwydd costau datblygu uwch adfer tir llwyd.
- Yn cynnig llai o ystod a dewis o fathau o dai.
- Byddai angen sicrhau bod seilwaith gwyrdd a choridorau cysylltiedig mewn ardaloedd trefol yn cael eu diogelu;
- Byddai angen sicrhau bod asedau treftadaeth yn cael eu gwarchod.



**Casgliadau**

**Yn yr un modd ag opsiwn 2 byddai'r opsiwn hwn yn gwneud y defnydd gorau o dir llwyd yn yr ardal drefol bresennol ond hefyd yn cyfeirio twf o amgylch y canolfannau ardal a lleol presennol.**

**Fel gyda Opsiwn 2 mae iddo bethau cadarnhaol sylweddol. Byddai'n lleihau'r ddibyniaeth ar safleoedd maes glas i sicrhau twf tai, yn cryfhau rôl canolfannau ardal a lleol a chefnogi cryfhau gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol yn y lleoliadau hyn, byddai'n cefnogi darparu cymdogaethau cynaliadwy lle gwneir y defnydd gorau posib o seilwaith cynaliadwy presennol a lle lleolir datblygiadau newydd ger cyfleusterau manwerthu a chymunedol presennol ac yn mynd i'r afael ag amddifadedd mewn ardaloedd trefol drwy adfywio safleoedd tir llwyd a darparu tai fforddiadwy a thai i bobl hŷn mewn cymunedau lleol**

**Wrth ddatblygu'r opsiwn hwn, byddai'n bwysig sicrhau bod mannau gwyrdd a choridorau presennol yn yr ardal drefol yn cael eu diogelu a'u gwella ar gefn cynlluniau adfywio. Byddai angen cydnabod hefyd y dylid diogelu asedau treftadaeth. Ar ben hynny, byddai'r opsiwn hwn yn arwain at lai o dai fforddiadwy yn cael eu cynnig ar safleoedd datblygu oherwydd y costau adfer uwch a byddai'r math o dai a ddarperir yn ddatblygiad dwysedd uwch.**

## Opsiwn 5 - Twf yn seiliedig ar nodau trafnidiaeth

**Disgrifiad**

Fel yn achos Opsiwn 2 ond y ffocws i dwf a datblygu mewn ardaloedd sydd â chysylltiadau/ cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus da.

**Canfyddiadau'r ymgynghoriad**

Dewisodd 28% o'r ymatebwyr yr opsiwn hwn ac roeddent yn teimlo y byddai'n gwarchod ardaloedd maes glas y tu allan i ffin yr anheddiad, yn cefnogi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus fel gorsafoedd rheilffordd newydd, ac yn cefnogi datblygu ac adfywio tir llwyd.

**Asesiad Crynodol**

Fel yn achos Opsiwn 2 ond y ffocws ar dwf a datblygu mewn ardaloedd sydd â chysylltiadau/ cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus da. Wrth wneud hynny mae'r pwyslais ar y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus presennol a sicrhau datblygiadau sydd mewn sefyllfa dda i ddiwallu anghenion cymunedau sy'n bodoli eisoes a rhai'r dyfodol i fod â chysylltiadau da â rhwydwaith teithio cynaliadwy.

**Y Pethau Cadarnhaol**

- Yn diogelu ardaloedd maes glas y tu allan i ffin aneddiadau.
- Byddai'n gwella trafnidiaeth gynaliadwy wrth adeiladu ar y seilwaith trafnidiaeth presennol a chefnogi gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus fel gorsafoedd rheilffordd newydd.
- Yn cefnogi darparu cymdogaethau cynaliadwy.
- Yn cefnogi adnewyddu trefol ac adfywio tir llwyd.
- Byddai'n helpu i fynd i'r afael ag amddifadedd o fewn ardaloedd trefol y ddinas gyda chyfleoedd i ddarparu tai fforddiadwy a thai i bobl hŷn mewn cymunedau lleol.

**Y Pethau Negyddol**

- Darparu llai o dai fforddiadwy oherwydd costau datblygu uwch adfer tir llwyd.
- Yn cynnig llai o ystod a dewis o fathau o dai.
- Byddai angen sicrhau bod seilwaith gwyrdd a choridorau cysylltiedig o fewn ardaloedd trefol yn cael eu diogelu.
- Byddai angen sicrhau bod asedau treftadaeth yn cael eu diogelu.

---

**Casgliadau**

**Yn yr un modd ag Opsiwn 2 byddai'r opsiwn hwn yn gwneud y defnydd gorau o dir llwyd yn yr ardal drefol bresennol ond hefyd yn cyfeirio twf i ardaloedd sydd â chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da.**

**Fel gydag Opsiwn 2 mae pethau cadarnhaol sylweddol ganddo. Byddai'n lleihau'r ddibyniaeth ar safleoedd maes glas i sicrhau twf tai, yn cefnogi darparu cymdogaethau cynaliadwy, yn gwneud y defnydd gorau o seilwaith cynaliadwy presennol, cefnogi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus a datblygiadau newydd ger cyfleusterau manwerthu a chymunedol presennol a mynd i'r afael ag amddifadedd mewn ardaloedd trefol trwy adfywio safleoedd tir llwyd a darparu tai fforddiadwy a thai i bobl hŷn mewn cymunedau lleol.**

**Wrth fynd â'r opsiwn hwn yn ei flaen, byddai'n bwysig sicrhau bod mannau gwyrdd a choridorau presennol yn yr ardal drefol yn cael eu gwarchod a'u gwella ar gefn cynlluniau adfywio. Byddai angen cydnabod hefyd y dylid diogelu asedau treftadaeth. Ar ben hynny, byddai'r opsiwn hwn yn arwain at lai o dai fforddiadwy ar safleoedd datblygu oherwydd y costau adfer uwch a byddai'r math o dai a ddarperir yn ddatblygu dwysedd uwch.**



## Opsiwn 6 - Coridorau twf tramwy cyhoeddus strategol

**Disgrifiad**

Twf a datblygiad yn canolbwyntio ar safleoedd maes glas ar hyd coridorau tramwy cyhoeddus newydd yn arwain allan o'r ddinas i'r rhanbarth ehangach.

---

**Canfyddiadau'r ymgynghoriad**

Dewisodd 8% o'r ymatebwyr yr opsiwn hwn ac roeddent yn teimlo y byddai'n cefnogi darparu gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus, gwella trafnidiaeth gynaliadwy ac adeiladu ar y seilwaith presennol, darparu mwy o dai fforddiadwy, ac ystod a mwy o ddewis o safleoedd a mathau o dai

---

**Asesiad Crynodol**

Twf a datblygiad yn canolbwyntio ar safleoedd maes glas ar hyd coridorau tramwy cyhoeddus newydd yn arwain allan o'r ddinas i'r rhanbarth ehangach.

**Y Pethau Cadarnhaol**

- Yn cefnogi cyflawni gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus fel cysylltiadau rheilffordd a gorsafoedd newydd.
- Gwella trafnidiaeth gynaliadwy ac adeiladu ar seilwaith sy'n bod yn barod.
- Mae'n darparu canran uwch o dai fforddiadwy oherwydd y costau is sy'n gysylltiedig â datblygu tir maes glas.
- Mae'n darparu gwell ystod a mwy o ddewis o ran mathau o dai.

**Y Pethau Negyddol**

- Byddai'n arwain at golli tir maes glas.
- Nid yw'n rhoi digon o ystyriaeth i alw marchnad a'r gallu i gyflawni.
- Mae'n cynyddu nifer y teithiau a'r pellteroedd teithio.
- Mae'n rhoi pwysau ar gymunedau yn yr ardaloedd hynny sydd wedi ysgwyddo'r rhan fwyaf o ddatblygiadau yn hanesyddol.

---

**Casgliadau**

**Mae'r opsiwn hwn yn cynrychioli twf sy'n canolbwyntio ar safleoedd maes glas ar hyd coridorau tramwy cyhoeddus newydd sy'n arwain allan o'r ddinas i'r rhanbarth ehangach. Mae'r opsiwn hwn yn ceisio cyflwyno mwy o dir maes glas mewn ardaloedd sydd eisoes wedi gweld dyraniadau tai tir maes glas mawr yn y CDLl mabwysiedig. Mae'r safleoedd hyn wedi gweld lefelau cyflawni tai is na'r disgwyl yn y Strategaeth CDLl mabwysiedig ac mae ganddynt eisoes ddigon o dir tai wedi'i ymrwymo yn ystod cyfnod y cynllun hyd at 2036. O ystyried hyn byddai unrhyw dir ychwanegol y tu hwnt i'r ymrwymiadau hyn yn anodd ei gyfiawnhau a gallai fod yn amhosibl ei gyflawni yn ystod cyfnod y cynllun.**

## Opsiwn 7 - Ardaloedd twf maes glas gwasgaredig

**Disgrifiad**

Twf a datblygiad sy'n canolbwyntio y tu allan i ffin yr anheddiad ar amrywiaeth o ardaloedd twf maes glas gwasgaredig.

**Canfyddiadau'r ymgynghoriad**

Dewisodd 5% o'r ymatebwyr yr opsiwn hwn ac roeddent yn teimlo y byddai'n darparu mwy o dai fforddiadwy ac ystod a mwy o ddewis o safleoedd a mathau o dai.

**Asesiad Crynodol t**

Twf a datblygiad sy'n canolbwyntio y tu allan i ffin yr anheddiad ar amrywiaeth o ardaloedd twf maes glas gwasgaredig.

**Y Pethau Cadarnhaol**

- Mae'n darparu canran uwch o dai fforddiadwy oherwydd y costau is sy'n gysylltiedig â datblygu tir maes glas.
- Mae'n darparu gwell ystod a mwy o ddewis o ran mathau o dai.

**Y Pethau Negyddol**

- Byddai'n arwain at golli tir maes glas.
- Nid yw'n rhoi digon o ystyriaeth i alw marchnad a'r gallu i gyflawni.
- Mae'n cynyddu nifer y teithiau a'r pellteroedd teithio.
- Mae'n rhoi pwysau ar gymunedau yn yr ardaloedd hynny sydd wedi ysgwyddo'r rhan fwyaf o ddatblygiadau yn hanesyddol.
- Nid yw'n gwella trafnidiaeth gynaliadwy nac yn adeiladu ar seilwaith sy'n bod yn barod.

**Casgliadau**

**Mae'r opsiwn hwn yn cynrychioli twf sydd wedi'i wasgaru dros amrywiaeth o safleoedd maes glas o amgylch y ddinas. Mae'r opsiwn hwn yn ceisio cyflwyno mwy o dir glas mewn ardaloedd sydd eisoes wedi gweld dyraniadau tai tir glas mawr yn y CDLl mabwysiedig. Mae'r safleoedd hyn wedi cyflawni lefelau is na'r disgwyl o gyflawniadau tai yn y Strategaeth CDLl mabwysiedig ac mae ganddynt eisoes ddigon o dir tai wedi'i ymrwymo yn ystod cyfnod y cynllun hyd at 2036. O ystyried hyn byddai unrhyw dir ychwanegol y tu hwnt i'r ymrwymiadau hyn yn anodd ei gyfiawnhau a gallai fod yn amhosibl ei gyflawni yn ystod cyfnod y cynllun.**



## Opsiwn 8 - Cyfuniad gwasgaredig o ardaloedd tir llwyd a maes glas

**Disgrifiad**

Twf a datblygiad yn canolbwyntio ar amrywiaeth o ardaloedd twf tir llwyd a maes glas gwasgaredig o fewn a thu allan i ffin yr anheddiad.

**Canfyddiadau'r ymgynghoriad**

Dewisodd 9% o'r ymatebwyr yr opsiwn hwn ac roeddent yn teimlo y byddai'n darparu mwy o dai fforddiadwy ac ystod a mwy o ddewis o safleoedd a mathau o dai a cholli llai o dir glas.

**Asesiad Crynodol**

Twf a datblygiad yn canolbwyntio ar amrywiaeth o ardaloedd twf tir llwyd a maes glas gwasgaredig o fewn a thu allan i ffin yr anheddiad.

**Y Pethau Cadarnhaol**

- Mae'n darparu canran uwch o dai fforddiadwy oherwydd y costau is sy'n gysylltiedig â datblygu tir maes glas.
- Mae'n darparu gwell ystod a mwy o ddewis o ran mathau o dai.

**Y Pethau Negyddol**

- Byddai'n arwain at golli rhywfaint o dir maes glas ond llai nag opsiynau 1, 6 a 7.
- Nid yw'n rhoi digon o ystyriaeth i alw marchnad a'r gallu i gyflawni.
- Mae'n cynyddu nifer y teithiau a'r pellteroedd teithio.
- Mae'n rhoi pwysau ar gymunedau yn yr ardaloedd hynny sydd wedi ysgwyddo'r rhan fwyaf o ddatblygiadau yn hanesyddol.
- Nid yw'n gwella trafnidiaeth gynaliadwy nac yn adeiladu ar seilwaith sy'n bod yn barod

**Casgliadau**

**Mae'r opsiwn hwn yn cynrychioli twf sydd wedi'i wasgaru ar draws cyfuniad o safleoedd maes glas a thir llwyd o amgylch y ddinas. Mae'r opsiwn hwn yn ceisio cyflwyno mwy o dir maes glas mewn ardaloedd sydd eisoes wedi gweld dyraniadau tai tir maes glas mawr yn y CDLl mabwysiedig. Mae'r safleoedd hyn wedi cyflawni lefelau is na'r disgwyl o gyflawniadau tai yn y Strategaeth CDLl mabwysiedig ac mae ganddynt eisoes ddigon o dir tai wedi'i ymrwymo yn ystod cyfnod y cynllun hyd at 2036. O ystyried hyn byddai unrhyw dir ychwanegol y tu hwnt i'r ymrwymiadau hyn yn anodd ei gyfiawnhau a gallai fod yn amhosibl ei gyflawni yn ystod cyfnod y cynllun.**

### Nodi'r Opsiwn Gofodol a Ffefrir

**8.46** Mae datblygiad yr opsiwn a ffefrir wedi dod i'r amlwg wrth ystyried yr opsiynau gofodol ac ystyriaethau eraill, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- y nodau llesiant;
- cynnwys yr Adroddiadau Monitro Blynyddol a'r Adroddiad Adolygiad;
- y prosesau ymgysylltu; a
- chanfyddiadau'r Adroddiad Cynaliadwyedd Integredig.

**8.47** IWrth adnabod yr opsiwn a ffefrir, derbyniwyd o'r dechrau y byddai amrywiadau posibl ar yr opsiynau strategol a nodwyd, gan gynnwys opsiwn a fyddai'n ystyried cymysgedd o'r canlyniadau cadarnhaol o blith nifer o'r opsiynau hynny. Wrth ystyried yr uchod, a chyfeirio at y materion, yr amcanion a'r weledigaeth a drafodwyd yn gynharach yn y Strategaeth a Ffefrir, a'r sylwadau a dderbyniwyd o'r broses ymgysylltu, daeth opsiwn hybrid, sy'n adlewyrchu rhai o nodweddion yr wyth opsiwn gofodol, i'r amlwg fel y dull mwyaf priodol o gyflawni strategaeth ofodol gytbwys a chynaliadwy ar gyfer y ddinas.

### Opsiwn a Ffefrir - Strategaeth Dwf Gynaliadwy

**8.48** Mae'r opsiwn hybrid hwn yn adeiladu ar y dull a amlygir trwy'r opsiynau strategol maes llwyd 2, 3, 4 a 5. Mae'r strategaeth yn un tir llwyd yn y bôn ac mae'n ceisio diwallu'r rhan fwyaf o'r tir tai sydd ei angen yn ystod cyfnod y cynllun hyd at 2036 drwy ystod o safleoedd tir llwyd o fewn ffin bresennol yr anheddiad. Bydd safleoedd o'r fath yn ardaloedd adfywio ac adnewyddu mawr, wedi'u lleoli o fewn neu gerllaw i ganolfannau ardal neu leol, neu wedi eu lleoli ar nodau trafnidiaeth yn yr ardaloedd trefol. Bydd y safleoedd hyn, ar y cyd â'r banc tir sylweddol presennol o safleoedd ar safleoedd maes glas o amgylch ymyl y ddinas, yn darparu amrywiaeth a dewis o fathau o dai a lleoliadau ar draws y ddinas. .





# 9. Y Strategaeth a Ffefrir

**9.1** Nod y Strategaeth a Ffefrir yw cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion strategol a mynd i'r afael â'r materion allweddol sydd wedi'u nodi. Bydd y CDLl Newydd, wrth iddo symud ymlaen i'w fabwysiadu, yn nodi sut y bydd y newidiadau o fewn y ddinas dros gyfnod y cynllun yn cael eu rheoli ac y cynllunnir ar eu cyfer. Trwy ei bolisïau a'i gynigion, bydd y CDLl Newydd yn ceisio darparu ar gyfer y newidiadau hyn a'r lefelau twf priodol ac yn nodi lle y bydd twf o'r fath yn dderbyniol drwy nodi safleoedd at ddefnydd tir penodol wrth ddiogelu a gwella buddiannau amgylcheddol, tirwedd a hanesyddol adeiledig y ddinas.

Bydd yr elfennau manwl hyn yn cael eu cynnwys yn y CDLl Adneuo.

**9.2** Mae paratoi'r Strategaeth a Ffefrir hon wedi'i lywio gan ganllawiau cenedlaethol a rhanbarthol gyda chynlluniau a strategaethau ar bob lefel yn cyfrannu, lle bo hynny'n briodol, i ddatblygu sylfaen dystiolaeth a gwybodaeth sy'n dod i'r amlwg. Mae ymgysylltu hefyd wedi chwarae rhan sylweddol wrth baratoi'r Strategaeth a Ffefrir hon (gan gynnwys creu materion trafod a'r opsiynau strategol).

## Dull Gofodol

**9.3** Mae'r strategaeth yn ceisio darparu twf cytbwys sy'n canolbwyntio ar ddarparu ystod o safleoedd tir llwyd o fewn ffin yr anheddiad yn ogystal â'r ymrwymiadau presennol ar safleoedd tir maes glas o amgylch ymyl y ddinas. Mae ymagwedd o'r fath yn cefnogi anghenion a chyflawni ar gyfer y rhanbarth ynghyd ag amcanion strategol ac adfywio'r Cyngor.

**9.4** Bydd y CDLl Newydd yn rhoi cyfle i ddarparu 24,000 o gartrefi dros gyfnod y cynllun. Mae hyn yn cyfateb i 1,600 o gartrefi'r flwyddyn rhwng 2021 a 2036. Byddai hyn yn caniatáu i gartrefi newydd gael eu darparu mewn modd cynaliadwy sy'n cefnogi dyheadau ein cymunedau ac yn darparu hyblygrwydd priodol i ymateb i amcanion tai fforddiadwy y ddinas.

**9.5** Wrth gyflawni nifer y cartrefi a nodir uchod, mae'r Strategaeth a Ffefrir hon yn cynnwys hyblygrwydd ychwanegol fel rhan o'i chyflenwad (cynnydd) i sicrhau bod twf cynaliadwy yn cael ei gyflawni ac i oresgyn unrhyw broblemau posibl na ragwelwyd o ran cyflawni. Mae hyblygrwydd o 10% drwy gyfrwng 2,400 o gartrefi eraill wedi'i gynnwys. Mae hyn yn cyfateb i gyflenwad tai o 26,400 o anheddau i ddarparu'r 24,000 o gartrefi.

**9.6** Bydd ymagwedd o'r fath yn cael ei gefnogi drwy hinsawdd economaidd cryf gyda chreu o leiaf 32,300 o swyddi dros gyfnod y cynllun yn elfen allweddol. Mae hyn yn adlewyrchu'r amcanion twf a chreu swyddi yn Strategaeth Economaidd y Cyngor 'Adeiladu Mwy a Gwell Swyddi', a thrwy Fargen Ddinesig Dinas-Ranbarth Caerdydd.

## Datblygu Cynaliadwy, Llesiant a Newid yn yr Hinsawdd

**9.7** Wrth gynllunio ar gyfer dyfodol cynaliadwy i Gaerdydd, mae'r Strategaeth a Ffefrir hon yn ceisio adlewyrchu a hyrwyddo egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ac ymgorffori'r dyletswyddau a osodwyd drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae gan y system gynllunio hanes hirsefydlog o hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac yn hyn o beth, bydd y Strategaeth a Ffefrir hon a'r CDLl wrth iddo symud ymlaen i'w fabwysiadu yn ceisio gwella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cymunedau. Bydd hefyd fel rhan o'r agenda hon yn chwarae ei rhan wrth fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd gan adlewyrchu cyfraniad y system gynllunio yn ei chyfanrwydd.

**9.8** Mae'r CDLl yn ceisio rhoi fframwaith polisi ar waith sy'n mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y ddinas trwy fabwysiadu egwyddorion a datblygu cynaliadwy.

**9.9** Bydd y CDLl yn hyrwyddo egwyddorion cynaliadwyedd drwy:


- Ddiogelu a gwella bioamrywiaeth, trefluniau a thirweddau;
- Lleihau'r galw a'r defnydd o ynni drwy hwyluso cyflawni adeiladau a chartrefi carbon niwtral, gan gynnwys hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau, gan gynnwys cyfeirio datblygiad i dir a ddatblygwyd yn flaenorol lle bynnag y bo modd;
- Lleihau dibyniaeth ddiangen ar y car modur preifat, hyrwyddo dewisiadau teithio cynaliadwy a 'gwyrdd', adeiladu ar ddatblygiadau mewn technoleg a hyrwyddo hygyrchedd i ddulliau teithio amgen;
- Hyrwyddo rheoli gwastraff cynaliadwy
- Hyrwyddo rheoli dŵr cynaliadwy (gan gynnwys sicrhau cyflenwad cynaliadwy o adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr, hyrwyddo dulliau draenio cynaliadwy a mynd i'r afael â phroblemau llifogydd). Mae hyn yn cynnwys lleihau bregusrwydd cymunedau drwy sicrhau nad yw datblygiad wedi'i leoli mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd;
- Hyrwyddo gwella lles a chynhwysiant cymdeithasol drwy gefnogi cymunedau iach, hygyrch a chydlynol;
- Cefnogi datblygu economi wydn a hwyluso twf priodol yn y dyfodol; a
- Hyrwyddo a diogelu'r Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg.



## Strategaeth a Ffefrir - Cydrannau Allweddol

**9.10** Mae elfennau allweddol y strategaeth fel a ganlyn:

1. Darparu ar gyfer 26,400 (gan gynnwys lwfans hyblygrwydd o 10%) o gartrefi newydd yn ystod cyfnod y cynllun 2021 i 2036;
2. Darparu cyfleoedd i gyflawni o leiaf 32,300 o swyddi newydd yn ystod cyfnod y cynllun 2021 i 2036 yn y ddinas i gefnogi'r uchelgeisiau economaidd a chyflogaeth strategol yn y ddinas a'r rhanbarth;
3. Darparu digon o dir cyflogaeth i gefnogi twf economaidd a chreu swyddi;
4. Potensial i ddarparu 5,000 i 6,000 o gartrefi fforddiadwy yn dibynnu ar gyfansoddiad safleoedd;
5. Darparu ystod dda a dewis o dai gyda rhaniad tir llwyd / maes glas 50:50;
6. Darparu seilwaith, cyfleusterau cymunedol ac amcanion teithio cynaliadwy;
7. Parchu a gwella nodweddion amgylcheddol cyfoethog ac amrywiol y ddinas;
8. Cydnabod cymeriad diwylliannol ac ieithyddol y ddinas;
9. Cyfrannu at ddarparu cyfleoedd adfywio corfforol a chymdeithasol sy'n darparu ar gyfer ac yn adlewyrchu ystod o gymunedau amrywiol a chydlynol ledled y ddinas;
10. Canolbwyntio newid o ran manwerthu ar ganolfannau sefydledig;
11. Cydnabod cyfraniad 'tir a ddatblygwyd o'r blaen' a'i ddefnyddio fel y bo'n briodol;
12. Cynnig cyfleoedd i ddarparu ar gyfer economi ymwelwyr y ddinas;
13. Diogelu a gwella nodweddion cadwraeth naturiol, hanesyddol ac adeiledig Caerdydd a'i thirweddau gwerth uchel; a
14. Cyfrannu at rwydwaith trafnidiaeth integredig yn y ddinas a'r rhanbarth a hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio a chael mynediad at ddulliau teithio amgen gan gynnwys cerdded a beicio.


DIAGRAM ALLWEDDOL Y
STRATEGAETH A FFEFRIR
CAERFFILI
RHONDDA
CYNON TAF
M4
CASNEWYDD
M4
Pa
TN
AF
CC
CAERDYDD
BRO MORGANNWG
Ynys
Echni
ALLWEDD
Ardal Fenter Canol Caerdydd a'r Orsaf Drafnidiaeth Ranbarthol
Gwarchod a Gwella Rôl Canol y Ddinas
Gwarchod a Gwella Rôl Bae Caerdydd a'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol
Gwarchod Prif Safleoedd Cyflogaeth Presennol
Safle Cyflogaeth Strategol
Ardal Dwf Bresennol
Gweithio gydag ACLlau Cyfagos i Leihau Llif Traffig yn Dod i'r Ddinas
Coridorau Bws â Blaenoriaeth Newydd
Gorsaf Drafnidiaeth Gyhoeddus
Parcio a Theithio Newydd
Gwarchod a Gwella Coridorau Afon
Gwarchod a Gwella Ardaloedd Tirwedd Arbennig
Gwarchod y Lletem Las
Gwarchod a Gwella Cefn Gwlad Arall
Porthladd Caerdydd

# 10. Polisïau Strategol

**10.1** Mae'r adran ganlynol yn nodi'r Polisïau Strategol sy'n ffurfio'r fframwaith ar gyfer gweithredu a chyflawni'r CDLl Newydd. Mae'r polisïau'n ceisio cefnogi cyflawni gweledigaeth ac amcanion y Cynllun, amcanion y Cyngor a nodir yn y strategaeth 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' a hefyd yn darparu cysylltiadau ar lefel uchel a chydymffurfiaeth gyffredinol â'r Nodau Llesiant. Mae Atodiad 2 yn cynnwys asesiadau cydnawsedd rhwng amcanion strategol diwygiedig y CDLl Newydd, yr Amcanion Llesiant, Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Chanlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol a nodir ym Polisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol.

**10.2** Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn canolbwyntio ar greu lleoedd cynaliadwy a chynhwysol sy'n cydnabod llesiant unigolion, eu teuluoedd a'u cymunedau ac mae'n rhan o ymagwedd cysylltiedig ar draws yr holl themâu sy'n caniatáu creu atebion hirdymor i sicrhau bod cyfleoedd ar gael i gynnal a gwella llesiant.

**10.3** Mae'n cydnabod bod lleoedd cynaliadwy yn cael eu creu yn sgil cydbwysedd rhwng nodweddion ecogyfeillgar, economaidd bywiog a chynhwysol yn gymdeithasol, sy'n anelu at fod o fudd nid yn unig i drigolion presennol ond cenedlaethau'r dyfodol hefyd.

**10.4** Dylid nodi y bydd polisïau penodol yn cael eu datblygu fel rhan o'r CDLl Adneuo ac y byddant fel y bo'n briodol yn cael eu nodi yng nghyd-destun y thema berthnasol.

CRYFACH
TECACH
GWYRDDACH

STRONGER
FAIRER
GREENER



# 1. Cryfach

### PS1: DARPARU AR GYFER TWF CYNALIADWY

**Er mwyn diwallu'n effeithiol anghenion economaidd a chymdeithasol amlwg wrth gynnal a gwella adnoddau naturiol Caerdydd, mae'r cynllun yn gosod strategaeth ger bron i ddarparu ar gyfer 26,400 o anheddau (gan gynnwys lwfans hyblygrwydd o 10%) a 32,300 o swyddi newydd dros gyfnod y cynllun.**

**10.5** Fel y nodir uchod mae amryw o opsiynau twf wedi cael eu hystyried ac yr ymgynghorwyd arnynt a cheisiwyd cyngor arbenigol. Ystyrir bod lefel y twf a nodir yn y Polisi hwn yn adlewyrchu'r dadansoddiad gorau o'r holl ffactorau perthnasol. Yn bwysig, mae'n seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf ac yn ystyried yr holl ganllawiau polisi cynllunio cenedlaethol perthnasol fel y nodir yn Polisi Cynllunio Cymru ac a grynhoir isod.

**10.6** Nid ystyrir bod gan unrhyw ffactorau perthnasol eraill ddigon o bwys i warantu gwyro oddi wrth y lefel hon o dwf yr ystyrir ei bod yn:

- Unol â Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 sy'n nodi'r ddinas fel Ardal Dwf Genedlaethol;
- Yn unol â gweledigaeth ac amcanion CDLl y Cyngor;
- Ymateb yn effeithiol i'r angen clir wedi ei dystiolaethu i ddarparu ar gyfer nifer sylweddol o gartrefi a swyddi newydd. Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflawni'r rhagamcanion swyddogol ac ystyrir ei fod yn taro'r cydbwysedd cywir gan ystyried yr ystod lawn o ffactorau;
- Darparu cartrefi a swyddi angenrheidiol, ond mewn modd rheoledig sy'n diogelu elfennau allweddol o amgylchedd Caerdydd;
- Bodloni ffactorau cyflawni a chapasiti - mae'r CDLl yn cynnwys cynigion a mecanweithiau sy'n cyfiawnhau sut y gellir mynd i'r afael yn ddigonol â materion cyflawni a chapasiti.
- Ymateb mewn modd sy'n seiliedig ar dystiolaeth i'r safbwyntiau gwahanol a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar opsiynau strategol.

**10.7** Dangosir dadansoddiad manwl o sut y bwriedir darparu 26,400 o gartrefi newydd dros gyfnod y Cynllun yn Nhabl 2 isod.

## Tabl 2: Gofyniad Tai CDLl Caerdydd (2021-36)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth Tai | 1 | **Gofyniad Anheddau (ffigur yn deillio o senario twf)** | | **24,000** |
| | 2 | Lwfans Hyblygrwydd o 10% | | 2,400 |
| | **3** | **Cyfanswm y Ddarpariaeth Tai 2021 i 2036 (Rhaid i'r CDLl ddarparu ar gyfer y nifer hwn o gartrefi)** | | **26,400** |
| Cyflawniadau a Banc Tir | 4 | Cartrefi a Gwblhawyd 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2023 | | 2,596 |
| | 5 | Cartrefi oedd wrthi'n cael eu codi (ar 1 Ebrill 2023) | | 2,158 |
| | 6 | Cartrefi â chaniatâd cynllunio ond heb eu gweithredu eto (ar 1 Ebrill 2023) | | 12,740 |
| | 7 | Cartrefi â chaniatâd cynllunio, yn amodol ar lofnodi Cytundeb Cyfreithiol (ar 31 Mawrth 2023) | | 2,883 |
| | 8 | 'Banc Tir' presennol (h.y. rhesi 5,6 a 7) | | 17,781 |
| | **9** | **Cyflawniadau ac Is-gyfanswm presennol y 'Banc Tir'** | | **20,377** |
| Addasiadau ar gyfer newidiadau yn stoc yr anheddau presennol | 10 | Dymchweliadau yn ystod cyfnod y Cynllun (colled net) | Tybir y bydd y gwaith dymchwel yn parhau ar lefelau tebyg i'r 10 mlynedd diwethaf (h.y. 540 rhwng 2013/14 a 2022/23) dros weddill cyfnod y Cynllun. | -702 |
| | 11a | Newid defnydd o ddefnydd preswyl i ddefnydd arall (colled net) | Tybir y bydd lefelau'r stoc dai bresennol yn cael eu colli i ddefnydd arall yn debyg i'r hyn a welwyd dros y 10 mlynedd diwethaf (h.y. 46 rhwng 2012/13 a 2021/22) | -60 |
| | 11b | Newid mewn stoc - ail gartrefi y gellir codi amdanynt | Tybir y bydd lefelau wrth symud ymlaen yn debyg i'r hyn a welwyd dros y 6 blynedd diwethaf sydd ar gofnod (h.y. cyfartaledd o 85 y flwyddyn). | -1,105 |
| | 11c | Newid mewn stoc - cyfradd treth gyngor cartref gwyliau/ annomestig | Tybir y bydd lefelau yn parhau'n debyg i'r hyn a welwyd dros y 5 mlynedd diwethaf sydd ar gofnod (h.y. cyfartaledd o 22 y flwyddyn). | -286 |
| | 12 | Addasiadau preswyl - newid net cadarnhaol | Tybir y bydd lefelau preswyl i addasiadau preswyl (e.e. is-raniad eiddo) yn debyg i'r hyn a welwyd dros y 10 mlynedd diwethaf (h.y. 85 rhwng 2013/14 a 2022/23) | 111 |
| | **13** | **Is-gyfanswm Addasiadau** | | **-2,042** |



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Allowances | 14 | Safleoedd annisgwyl mawr (10 neu fwy o unedau) | Yn tybio cyfraddau cyflawni o tua 75% dros y 10 mlynedd diwethaf (h.y. 4,733 rhwng 2013/14 a 2022/23). Y ddwy flynedd gyntaf ar ôl mabwysiadu wedi eu tynnu. | 3,905 |
| | 15 | Safleoedd annisgwyl bach (o dan 10 uned) | Yn tybio cyfraddau cyflawni o tua 75% dros y 10 mlynedd diwethaf (h.y. 835 rhwng 2013/14 a 2022/23) | 814 |
| | 16 | Newid defnydd safleoedd annisgwyl | Tybir bod y rhain yn ymddangos ar lefel debyg i'r 10 mlynedd diwethaf (h.y. 1,141 rhwng 2013/14 a 2022/23) | 1,483 |
| | **17** | **Lwfans Safleoedd Annisgwyl** | | 6,202 |
| | **18** | **Lwfans Heb-gyflawni** | Elfen o ansicrwydd ond ystyrir yn rhesymol cymryd yn ganiataol ostyngiad o 20% yn y cartrefi sydd wedi'u cynnwys yn y banc tir (h.y. 20% o resi 6 a 7) ar gyfer niferoedd llai o anheddau a/neu rai safleoedd nad ydynt yn dod ymlaen | -3,125 |
| | **19** | **Is-gyfanswm Lwfansau** | | **3,078** |
| Allocations | 20 | Safleoedd Strategol | | |
| | a | Safle A | | 2,500 |
| | b | Safle B Heol y Fferi | | 500 |
| | c | Safle D J33 (Gweddilliol) | | 500 |
| | d | Safle E De Creigiau | | 650 |
| | e | Safle F Gogledd Ddwyrain Caerdydd (gweddilliol) | | 891 |
| | | | | **5,041** |
| | 21 | Safleoedd Anstrategol | | |
| | a | Ysbyty Rookwood | | 90 |
| | b | Tir yn Ardaloedd 9-12 | | 150 |
| | | | | **240** |
| | | | | |
| | **22** | **Is-gyfanswm Dyraniadau (Ar hyn o bryd ond yn cynnwys safleoedd strategol a ddyrannwyd yn flaenorol)** | | **5,281** |
| | **23** | **Cyfanswm y Cyflenwad Tai** | | **26,693** |
| | **24** | **Cydbwysedd Gweddilliol (Cyflenwad minws Darpariaeth y Cynllun)** | | **293** |

**10.8** O ran darparu cartrefi newydd, fel y nodir uchod yn Nhabl 2 ymrwymwyd eisoes i fanc tir sylweddol o gartrefi newydd a hynny ar ystod a dewis o safleoedd tir llwyd a maes glas ar draws y ddinas (20,377 yn Ebrill 2023). Yn ogystal â hyn, bydd y dyraniadau presennol yn y CDLl mabwysiedig (y mae nifer ohonynt yn destun ceisiadau cynllunio mawr sy'n cael eu pennu ar hyn o bryd) yn darparu 5,281 o anheddau pellach. Mae hyn yn golygu nad oes angen nodi tir ar gyfer unrhyw anheddau ychwanegol dros gyfnod y cynllun i gwrdd â lefel y twf a gynigir yn y Strategaeth a Ffefrir. O ystyried hyn, ystyrir na fydd angen rhyddhau tir maes glas newydd, a bydd twf tai pellach yn ystod cyfnod y cynllun yn dod drwy amrywiaeth o safleoedd tir llwyd o fewn ffin bresennol yr anheddiad.

**10.9** Byddai hyn yn dangos rhaniad tir llwyd/maes glas 50:50 a bydd yn darparu ar gyfer tai i'r farchnad a thai fforddiadwy ar ystod a dewis o leoliadau a mathau tai ledled y ddinas.

**10.10** Yn yr un modd â darparu cartrefi newydd, mae angen darparu ar gyfer ystod a dewis o gyfleoedd gwaith newydd. Mae'n bwysig sicrhau bod ystod a dewis o dir cyflogaeth a safleoedd busnes yn cael eu darparu i gynnal a gwella pa mor gystadleuol yw'r ddinas, i hyrwyddo a diogelu busnesau cynhenid a denu mewnfuddsoddiad.

**10.11** Mae'r ymagwedd yma'n ymateb i rôl Caerdydd fel prif ysgogydd economaidd y ddinas-ranbarth yn ne-ddwyrain Cymru. Wrth wraidd yr ymagwedd hwn mae cydnabyddiaeth bod dinas-ranbarth Caerdydd yn amlwg yn ffurfio ardal economaidd naturiol, a'i bod yn gyson wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol mawr i dwf economaidd Cymru. Mewn dadansoddiad o ddinasoedd craidd, mae Caerdydd yn perfformio'n dda ac mae cyfle i adeiladu ymhellach ar hyn drwy barhau i wella rôl Caerdydd a gwella cysylltiadau a chysylltedd o fewn y ddinas-ranbarth. Cydnabyddir hefyd bod manteision sylweddol i ardaloedd cyfagos o lwyddiant Caerdydd wrth gyflawni twf economaidd. Bydd gorsaf reilffordd newydd Parc Caerdydd a darpariaeth gysylltiedig tir a safleoedd cyflogaeth dosbarth defnydd B yn chwarae rhan hanfodol yn hyn o beth.

**10.12** Mae'r Cynllun yn cynnig fframwaith ar gyfer darparu ystod eang a dewis o safleoedd cyflogaeth mewn gwahanol leoliadau ac ar gyfer sectorau gwahanol gan gynnwys sectorau marchnad allweddol technolegau TGCh, ynni a'r amgylchedd, deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch, y diwydiannau creadigol, gwyddorau bywyd a gwasanaethau ariannol a phroffesiynol. Mae'r ystod o safleoedd yn sicrhau y gall Caerdydd ddarparu ar gyfer y lefel a nodwyd o dwf ar gyfer swyddi newydd. Yn bwysig, bydd gwahanol safleoedd yn cyflawni rolau gwahanol yn y strategaeth. Yn ogystal â'r safleoedd cyflogaeth traddodiadol sydd wedi'u lleoli yn ne a dwyrain y ddinas, mae nifer o barciau busnes y tu allan i'r canol i'r gogledd a'r dwyrain sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith priffyrdd strategol. At hynny, darperir tir ar gyfer cyflogaeth o fewn y datblygiadau preswyl yn bennaf yng Nghyffordd 33, gogledd-orllewin Caerdydd, a gogledd-ddwyrain Caerdydd. Mae'r Strategaeth yn cefnogi adfywio tir ac eiddo at ddibenion cyflogaeth gan gynnwys tir yn Fferm y Fforest, Longwood Drive, Coryton ar gyfer Parc Gwyddor Bywyd. Un o elfennau allweddol y fframwaith hwn yw diogelu tir cyflogaeth presennol rhag defnyddiau amgen, ynghyd â gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer ailwampio ac ailddatblygu sydd o ddwysedd uwch.

**10.13** Mae lledaeniad daearyddol 'cynnig Caerdydd' hefyd yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu swyddi mewn lleoliadau hygyrch. Yn hyn o beth, mae Ardal Fenter Canol Caerdydd



a'r Orsaf Drafnidiaeth Ranbarthol yn cynrychioli lleoliad cynaliadwy a hygyrch iawn, yn agos at ardaloedd o ddiweithdra uchel yn y ddinas ond hefyd yn hawdd ei gyrraedd i'r rhanbarth ehangach trwy ddulliau teithio cynaliadwy.

## PS2: CYNNAL TWF A GWYDNWCH ECONOMAIDD

**Gwneir darpariaeth ar gyfer amrywiaeth a dewis o safleoedd cyflogaeth ar gyfer gwahanol fathau o gyflogaeth ac mewn gwahanol leoliadau daearyddol a fydd yn cyfrannu'n effeithiol tuag at gyflawni lefel y twf a nodir yn y cynllun. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan fframwaith cryf i ddiogelu rôl tir cyflogaeth y ddinas yn y dyfodol, trwy ddynodi tir a safleoedd cyflogaeth strategol a lleol pwysig. Caiff yr ardaloedd hyn eu nodi ar y map cynigion a byddant yn parhau i fod yn ofynnol at ddibenion cyflogaeth. Bydd angen diogelu ardaloedd o'r fath rhag mathau eraill o ddatblygiad, er mwyn bodloni'r cyflenwad yn effeithiol yn y dyfodol o ran gofod llawr swyddfeydd/ymchwil a datblygu, yn ogystal â thir diwydiannol a warysau, dros gyfnod y cynllun.**

**10.14** O ran darparu ar gyfer tir cyflogaeth newydd, mae'r Strategaeth yn gosod fframwaith ar gyfer darparu ystod eang a dewis o safleoedd cyflogaeth mewn gwahanol leoliadau ac ar gyfer sectorau gwahanol gan gynnwys sectorau marchnad allweddol TGCh, technolegau ynni ac amgylcheddol, deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch, y diwydiannau creadigol, gwyddorau bywyd a gwasanaethau ariannol a phroffesiynol. Bydd y safleoedd hyn yn cyfrannu tuag at gyflawni'r lefel o dwf a bennwyd ar gyfer swyddi newydd. Yn bwysig, bydd gwahanol safleoedd yn cyflawni rolau gwahanol yn y strategaeth.

**10.15** Mae darparu tir cyflogaeth fel rhan o ddatblygiadau cynhwysfawr ehangach a arweinir gan dai yng ngogledd-orllewin Caerdydd a gogledd-ddwyrain Caerdydd, yn chwarae rôl bwysig o ran y cyflenwad cyffredinol a'r cymysgedd o dir cyflogaeth sy'n cynnig ystod a dewis da o safleoedd cyflogaeth bach y tu allan i'r canol, gan gynnwys swyddfeydd, y diwydiannau creadigol, gweithdai bach, ac unedau busnesau newydd. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth lleol yn parhau i gael eu darparu ac er mwyn mynd i'r afael â'r gwahaniaethau cyflogaeth daearyddol sydd ledled y sir.

**10.16** Mae cwmpas daearyddol 'cynnig Caerdydd' hefyd yn mynd i'r afael â'r angen i ddarparu swyddi mewn lleoliadau hygyrch. Yn hyn o beth, mae'r cynnig strategol allweddol sy'n ymwneud â Pharth Menter Canol Caerdydd a'r Orsaf Drafnidiaeth Ranbarthol yn cynrychioli lleoliad cynaliadwy a hygyrch iawn, yn agos at ardaloedd o ddiweithdra uchel yn y ddinas ond hefyd yn hygyrch i'r rhanbarth ehangach trwy ddulliau teithio cynaliadwy. Mae Ardal Fenter Canol Caerdydd sydd eisoes wedi ei sefydlu wedi'i chanoli ar Orsaf Reilffordd Caerdydd Canolog a dyma'r unig Ardal Fenter yn y Deyrnas Gyfunol sy'n ymroddedig i ddenu a thyfu'r sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol.

**10.17** Mae prif ofod swyddfa Caerdydd sef y Sgwâr Canolog yn cynnwys swyddfeydd Gradd A gan gynnwys pencadlys newydd BBC Cymru a The Interchange, cynllun masnachol a phreswyl defnydd cymysg a gorsaf drafnidiaeth. Yn union wrth ymyl Caerdydd Canolog mae Datblygiad y Cei Canolog newydd, datblygiad defnydd cymysg mawr sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd a gynigir i gynnwys gwestyau, swyddfeydd, fflatiau moethus a champws prifysgol.

**10.18** Penderfynodd y Cyngor roi caniatâd cynllunio (cais 21/00076/MJR) ar gyfer Tir i'r de o Barc Busnes Llaneirwg (Parc Caerdydd). Dyma ei safbwynt o hyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi galw'r cais i mewn ac mae'r Cyngor yn dal i aros am benderfyniad. Os caiff ei gymeradwyo, bydd y datblygiad hwn yn cynnig safle cyflogaeth strategol sy'n gallu denu cyfleoedd mewnfuddsoddi ar gyfer sectorau gwasanaeth a gwybodaeth gwerth uchel. Mae hwn yn safle cyflogaeth pwysig sy'n cyfrannu at yr ystod a'r dewis angenrheidiol o fathau o gyfleoedd cyflogaeth yn y ddinas. Mae ei leoliad mewn sefyllfa arbennig o dda i gynnig cyfleoedd gwaith hygyrch i ardaloedd o amddifadedd hysbys. Nod y datblygiad arfaethedig yw dod yn gatalydd ar gyfer twf, gan gyfrannu at adfywio dwyrain Caerdydd a'r Brifddinas-Ranbarth ehangach. Bydd datblygu parc busnes newydd yn darparu hyd at 90,000 metr sgwâr o ofod busnes ac mae ganddo'r potensial i gefnogi tua 6,000 o swyddi, yn ogystal â dod yn orsaf drafnidiaeth sy'n helpu pobl i gyrchu cyfleoedd cyflogaeth eraill ar draws y rhanbarth.

**10.19** Penododd Cyngor Caerdydd Hardisty Jones Associates (HJA) mewn partneriaeth ag Owen Davies Consulting a NP Linnells Property i ymgymryd ag Astudiaeth Tir a Safleoedd Cyflogaeth (ELPS) (Mawrth 2022).

**10.20** Mae'r gofyniad am dir cyflogaeth i Gaerdydd yn y dyfodol wedi cael ei asesu gan ystyried:

- rhagamcanion o'r cyflenwad llafur, gan adlewyrchu'r rhagamcanion poblogaeth;
- defnydd hanesyddol o dir cyflogaeth; a
- rhagamcanion y sector cyflogaeth.

**10.21** Cyfrannodd yr Astudiaeth ymhellach at sylfaen dystiolaeth Adolygiad y CDLl trwy nid yn unig nodi'r gofynion tir cyflogaeth ar gyfer cyfnod y CDLl newydd (2021-2036), ond hefyd asesu addasrwydd y cyflenwad tir cyflogaeth presennol i ddiwallu'r anghenion hyn.

**10.22** Mewn termau meintiol mae'r cyflenwad presennol o ofod llawr swyddfeydd ac ymchwil a datblygu (R&D) ar draws yr ystod o feysydd sy'n cyfrannu (y stoc bresennol o safleoedd gwag, y rhai a gadarnhawyd sydd ar y gweill a'r dyraniadau safle strategol) yn fwy na digon i fodloni'r gofynion craidd.

**10.23** Mae gwarged y cyflenwad yn darparu ar gyfer amrywiaeth o fathau a lleoliadau, gan gynnwys darpariaeth sylweddol yn yr Ardal Fusnes Ganolog ac Ardal Bae Caerdydd, yn ogystal â darpariaeth y tu allan i'r dref/parciau busnes.

**10.24** Mae potensial hefyd am lai o alw, neu ryddhau ychwanegol o'r stoc bresennol os bydd lefelau uwch o weithio hybrid yn parhau yn y tymor canolig. Ar ben hynny, mae potensial ar gyfer lefelau uwch o adnewyddu stoc mewn ymateb i'r angen i leihau allyriadau carbon.

**10.25** Mae'r cyflenwad Diwydiannol a Warws a nodwyd yn is na'r amcangyfrif isaf o ofynion y dyfodol. Mae gan y farchnad ddiwydiannol gyfraddau eiddo gwag eithriadol o isel ar hyn o bryd, ac adroddwyd bod lefelau cryf o alw marchnad. Mae rhanddeiliaid wedi dweud bod cyflenwad cyfyngedig wedi llesteirio twf yn y sector hwn.

**10.26** Mae dadansoddi yn awgrymu y dylai'r CDLl ddarparu ar gyfer tua 300,000 metr sgwâr o ofod diwydiannol a warws. Mae hyn yn sylweddol fwy na'r cyflenwad sydd ar y gweill ar hyn o bryd ac o fewn y dyraniadau safle strategol. Mae'r gofyniad oddeutu 140,000 metr sgwâr o ofod llawr, sy'n cyfateb i amcangyfrif o 35 hectar o ran tir.

**10.27** O ystyried y gofynion tir cyflogaeth a ragwelir yn y dyfodol, mae'n hanfodol bod



y Strategaeth yn ceisio diogelu tir busnes a diwydiannol a warysau sy'n bodoli'n barod yn strategol ac yn lleol (defnydd B1b/c, B2 a B8). Bydd rhagdybiaeth gref hefyd o blaid cadw'r gofod swyddfa hygyrch ac o ansawdd uchel presennol (defnyddiau B1a).

**10.28** Gall colli tir cyflogaeth ddigwydd yn raddol gyda cholli un safle yn gynsail i golli cyfres o safleoedd eraill mewn lleoliad tebyg, gan arwain at erydu graddol ar safle cyflogaeth. Weithiau gall defnydd arall hefyd ddarnio ardal fusnes fwy neu dorri'r cysylltiad rhwng defnyddiau cyflogaeth mewn ardal. Dros amser gall pwysau dros ddefnydd arall arwain at golled gyfanredol wirioneddol o leoliadau cyflogaeth ar draul yr economi leol. Yn ogystal, mae llawer o ardaloedd diwydiannol presennol wedi'u lleoli o fewn yr 'arc amddifadedd deheuol' yn yr ardaloedd sydd â'r angen mwyaf am swyddi ac mae'n bwysig cadw cyflogaeth yn y lleoliadau hyn oherwydd eu hygyrchedd.

**10.29** Bydd polisi diogelu cyflogaeth cryf yn sicrhau eu cyfraniad pwysig parhaus at gynnig ffynonellau cyflogaeth hygyrch yn y ddinas. Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth i'r newid defnydd i ddefnyddiau amgen (gan gynnwys tai) o ran swyddfeydd a safleoedd diwydiannol o ansawdd is, nad ydynt yn cyflawni rôl strategol neu leol bwysig o ran yr ystod a'r dewis cyffredinol o safleoedd.

**10.30** Pan ystyrir bod defnydd amgen o dir yn briodol, rhoddir blaenoriaeth i ddatblygiad defnydd cymysg sy'n cynnwys cyflogaeth, tai a chyfleusterau cymunedol neu, lle nad yw hynny'n ymarferol, i dai. (Bydd y sefyllfa bolisi hon hefyd yn helpu i gefnogi darpariaeth safleoedd annisgwyl yn y dyfodol dros gyfnod y Cynllun). Bydd angen i gynigion eraill ddangos pam na ellir cyflawni defnydd cymysg o gynlluniau tai a chyflogaeth ar safle.

**10.31** Bydd y ddarpariaeth gyflogaeth y mae angen gallu ei dangos dros gyfnod y Cynllun yn cael ei chyflawni yn y modd canlynol:

- Gellir darparu cynnydd mewn darpariaeth B1(c) diwydiannol ysgafn drwy safleoedd strategol a nodwyd ar hyn o bryd.
- Drwy ystyried yr holl safleoedd ymgeisiol addas a gyflwynwyd at ddibenion cyflogaeth B1, B2, B8.
- Ailbennu Ipswich Road fel safle Cyflogaeth a Warchodir yn Lleol i ddiogelu'r tir hwn at ddibenion diwydiannol a diwydiannol ysgafn a'i gynnwys yn y cyflenwad dros gyfnod y cynllun (hyd at 10 ha).
- Mae'r ardal wedi datblygu swyddogaeth defnydd cymysg a arweinir gan gyflogaeth ac mae'n ymgorffori amrywiaeth o ddefnyddiau gan gynnwys manwerthu, busnes a diwydiannol. Mae'r defnydd manwerthu wedi ei leoli'n bennaf ger Rhodfa Colchester. Mae gweddill y safle yn canolbwyntio ar gyflogaeth yn bennaf gyda nifer o adeiladau swyddfa, ynghyd â defnyddiau diwydiannol a busnes. Ymhlith y defnyddiau mae canolfannau prawf MOT, gweithdai atgyweirio cyrff ceir ac iardiau adeiladwyr. Mae yna hefyd nifer o ystafelloedd arddangos gwerthu ceir. Gyda chyfraddau swyddi gwag cymharol isel, mae'r safle hwn yn safle cyflogaeth pwysig a dylid ei gadw felly.
- Bydd yn bwysig sicrhau lefel uwch o ailddatblygu ac ailwampio stoc yn helaeth o fewn ardaloedd cyflogaeth presennol ledled y ddinas.
- Bydd hyn yn gwneud y gorau o'u cyfraniad at ddarparu swyddi o safleoedd presennol ac yn hyrwyddo'r defnydd mwy effeithlon o dir cyflogaeth. Mae'r strategaeth yn ceisio annog dwysáu ac adnewyddu tir a safleoedd cyflogaeth presennol nad ydynt yn cael eu

defnyddio, sydd yn wag neu'n dirywio. Mae'r Strategaeth yn cefnogi adfywio tir ac eiddo at ddibenion cyflogaeth gan gynnwys tir yn Fferm y Fforest, Longwood Drive, Coryton ar gyfer Parc Gwyddor Bywyd. Cefnogir y cynllun hwn gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC).

- Archwilio'r potensial ar gyfer addasu ffocws datblygu safleoedd cyflogaeth a nodwyd eisoes.
- Mabwysiadu dull polisi hyblyg i gefnogi cynigion cyflogaeth ar dir na nodwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth, i gefnogi safleoedd cyflogaeth ychwanegol sy'n dod ymlaen dros gyfnod y cynllun.
- Ystyried y cwmpas ar gyfer unrhyw angen cyflogaeth heb ei ddiwallu ar gyfer tir diwydiannol a warysau i gael ei letya yn y ddinas-ranbarth ehangach.

## PS3: SICRHAU YMAGWEDD UWCHGYNLLUNIO

**Bydd angen ymagwedd uwchgynllunio ar safleoedd neu ddatblygiadau strategol presennol ac yn y dyfodol sydd â mwy na 100 o gartrefi, neu unrhyw brosiect sy'n cynnwys mwy nag un cam datblygu.**

**Dylai cynlluniau ar gyfer safleoedd datblygu sy'n cydymffurfio â'r meini prawf hyn fod yn unol â'r:**

**i. Egwyddorion uwchgynllunio cyffredinol canlynol:**

**a) Bydd uwchgynlluniau'n cael eu paratoi sy'n cwmpasu ardaloedd datblygu cyfan waeth beth fo'u patrymau perchnogaeth tir;**

**b) Bydd cynlluniau'n cael eu cynllunio mewn modd cynhwysfawr ac integredig sy'n adlewyrchu gwaith partneriaeth sy'n cynnwys yr holl bartïon perthnasol;**

**c) Bydd datblygiadau preswyl a defnydd cymysg dwysedd uwch yn canolbwyntio ar hyd coridorau trafnidiaeth gyhoeddus ac mewn canolfannau cymdogaeth gyda dwysedd is yn cael eu darparu mewn mannau eraill i ddarparu ystod a dewis cyffredinol o dai i ddiwallu gwahanol anghenion; a**

**d) Bydd y cyflwyniad yn cynnwys Datganiad Dylunio a Mynediad (DDM) sy'n adolygu cyd-destun y safle a chyfleoedd a chyfyngiadau datblygu ac yn dangos esblygiad y meddylfryd dylunio trefol a thirweddol. Dylai'r rhain:**

**i. Grynhoi ystod lawn o gyfleusterau cymdeithasol a chymunedol mewn canolfannau cymdogaethau defnydd cymysg wedi'u lleoli ar hyd coridorau trafnidiaeth gyhoeddus a mynediad hawdd atynt trwy gerdded a beicio;**

**ii. Cynnwys isafswm ac uchafswm uchder yr adeiladau sy'n angenrheidiol i ddarparu'r dwysedd ymarferol uchaf sy'n addas i gynnal neu wella cymeriad cyd-destun y datblygiad;**

**iii. Nodi trefniant a hierarchaeth unrhyw fannau cyhoeddus gwyrdd a threfol, gan gynnwys yr hyn allent eu cynnwys i gyflawni'r gofynion mannau cyhoeddus sy'n deillio o'r datblygiad;**

**iv. Cyfeirio at brif nodweddion y ffurf drefol, y treflun a'r dirwedd arfaethedig;**

**v. Cyfeirio at ardaloedd â chymeriad, gydag enghreifftiau cynsail;**

**vi. Nodi'r ddarpariaeth seilwaith a chyfleustodau angenrheidiol;**



**vii. Cynnwys fframwaith uwchgynllun dangosol sy'n dangos cynllun gosodiad posibl yn y dyfodol;**

**viii. Cynnwys cod dylunio mwy manwl a strategaeth rheoli seilwaith gwyrdd mewn fformat y cytunir arno gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol; a**

**ix. Nodi camau'r datblygiad cyfan.**

**ii. Canllawiau wedi eu nodi mewn fframweithiau prif gynllunio safle-benodol, lle y'u paratowyd, ac unrhyw godau dylunio dilynol.**

**10.32** Er mwyn rheoli ffurf, defnyddiau, datrysiadau cludiant, camau ac ymddangosiad datblygiadau newydd mawr, mae'r polisi hwn yn gosod 'dull uwchgynllunio' ger bron. Bydd hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i ddatblygwyr, y cyhoedd, a phob parti arall sydd â diddordeb. Y nod cyffredinol fydd i'r Cyngor osod fframwaith eang ar y cychwyn a fydd yn darparu cyd-destun trosfwaol ar gyfer gwaith dylunio a gweithredu manylach i ddilyn. Mae'r Polisi hwn yn ymwneud â phob safle strategol ac unrhyw ddatblygiadau mawr newydd eraill a allai ddod i'r amlwg dros gyfnod y Cynllun.

**10.33** Bydd y polisi hwn, ar y cyd â pholisïau perthnasol eraill, yn gosod y fframwaith uwchgynllunio i dirfeddianwyr a datblygwyr baratoi Cynlluniau Paramedr ac Uwchgynlluniau ar gyfer cynigion datblygu newydd mawr, a fydd yn llywio'r broses Rheoli Datblygu.

## PS4: SICRHAU DYLUNIO CYNALIADWY O SAFON DDA

**Bydd angen i'r holl ddatblygiadau newydd feddu ar ddyluniad cynaliadwy o ansawdd uchel a gwneud cyfraniad cadarnhaol i greu cymunedau, lleoedd a gofodau unigryw ac iach drwy:**

**i. Cymeriad: Rhaid cynllunio datblygiad i gynnal neu wella cymeriad lleoedd. Dylai cynlluniau fanteisio ar y cyfleoedd i gynnal neu wella ansawdd a swyddogaeth unrhyw leoliad treflun a thirwedd. Bydd cynlluniau yn sicrhau bod cynllun, graddfa a'r patrwm cynnull, ffurf toeau, uchder, dwysedd, ymddangosiad gweledol, deunyddiau ac unrhyw fanylion yn creu dyluniad da;**

**ii. Eglurder: Rhaid i ddatblygiad gynnig parhad a chwmpasu strydoedd a mannau cyhoeddus presennol a rhai newydd i gynnal, gwella neu osod llwybrau eglur trwy ddatblygiad sy'n arwain at leoedd sy'n teimlo'n ddiogel, sy'n syml, hawdd eu deall ac felly'n hawdd eu llywio;**

**iii. Cymdogaethau cynaliadwy defnydd cymysg: Darparu amrywiaeth o dir yn y ddinas, canolfannau ardal a lleol i sefydlu a chynnal cymysgedd o ddefnyddiau gymdogaethol sy'n cefnogi ei gilydd yn agos at gartrefi pobl. Bydd defnyddiau tir hefyd yn cael eu lleoli a'u cynllunio i gyfrannu at fywiogrwydd cymdogaeth, hyfywedd busnesau, ffryntiadau masnachol gweithredol a chynnal neu sefydlu treflun diddorol;**

**iv. Hygyrchedd ac Athreiddedd: Rhaid i ddatblygiad fod o fewn pellter cerdded a beicio derbyniol i ddefnyddiau lleol allweddol, mannau agored, cyfleusterau a gwasanaethau, neu wasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus sy'n cysylltu'n rhesymol â nhw. Rhaid i ddatblygiad hefyd arwain at rwydwaith athraidd o strydoedd gwahanol a llwybrau cyhoeddus eraill sy'n briodol i bobl sy'n symud ar droed, beicio, ar drafnidiaeth gyhoeddus neu gerbydau eraill o fewn datblygiad, ac i'r cyd-destun, gan gynnwys sut mae'r datblygiad newydd yn ymateb**

i ddiffygion lleol ac yn cynnig cysylltedd da i ardaloedd cyfagos wedi'u llywio gan adborth gan gymunedau sydd yno'n barod;

v. Diogelwch cymunedol: Rhaid i ddatblygiad greu mannau cyhoeddus sy'n teimlo'n ddiogel o ganlyniad i wyliadwriaeth gymunedol neu oddefol. Rhaid bod modd gweld ar hyd llwybrau lle y bo'n bosibl a'u goleuo i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn cael defnydd da;

vi. Dwysedd: Rhaid i ddatblygiad hyrwyddo defnydd effeithlon o dir, gan ddatblygu ar y dwysedd ymarferol mwyaf sy'n addas i gynnal neu wella cymeriad unrhyw gyd-destun. Bydd dwysedd uwch, adeiladau tal a datblygiad defnydd cymysg yn cael eu cefnogi mewn ardaloedd sy'n hygyrch iawn i drafnidiaeth gyhoeddus a lle mae'n ymateb i unrhyw gymeriad lleol sefydledig, cyn belled â bod yr holl faterion dylunio eraill yn cael eu trin yn briodol;

vii. Mae'n rhaid i Ddatblygiad dylunio cynhwysol greu amgylcheddau cynhwysol lle mae adeiladau, strydoedd a gofodau sy'n deillio o hynny, yn hygyrch i bob defnyddiwr gydol y dydd a, lle bo'n bosibl, y gellir eu haddasu i newidiadau yn y dyfodol mewn iechyd, gofynion cymdeithasol, newidiadau economaidd, technolegol ac amgylcheddol;

x. Ailddefnyddio adeiladau nodedig presennol: Rhaid i ddatblygiad fanteisio ar y potensial ar gyfer ailddefnyddio sensitif a chynaliadwy ar adeiladau presennol lle maent yn adeiladau tirnod lleol sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad ac ymddangosiad yr ardal, naill ai'n unigol a/neu fel rhan o grŵp;

xi. Mannau agored gwyrdd amlswyddogaethol a chysylltiedig: o ddŵr, topograffi, coed a nodweddion ecolegol eraill y safle gan gynnwys mannau gwyrdd amlswyddogaethol a chysylltiedig sy'n darparu budd i fioamrywiaeth, mae'r rhain yn creu cysylltiadau strategol bwysig i'r ardaloedd cyfagos a llwybrau i bobl a bywyd gwyllt yn ogystal â mannau agored ar gyfer chwaraeon, hamdden a chwarae;

xii. Integreiddio'n gydymdeimladol y dirwedd bresennol, y fioamrywiaeth a nodweddion hanesyddol y safle i'r datblygiad, gan fachu ar gyfleoedd i amddiffyn, gwella a rheoli nodweddion pwysig ynghyd â mesurau lliniaru a gwella i wneud iawn boddhaol;

xiii. Cefnogaeth ar gyfer datblygiadau ynni-effeithlon ac ymatebol i'r hinsawdd: Rhaid i ddatblygiadau fod yn effeithlon o ran ynni a chael eu cynllunio i fod yn ymatebol i'r hinsawdd, fel eu bod yn gwneud y mwyaf o gynhyrchu ynni adnewyddadwy, darparu datrysiadau rheoli gwastraff a dŵr cynaliadwy sy'n amddiffyn ansawdd dŵr, lleihau allyriadau o drafnidiaeth, cartrefi a diwydiant a lleihau effaith nodweddion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd fel gwres a llifogydd; ac

xiv. Amwynderau Preswyl: Rhaid i ddatblygiadau sicrhau nad oes effaith ormodol ar amwynder meddianwyr cyfagos a'u bod yn cysylltu'n gadarnhaol â chymunedau cyfagos.

**Bydd cynigion yn cyd-fynd ag unrhyw safonau gofynnol neu'n rhagori arnynt a dylent geisio cyd-fynd â'r canllawiau a nodir ar wahân mewn CCA perthnasol.**

**10.34** Mae dylunio cynaliadwy o ansawdd uchel yn hanfodol os yw Caerdydd am gyflawni'r amcanion a nodir yn y Weledigaeth a datblygu fel prifddinas o'r radd flaenaf. Yn fwy penodol, mae dylunio da yn chwarae nifer o rolau arwyddocaol: mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd; gwarchod a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig Caerdydd; amddiffyn hynodrwydd lleol; denu buddsoddiad a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, iechyd ac ansawdd bywyd.



**10.35** Felly mae dylunio da yn mynd y tu hwnt i ystyriaethau esthetig traddodiadol a dylai fod yn nod ar gyfer pob cynnig datblygu yng Nghaerdydd, waeth beth yw eu maint. Ynghyd â'r dull uwchgynllunio a nodir yn y Polisi Strategol PS3, uchod, a pholisïau manwl perthnasol, ystyrir bod y Cynllun yn darparu fframwaith polisi cadarn i sicrhau bod yr atebion dylunio gorau posibl yn cael eu sicrhau wrth i'r Cynllun gael ei weithredu. Bydd gweithredu'r Polisi hwn, sydd wedi'i anelu'n rhannol at wella effeithlonrwydd defnyddio adnoddau dŵr, yn sicrhau cyflenwad dŵr digonol heb effeithiau niweidiol ar ACA Aber Afon Hafren, a thrwy hynny helpu i osgoi'r tebygolrwydd y bydd y Cynllun hwn yn cael effaith sylweddol ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd. Bydd gweithredu'r Polisi hwn hefyd yn lleihau allyriadau llygryddion aer, dŵr a daear, a thrwy hynny yn gwrthbwyso'r cynnydd mewn llygredd sy'n deillio o weithredu polisïau eraill yn y Cynllun. Byddai hyn yn cyfrannu at osgoi effeithiau sylweddol ar Safleoedd Ewropeaidd.

**10.36** Bydd ystod o CCAau sy'n ymwneud â dylunio ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad, yn cael eu diweddaru a'u hatgyfnerthu i roi arweiniad llawn ar ddehongli'r Polisi hwn yn fanwl.

## PS5: SICRHAU SEILWAITH NEWYDD

**Bydd datblygiadau newydd yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer, neu'n cyfrannu tuag at, yr holl seilwaith gofynnol sy'n hanfodol, yn galluogi ac yn angenrheidiol yn sgil y datblygiad yn unol â Chanllawiau Polisi Cynllunio. Bydd seilwaith o'r fath yn cael ei ddarparu'n amserol i ddiwallu anghenion cymunedau presennol a chynlluniedig ac mae'n cynnwys yr agweddau canlynol y gallai fod eu hangen o ran natur, graddfa a lleoliad y datblygiad arfaethedig ac unrhyw dan-ddarpariaeth bresennol:**

**Seilwaith Hanfodol / Galluogi:**

- **Trafnidiaeth a phriffyrdd gan gynnwys mynediad, cylchrediad, parcio, darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio;**
- **Gwasanaethau nwy/dŵr/trydan;**
- **Amddiffynfeydd / lliniaru llifogydd;**

**Seilwaith Angenrheidiol:**

- **Tai fforddiadwy;**
- **Ysgolion ac addysg;**
- **Iechyd a gofal cymdeithasol;**
- **Adeiladau a chyfleusterau cymunedol gan gynnwys gwelliannau i Ganolfannau Ardal a**
- **Lleol;**
- **Cyflogaeth a hyfforddiant lleol gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth newydd lle bo hynny'n berthnasol;**
- **Mentrau diogelwch cymunedol;**
- **Mannau agored, cyfleusterau hamdden, meysydd chwarae, rhandiroedd;**
- **Mesurau gwarchod, rheoli, gwella a lliniaru sy'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol ac adeiledig;**
- **Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) Dinesig**
- **Gwelliannau i'r ardal gyhoeddus a chelf gyhoeddus;**
- **Cyfleusterau rheoli gwastraff gan gynnwys ailgylchu a gwasanaethau;**
- **Seilwaith gwresogi ardal ac ynni cynaliadwy.**

**10.37** Nod y Polisi hwn yw sicrhau bod datblygiadau newydd, waeth beth yw eu maint, lleoliad, neu ddefnydd tir, yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer seilwaith. Bydd gofynion seilwaith penodol yn amrywio mewn gwahanol leoliadau ac yn dibynnu ar faint a natur y datblygiad arfaethedig. Efallai y bydd angen seilwaith hwyluso datblygiad (hanfodol/galluogi) neu gall fod yn ofynnol iddo wneud o'r rhestr sydd wedi'i chynnwys fel rhan o'r Polisi, nad yw'n gynhwysfawr, ond sy'n rhoi syniad o gwmpas posibl seilwaith y gallai fod ei angen.

- Categori 1: Seilwaith Hanfodol / Galluogi (i hwyluso datblygiad) - Yr eitemau hynny y bydd angen eu darparu cyn neu o ddechrau'r camau datblygu perthnasol (e.e. seilwaith trafnidiaeth / priffyrdd, gwasanaethau cyfleustodau ac amddiffynfeydd /lliniaru llifogydd);
- Categori 2: Seilwaith Angenrheidiol (i wneud datblygiad yn dderbyniol) - Eitemau y mae angen eu cyflwyno fesul cam a'u gweithredu law yn llaw â datblygiadau newydd, er mwyn sicrhau bod ardaloedd yn cael cyfleusterau priodol dros amser (e.e. ysgolion a mannau agored hamddenol).

**10.38** Mae'r rhestr yn rhoi arwydd cyffredinol yn unig gan y gallai fod gan bob pwnc ofynion cymhleth. Er enghraifft, gallai seilwaith trafnidiaeth gynnwys elfennau o'r canlynol:

- Llwybrau a chyfleusterau ar gyfer cerdded a beicio sy'n cynnwys gwelliannau ar y ffordd ac oddi ar y ffordd;
- Coridorau cludiant cyflym, gan gynnwys rheilffyrdd trwm, rheilffyrdd ysgafn, tram-drenau a bysus cludiant cyflym;
- Coridorau bws allweddol a'r rhwydwaith fws ehangach gan gynnwys mesurau blaenoriaeth i fysiau a chyfleusterau i deithwyr;
- Y rhwydwaith rheilffyrdd a gwasanaethau rheilffyrdd gan gynnwys gorsafoedd rheilffordd newydd, gwelliannau i orsafoedd a chyfleusterau ar gyfer cludo nwyddau rheilffyrdd;
- Cyfnewidfeydd trafnidiaeth i gefnogi integreiddio rhwng moddau gan gynnwys, gorsafoedd bysiau a rheilffyrdd, cyfleusterau ar gyfer parcio a theithio bysiau a rheilffyrdd, parcio a rhannu, gollwng teithwyr, tacsis, parcio a beicio, parcio coetsys, parcio lorïau dros nos a thrafnidiaeth dŵr;
- Llwybrau cludo nwyddau dynodedig a chyfleusterau cludo nwyddau;
- Y rhwydwaith ffyrdd, yn enwedig mesurau i wneud gwell defnydd o gapasiti'r briffordd bresennol;
- Trafnidiaeth ar afon (gan gynnwys Bae Caerdydd); a
- Cyfleusterau porthladd a llongau.

**10.39** Bydd Cynllun Seilwaith yn cael ei baratoi i gefnogi'r CDLl newydd. Bydd hyn yn nodi costau posibl darpariaeth seilwaith a mecanweithiau / ffynonellau cyllid posibl o fewn safleoedd mwy, sy'n destun uwchgynllunio manwl fesul cam, mae'n debygol y gellir darparu seilwaith angenrheidiol fel rhan o ddatblygiad defnydd cymysg cynhwysfawr trwy rwymedigaethau cynllunio neu drwy ymyrraeth uniongyrchol gan ddarparwyr gwasanaethau/seilwaith. Ym mhob achos, bydd nodi gofynion seilwaith yn gynnar ac ymrwymiad gan ddatblygwyr a darparwyr gwasanaethau i weithio mewn partneriaeth yn helpu i sicrhau y gellir cynllunio, darparu a rheoli'r holl seilwaith angenrheidiol mewn modd trefnus ac amserol.

**10.40** Bydd darparu adeiladau a lleoedd hyblyg, amlswyddogaethol yn caniatáu i wasanaethau



hanfodol gael eu darparu, gan ganiatáu i gymunedau ddiffinio ac ailddiffinio eu gofynion seilwaith dros amser. Bydd ymrwymiad cryf i adeiladau a gwasanaethau cymunedol, eu rheolaeth a'u gwaith cynnal a chadw yn sicrhau bod cyfleusterau wrth galon y gymuned, gan leihau'r costau cyffredinol i ddatblygwyr a darparwyr gwasanaethau. Mae'r egwyddor o adeiladau cymunedol wedi'u hintegreiddio o fewn "canolfannau" aml-swyddogaeth (er enghraifft, y datblygiad @Loudoun yn Butetown) yn duedd a fydd yn parhau.

## PS6: SICRHAU RHWYMEDIGAETHAU CYNLLUNIO

**Ceisir rhwymedigaethau cynllunio i liniaru unrhyw effeithiau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â datblygiad ac fe'u hasesir yn unol â'r Canllawiau Polisi Cynllunio.**

**10.41** PMae rhwymedigaethau cynllunio ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio ac maent yn ymrwymiadau gan ddatblygwyr i ymgymryd â gwaith angenrheidiol neu wneud cyfraniadau ariannol na ellir eu sicrhau drwy amod neu ddulliau statudol eraill neu fel modd o oresgyn rhwystrau rhag rhoi caniatâd cynllunio.

**10.42** Mae datblygiadau newydd yn aml yn creu galw ychwanegol ar wasanaethau, cyfleusterau, seilwaith a'r amgylchedd sy'n bod eisoes. Mae rhwymedigaethau cynllunio yn fodd o geisio cyfraniadau gan ddatblygwyr tuag at y galwadau ychwanegol hyn, yn ogystal â negodi manteision sy'n gwella safon y cynigion datblygu drwy ddarparu'r seilwaith angenrheidiol a manteision cymunedol.

**10.43** Mae'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi sy'n llywodraethu'r defnydd o rwymedigaethau cynllunio i'w gael yn Polisi Cynllunio Cymru, Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'u diwygiwyd) a Chylchlythyr 13/97 y Swyddfa Gymreig 'Rhwymedigaethau Cynllunio' (neu fersiynau dilynol).

**10.44** Mae Rheoliadau ASC yn ei gwneud yn ofynnol nad oes gorgyffwrdd rhwng seilwaith a ariennir gan yr ASC a'r hyn y gellir ei gyflawni drwy rwymedigaethau cynllunio. Er mwyn osgoi dyblygu, ac er eglurder i ddatblygwyr, bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi rhestr (Rhestr Rheoliad 123) o'r seilwaith a fydd yn cael ei ariannu drwy'r ASC. Ar gyfer seilwaith nad yw wedi'i gynnwys ar Restr Rheoliad 123, efallai y bydd yn briodol sicrhau'r seilwaith angenrheidiol trwy rwymedigaethau cynllunio.

**10.45** Gofynnir am rwymedigaethau gan ddatblygwr i:

- Gyfyngu ar ddatblygu neu ddefnyddio'r tir;
- Gofyn bod tir gael ei ddefnyddio mewn ffordd benodol; neu
- Gofyn bod gweithrediadau neu weithgarwch yn cael eu gwneud; neu
- Gofyn bod taliadau yn cael eu gwneud i'r awdurdod.

**10.46** Ceisir rhain lle maent yn:

- Angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio;
- Ymwneud yn uniongyrchol â'r datblygiad; ac yn
- Ymwneud yn deg a rhesymol o ran maint a math â'r datblygiad.

**10.47** Fel arfer, negodir rhwymedigaethau o dan Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Gellir ymrwymo i gytundebau hefyd o dan Adrannau 278 Deddf Priffyrdd 1980. Mae'r rhain yn rhagnodi'r gwaith priffyrdd sy'n ofynnol o ganlyniad i ddatblygiadau arfaethedig. Bydd CCA yn cael eu paratoi i roi arweiniad pellach ar ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio.

## PS7: CEFNOGI'R ARDAL FUSNES CANOL A BAE CAERDYDD

**Ystyrir y defnyddiau canlynol yn briodol yn Ardaloedd Busnes Canol a Bae Caerdydd:**

i. **Swyddfeydd newydd, defnyddiau hamdden Masnachol yn ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae;**

ii **Defnydd preswyl uwchben lefel llawr gwaelod a/neu lle nad yw'n arwain at golli uned fasnachol ar y llawr gwaelod o fewn Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae.**

iii. **Cyfleusterau manwerthu, hamdden ac ategol gwell o fewn yr Ardal Siopa a Masnachol Canolog; a**

iv. **Defnyddiau eraill sydd wedi'u lleoli fwyaf priodol yng nghanol y ddinas, gan gynnwys defnyddiau sy'n cefnogi economi'r nos a'r sin gerddoriaeth.**

**10.48** Mae'r Polisi hwn yn disgrifio'r ystod o ddefnyddiau sy'n briodol o fewn Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae. Mae'n nodi'r defnyddiau hynny sydd wedi'u lleoli'n fwyaf priodol mewn canolfannau y gellir eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus gan nifer fawr o bobl o fewn Caerdydd a'r rhanbarth ehangach ac sy'n annog cymysgedd o ddefnyddiau cyflenwol i gynnal a gwella bywiogrwydd, apêl a hyfywedd canolfannau o'r fath. Wedi'i nodi yn yr Ardal Fusnes Ganolog (AFG) mae'r Ardal Fasnachol a Manwerthu Canolog lle mae defnydd manwerthu newydd a gwell ynghyd â gwasanaethau nad ydynt yn fanwerthu, busnesau, cyfleusterau diwylliannol, hamdden a chymunedol yn fwyaf priodol i gynnal ardal fanwerthu a masnachol fywiog a hanfodol. Bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu nodi ar y Map Cynigion sy'n cyd-fynd â cham nesaf paratoi'r CDLl Newydd sef y Cynllun Adneuo.

**10.49** Yr AFG yw calon gweinyddol a busnes y ddinas, a'r ffocws sefydledig ar gyfer datblygiadau swyddfa a hamdden masnachol mawr. Mae'r AFG yn cynnwys yr Ardal Fasnachol a Manwerthu Canolog, gan gadarnhau safle Caerdydd ar ben yr hierarchaeth siopa ranbarthol. Mae'r ganolfan ddinesig yn gartref i Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Phrifysgol Caerdydd sydd, ynghyd â Chastell Caerdydd a Pharc Bute i'r gogledd, yn cynnig lleoliad hanesyddol ar gyfer canol y ddinas. Mae i'r ardal yr amrywiaeth a'r apêl sy'n gweddu i brifddinas Ewropeaidd.

**10.50** Ardal Fusnes y Bae (AFB) yw'r ffocws ar gyfer y llywodraeth, twristiaeth a datblygiadau hamdden; gyda'r Senedd, Canolfan Mileniwm Cymru ac adeiladau nodedig eraill yn ailddiffinio ansawdd pensaernïol ac apêl y glannau a'r cyffiniau. Bydd datblygiadau yn y dyfodol yn parhau i drawsnewid Ardal Fusnes y Bae gyda chynigion ar gyfer arena dan do 17,000 o seddi newydd a chynigion i adfywio a gwarchod adeiladau hanesyddol. Mae Morglawdd Bae Caerdydd wedi creu llyn dŵr croyw 200 hectar ag iddo 13km o lan - gan gynnig cyfleoedd twristiaeth pellach a hamdden ar ddŵr yn ogystal â denu buddsoddiad sylweddol o'r tu allan mewn lleoliad deniadol ar lan y dŵr.

**10.51** Mae cyfleusterau hamdden a thwristiaeth newydd a gwell yn bwysig ar gyfer datblygiad Caerdydd yn y dyfodol. Mae'r defnyddiau hyn yn gyflogwyr mawr yng nghanol y ddinas ac yn creu buddion sylweddol i'r economi leol. Drwy wella ansawdd ac ystod cyfleusterau chwaraeon a hamdden, mae'r ardal yn lle mwy deniadol i fyw, gweithio ac ymweld â hi, a thrwy hynny yn helpu i ddenu mewnfuddsoddiad a hybu adfywio. Mae'r atyniadau hyn hefyd yn bwysig ar gyfer marchnata dinasoedd a brandio Caerdydd fel cyrchfan ddiwylliannol, chwaraeon a hamdden o bwys. At hynny, cydnabyddir bod y cyfleusterau hyn yn ffactor pwysig o ran gwella lles ac



ansawdd bywyd ein cymunedau lleol.

**10.52** Mae Ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae hefyd yn cynnwys nifer sylweddol o adeiladau preswyl gan gynnwys blociau fflatiau uchel, llety myfyrwyr a defnyddiau preswyl uwch ben safleoedd masnachol. Er bod ardaloedd canol y ddinas a'r bae wedi gweld cynnydd mawr mewn datblygiadau preswyl dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae angen darparu cymysgedd ehangach o fathau o dai a llety mwy hyblyg o hyd er mwyn helpu i wneud canol y ddinas yn fwy hygyrch i deuluoedd ac ystod ehangach o bobl. Bydd datblygiad preswyl newydd yn ardaloedd Busnes y Canol a'r Bae yn cefnogi darparu ardaloedd cytbwys, defnydd cymysg lle y gallant, yn rhinwedd eu hagosrwydd at drafnidiaeth gyhoeddus, hamdden, cyflogaeth a chyfleusterau cymunedol, greu cymdogaethau trefol cynaliadwy a chyfrannu at economi'r dydd a'r nos.

**10.53** Ymateb i'r Strategaeth Adfywio ac Adnewyddu Dinas Gwyrddach, Tecach, Cryfach (Tachwedd 2021), Cenhadaeth Allweddol 1:Ailddychmygu canol y ddinas, cymeradwywyd Cynllun Gweithredu Adfer Canol y Ddinas sy'n amlinellu mentrau a rhaglenni allweddol y bydd y Cyngor a'i bartneriaid yn gweithio tuag atynt dros y 5 mlynedd nesaf i greu ffyniant hirdymor, gan gynnwys cwblhau Cyfnewidfa Drafnidiaeth y Sgwâr Canolog ac uwchraddio gorsafoedd rheilffyrdd Caerdydd Canolog (Metro Canolog), Heol y Frenhines a Cathays; cyswllt tram Metro newydd rhwng canol y ddinas a'r bae, gan gynnwys darparu cyfleusterau gorsaf newydd yn Caerdydd Canolog a Stryd Pen y Lanfa, fel cam cyntaf datblygiad Cledrau Croesi Caerdydd gyda cham 2 yn parhau i Stryd Pen y Lanfa; uwchgynllun i ddatblygu Cwr y Gamlas newydd sy'n cydgysylltu Heol y Bont, Heol David, Heol Charles, Stryd Tredegar, Cilgant Guildford a Lôn y Barics i ddatblygu datblygiad dwysedd uchel, defnydd cymysg ar gyfer cartrefi, gwestyau, lletygarwch, swyddfeydd, hamdden ac adwerthu newydd; a pharhau â datblygiadau mawr yn y Cei Canolog a Sgwâr Callaghan.

## PS8: CEFNOGI RÔL PORTHLADD CAERDYDD

**Bydd Porthladd Caerdydd yn cael ei warchod er mwyn parhau â'i brif rôl drwy ddarparu gweithgareddau cyflogaeth traddodiadol sy'n benodol i borthladdoedd. Cefnogir gweithgareddau cynhyrchu cyflogaeth pellach, gan gynnwys darparu defnyddiau diwydiannol a logistaidd, a chynhyrchu ynni gwyrdd. Bydd hyblygrwydd hefyd i ganiatáu defnyddiau hamdden, preswyl a chymysg, o fewn ardaloedd priodol ar yr amod eu bod yn gydnaws â defnyddiau cyfagos (sy'n gysylltiedig â'r porthladd).**

**10.54** TMae'r Porthladd yn cwmpasu ardal o tua 292ha (gan gynnwys 98ha tua'r môr) i'r de o Gaerdydd, gyda mynediad i longau trwy Fôr Hafren. Mae'r Porthladd yn cynnwys Doc y Frenhines Alexandra, Doc y Rhath, Basn y Rhath a thiroedd, adeiladau a seilwaith cysylltiedig. Mae ABP hefyd yn berchen ar Ddoc Dwyreiniol Bute i'r gogledd, wedi'i wahanu'n gorfforol o'r Porthladd (tua 380m) ond yn agwedd bwysig ar seilwaith y Porthladd dros tua 10ha.

**10.55** Mae'r Porthladd yn parhau i fod yn un o brif borthladdoedd a chanolfan fasnachu Cymru ar gyfer busnesau yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y Deyrnas Gyfunol. Mae'r porthladd gweithredol a'r dociau yn ased masnachol pwysig, gan ddarparu swyddi a chyfleoedd busnes sy'n cyfrannu tuag at adfywio economaidd a masnach ryngwladol. Heddiw, mae Porthladd Caerdydd

yn cefnogi 2,600 o swyddi yn genedlaethol ac yn cyfrannu tua £180 miliwn i'r economi bob blwyddyn.

**10.56** Mae gan y Porthladd gysylltiadau trafnidiaeth da, wedi'i leoli 14 milltir i'r de o Gyffyrdd 29 a 30 yr M4 a chysylltiadau uniongyrchol â'r rhwydwaith rheilffyrdd cenedlaethol. Mae'r Porthladd hefyd lai na dwy filltir a hanner o ganol y ddinas. Mae cyfleusterau presennol y Porthladd yn cynnwys warysau cludo a dosbarthu, mannau storio awyr agored a seilwaith priodol, gan gynnwys craeniau gantri uwch ben. Mae gan y Porthladd dri angorfa wedi'u cymeradwyo ar gyfer ymweliadau gan longau mordeithio a dwy lanfa dywod a mwynau. Fodd bynnag, mae gan y Porthladd nifer o barseli tir gwag ar draws y safle, sy'n cynrychioli cyfleoedd ar gyfer ad-drefnu a rhyddhau tir i'w ailddatblygu.

**10.57** Mae'n hanfodol sicrhau y bydd y Porthladd yn cadw ei rôl fel sbardun economaidd i Gaerdydd a'r rhanbarth yn yr 21ain ganrif. Mae buddsoddiadau diweddar yng Nghaerdydd yn cynnwys dros £4 miliwn ar gyfer gwella warysau ac offer trin i gefnogi cwsmeriaid yn y sectorau dur, cynhyrchion coedwigoedd a chargo cyffredinol. Fodd bynnag, mae yna angen i ymateb i alw sy'n newid dros gyfnod y Cynllun.

**10.58** Mae ABP wedi nodi bod llawer o gyfleoedd i ddatblygu a thyfu busnesau newydd ar gyfer y dyfodol ac ymgymryd â datblygiad ategol trwy gynllunio busnes gofalus a gweithgareddau uwchgynllunio ar draws y safle. mae cyhoeddiad ABP 'Future ports: Wales' vision' yn cydnabod y bydd ei phorthladdoedd Cymreig yn asedau hynod bwysig wrth helpu Cymru i wneud yr aliniadau strategol sy'n ofynnol gan ddatgarboneiddio a digideiddio. Mae cwmni ABP yn gweld cyfleoedd i'w borthladdoedd, tir a seilwaith i ddatgarboneiddio cynhyrchu ynni, mewn gweithgynhyrchu a logisteg tra hefyd yn cynnig cyfle i greu amgylcheddau twf i gymunedau, a busnesau ar draws ystod eang o ddefnydd tir.

**10.59** Mae'n bwysig cydnabod dros gyfnod y cynllun bod defnyddiau nad ydynt ddefnyddiau porthladd yn bosibl mewn rhai lleoliadau ym Mhorthladd Caerdydd, gyda thir ar gael i angori buddsoddiadau newydd yn y cymunedau lleol. Yn ogystal â defnyddiau diwydiannol a logistaidd, dylid ystyried datblygiad defnydd cymysg eraill yn gadarnhaol, lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) cynhyrchu ynni preswyl, hamdden a gwyrdd. Bydd caniatáu cyflawni defnyddiau ehangach i gynnwys defnyddiau cyflogaeth a chynhyrchu swyddi ehangach ar dir y porthladd, nid dim ond defnydd sy'n gysylltiedig â'r porthladd, yn helpu i harneisio arloesedd. Fodd bynnag, dylai gweithrediad y porthladd a'r defnyddiau ategol gael blaenoriaeth a bydd angen uwchgynllunio unrhyw gynlluniau preswyl defnydd cymysg yn briodol i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnydd gweithredol y porthladd nac ar feddianwyr y datblygiad preswyl yn y dyfodol.

**10.60** Mae'r safle yn destun gorsaf sydd wedi ei chynllunio ar gyfer Metro De Cymru, gan fanteisio ar seilwaith y rheilffordd bresennol sy'n gwasanaethu'r porthladd. Mae hyn yn cynnig potensial sylweddol yn y dyfodol ar gyfer teithio cynaliadwy nôl a blaen i'r safle.

**10.61** Bydd angen i gynigion yn y dyfodol ystyried SoDdGA/ACA/AGA ABER AFON Hafren a'r safle Ramsar, a lle maent yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle ryngwladol, bydd angen cynnal asesiad priodol o'r cynnig.



## PS9 TWRISTIAETH

**Bydd datblygiadau twristiaeth gynaliadwy priodol i adeiladu ar rôl Caerdydd fel Prifddinas a chyrchfan dwristaidd, celfyddydol, diwylliannol a chwaraeon o bwys yn cael eu cefnogi a'u hyrwyddo lle mae cynigion yn cwrdd â holl bolisïau perthnasol eraill y CDLl.**

**Bydd datblygiadau twristiaeth sy'n gysylltiedig â mentrau adfywio yn cael eu hyrwyddo gan gynnwys:**

- **Arena Dan Do newydd 17,000 sedd ym Mae Caerdydd.**
- **Ailddatblygu Metro Canolog a'r Cei Canolog.**
- **Ailddatblygu Cwr y Gamlas, gan gynnwys ailagor y gamlas a chreu mannau cyhoeddus a masnachol newydd ar Ffordd Churchill.**
- **Felodrom newydd fel rhan o gam datblygu newydd yn y Pentref Chwaraeon.**

**10.62** Mae Cymru'r Dyfodol yn pwysleisio pwysigrwydd twristiaeth fel rhan o'r economi sylfaenol, sy'n cael ei hystyried yn 'rhan annatod o lesiant lleoedd, cymunedau a phobl ac sy'n diwallu anghenion beunyddiol pobl. Wrth wneud cyfraniad pwysig i'r economi, mae cysylltiad cadarnhaol rhwng twristiaeth a lles corfforol a meddyliol cymunedau. Mae hyn wedi'i alluogi'n arbennig trwy fathau gweithredol, gwyrdd a diwylliannol o dwristiaeth.

**10.63** Mae'r CDLl Newydd yn cydnabod arwyddocâd amlweddog twristiaeth, tra'n gwerthfawrogi pa mor ganolog yw'r diwydiant twristiaeth i economi Caerdydd.

**10.64** Mae gan dwristiaeth y potensial i gynyddu gweithgarwch economaidd, cynorthwyo adfywio a chadwraeth, a chynyddu iechyd a lles cyffredinol. Gall hefyd fod rhai effeithiau negyddol i dwristiaeth, o ganlyniad i bwysau ymwelwyr, o ran tagfeydd traffig, niwed i amgylcheddau naturiol sensitif (er enghraifft mewn ardaloedd arfordirol heb eu datblygu ac ardaloedd gwarchodedig), ac i gymunedau lleol. Nod polisïau yn y CDLl Newydd yw cyfeirio datblygiad twristiaeth i leoliadau er mwyn osgoi effeithiau o'r fath neu geisio rheoli datblygiad i leihau effeithiau negyddol.

**10.65** Mae twristiaeth yn rhan allweddol o economi Cymru a Chaerdydd. Yn 2021 roedd yr economi ymwelwyr werth £728 miliwn i economi Caerdydd yn dod o 0.98 miliwn o dripiau dros nos a rhyw 8.88 miliwn o ymwelwyr dydd. Yn 2021 cefnogodd twristiaeth dros 7,000 o swyddi llawn amser uniongyrchol yn y ddinas.

## PS10: CYNNAL CYFLENWAD O FWYNAU

**Bydd Caerdydd yn cynnal cyflenwad cyson a digonol o fwynau ac yn cyfrannu at gyflenwadau agregau rhanbarthol trwy:**

i. **Hyrwyddo a chefnogi'r defnydd effeithlon o fwynau a defnyddio dewisiadau amgen i fwynau sy'n digwydd yn naturiol gan gynnwys ailddefnyddio agregau eilaidd;**

ii. **Diogelu gwarchodfeydd mwynau presennol a diogelu adnoddau posibl o galchfaen a thywod a graean rhag datblygiadau a fyddai'n atal eu hechdynnu yn y dyfodol;**

iii. **Cynnal banc tir man lleiaf o 10 mlynedd o gronfeydd wrth gefn o agregau creigiau a ganiateir yn unol â chanllawiau cenedlaethol;**

iv. **Cefnogi ceisiadau priodol ar gyfer echdynnu tywod a graean;**

v. **Diogelu glanfeydd rhag datblygiadau a fyddai'n atal eu defnydd ar gyfer glanio tywod a graean morol a garthwyd; a**

vi **Sicrhau bod y safle yn cael ei adfer i gyflwr sy'n addas ar gyfer ôl-ddefnydd priodol a gefnogir, lle bo'n berthnasol, gan gynigion ôl-ofal digonol.**

**10.66** Mae mwynau yn adnodd gwerthfawr ond y mae pen draw iddo. Mae cyflenwad digonol a chyson o fwynau yn hanfodol i'r economi genedlaethol, ranbarthol a lleol ac mae manteisio arnynt yn gwneud cyfraniad sylweddol i'n ffyniant economaidd a'n hansawdd bywyd. Caerdydd yw un o'r cynhyrchwyr a'r defnyddwyr mwyaf ar fwynau yn y rhanbarth ac mae'r mwynau hynny a weithiwyd yng Nghaerdydd ar hyn o bryd yn darparu'r deunyddiau crai hanfodol ar gyfer ein hadeiladau, ein seilwaith a'n gwaith cynnal a chadw. Mae mwynau naturiol yng Nghaerdydd yn cynnwys creigiau caled wedi'u cloddio (calchfaen carbonifferaidd a dolomit) a thywod wedi'i garthu o'r môr a'i lanio yn Nociau Caerdydd.

**10.67** Mae cyfartaleddau cynhyrchu cerrig mâl ar oddeutu 1 miliwn tunnell (mt) y flwyddyn, sy'n debyg yn fras i gyfradd y defnydd yn y Sir. Yn ogystal, mae tua 0.3mt o dywod carthu o'r môr yn glanio yn Nociau Caerdydd bob blwyddyn. Defnyddir y rhan fwyaf o gynhyrchu mwynau naturiol yn y diwydiant adeiladu fel agregau cerrig mâl. Defnyddir deunyddiau eilaidd, fel gwastraff adeiladu a dymchwel hefyd yn lle agregau naturiol. Mae Caerdydd hefyd yn ffynhonnell bwysig o galchfaen dolomitig ac â phurdeb uchel at ddefnydd diwydiannol yn y broses gwneud dur lleol.

**10.68** Mae'r Polisi hwn yn cydnabod bod Caerdydd yn ddarparwr mwynau rhanbarthol pwysig ac mae'n darparu ar gyfer parhad ei chyfraniad presennol i ateb y galw rhanbarthol. Nododd 2il Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol (Medi 2020) a gynhyrchwyd gan Weithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd a De Cymru y dylai Caerdydd wneud darpariaeth ar gyfer 1.411 miliwn tunnell o agregau cerrig mâl bob blwyddyn. Gan ystyried y banc tir presennol, mae diffyg o 7.475 mt. y dylid ei gyrraedd erbyn 2041. Mae cais cyfredol yn debygol o ddarparu 4 mt.

**10.69** Mae'r Polisi yn hyrwyddo'r defnydd cynyddol o ddewisiadau amgen i fwynau sydd i'w cael yn naturiol. Mae ailddefnyddio neu ailgylchu deunydd adeiladu a dymchwel a gwastraff diwydiannol nid yn unig yn lleihau faint o wastraff a gynhyrchir ond hefyd yn cadw adnoddau mwynau naturiol prin nad ydynt yn adnewyddadwy ac yn lleihau difrod amgylcheddol.

**10.70** Fodd bynnag, gan ganiatáu gwelliannau mewn ailgylchu ac ailddefnyddio, bydd angen deunyddiau sylfaenol o hyd. Cydnabyddir mai dim ond dros amserlenni daearegol y gellir ailgyflenwi adnoddau mwynau naturiol a bod angen eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Gan mai dim ond lle maent yn bodoli y gellir gweithio mwynau, mae'n bwysig eu hamddiffyn rhag datblygiad amhriodol a allai mewn gwirionedd eu gwneud yn ddiffrwyth fel lleoliadau. Mae'r Polisi yn atal datblygiad amhriodol ar gronfeydd ac adnoddau mwynau eu hunain ac yn caniatáu creu parthau clustogi lle bydd datblygiadau sensitif yn cael eu hatal.



# 2. Tecach

### PS11: DARPARU CYMDOGAETHAU CYNALIADWY, CYDLYNIANT CYMDEITHASOL A THAI FFORDDIADWY

**Er mwyn sicrhau cymunedau byw, effeithlon, cytbwys a chydlynol, gyda gwell ansawdd bywyd a mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a thai fforddiadwy, bydd creu cymdogaethau cynaliadwy yn cael eu hyrwyddo a'u gwella. Cyflawnir hyn drwy:**

i. **Ddarparu ystod amrywiol o ddeiliadaethau, mathau a lleoliadau anheddau sy'n diwallu'r ystod lawn o anghenion tai, yn enwedig llety fforddiadwy, llety sy'n diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio, ac unedau teuluol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc. Bydd darpariaeth hefyd yn cael ei gwneud ar gyfer anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr;**

ii **Cefnogi hyfywedd, dichonoldeb ac apêl Canolfannau Ardal a Lleol presennol a'u hadfywiad, gan gynnwys datblygiadau manwerthu a masnachol eraill a thai ar raddfa briodol;**

iii. **Annog darparu amrywiaeth lawn o gyfleusterau cymdeithasol, iechyd, hamdden ac addysg a seilwaith cymunedol ar gyfer cymunedau presennol a chymunedau newydd sy'n hygyrch i bawb drwy gerdded a beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus;**

iv. **Cefnogi adfywiad cymunedau amddifad o fewn y ddinas a sicrhau'r buddion mwyaf posibl y gall cymunedau newydd eu rhoi i gymunedau cyfagos neu amgylchynol;**

v. **Annog gwella cymunedau drwy fynediad cydradd gwell at wasanaethau i bawb, darparu cyfleusterau sy'n cefnogi'r Gymraeg, hyrwyddo amrywiaeth diwylliannol ac ehangach i bob grwp mewn cymdeithas, a chreu lleoedd sy'n annog rhyngweithio a chydlyniad cymdeithasol;**

vi. **Dylunio i atal troseddu a chreu cymunedau sy'n fwy diogel ac yn teimlo'n fwy diogel; a**

vii. **Sefydlu rheolaethau llym ar gyfer is-rannu cartrefi sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys addasiadau i fflatiau a Thai Amlfeddiannaeth.**

**10.71** Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru rhan allweddol o gynnydd llwyddiannus y ddinas fydd datblygu cymdogaethau cynaliadwy, sicrhau cymunedau cryf a chydlynol, mynd i'r afael ag amddifadedd, lleihau anghydraddoldebau, a gwella ansawdd bywyd i bawb. Wrth gyflawni cymunedau cynaliadwy, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau ystod o feintiau, mathau a fforddiadwyedd o ran anheddau a hynny o ran tai marchnad a thai fforddiadwy er mwyn diwallu'r anghenion a nodir (gan gynnwys tai cymorth, tai gwarchod ac anghenion arbennig eraill lle bo'n briodol), mewn cymdogaethau diogel. Yng Nghaerdydd, yn unol â thueddiadau cenedlaethol, mae maint cyfartalog aelwydydd wedi bod yn lleihau ac yn gyffredinol mae hyn wedi'i adlewyrchu mewn cyfran gynyddol o fflatiau 1 a 2 ystafell wely mewn cynlluniau gyda chaniatâd preswyl.

**10.72** WEr bod cynnig fflatiau yn darparu ar gyfer y rhai sy'n chwilio am unedau llety llai eu maint, a gall hyn ryddhau unedau mwy eraill o blith y tai presennol, bydd angen darparu amrywiaeth o fathau a meintiau annedd o hyd ar safleoedd sy'n dod ar gael yn ystod cyfnod y Cynllun. Er y gall fflatiau fod yn briodol ar rai safleoedd, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau, yn enwedig mewn cynlluniau mwy eu maint, y darperir amrywiaeth o ran fforddiadwyedd a mathau o anheddau.

**10.73** Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol drafft ar gyfer Caerdydd (sy'n aros am broses gymeradwyo Llywodraeth Cymru) yn amcangyfrif bod yr angen am dai fforddiadwy net ychwanegol blynyddol cyfartalog yn 1,090 y flwyddyn dros gyfnod y cynllun 15 mlynedd hyd at 2036. Mae'r amcangyfrif hwn wedi'i rannu rhwng unedau rhent cymdeithasol ar 792 y flwyddyn a 298 y flwyddyn ar rent canolradd / Perchentyaeth Cost Isel. Mae cyflawni safleoedd drwy'r system gynllunio ond yn un o blith nifer o ffyrdd i sicrhau cyflenwad o dai fforddiadwy.

**10.74** Bydd hefyd yn bwysig rheoli effeithiau crynodiadau mawr o Dai Amlfeddiannaeth ar gymunedau lleol a, lle y bo'n briodol, cynigir cyflwyno rheolaethau llym ar Dai Amlfeddiannaeth, gan gynnwys trosi fflatiau. Caiff yr ymagwedd a gaiff ei fabwysiadu ei lywio gan dystiolaeth o niwed a achosir gan grynodiadau o'r fath a'r ymagweddau a fabwysiedir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill ledled y Deyrnas Gyfunol.

**10.75** Mae'r Cynllun hefyd yn cefnogi hyfywedd ac apêl Canolfannau Ardal a Lleol sy'n rhan bwysig o hierarchaeth fanwerthu Caerdydd ac o'i gwead cymdeithasol, economaidd a ffisegol. Yn ogystal â'u prif swyddogaeth yn darparu cyfleusterau siopa lleol, maent hefyd yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau hygyrch, cyfleusterau a chyflogaeth. Nod y Polisi hwn yw cefnogi cadw a darparu cyfleusterau siopa lleol, sy'n parhau i fod yn brif rôl i'r canolfannau ac yn sail i'w bywiogrwydd, eu hapêl a'u hyfywedd. Mae cyfleusterau o'r fath hefyd ar gael i'r gymuned leol trwy gyfrwng trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio a thrwy hynny yn cefnogi'r amcanion trafnidiaeth gynaliadwy a nodir yn y Cynllun. At hynny, mae'r Polisi hefyd yn ceisio annog buddsoddiad ac adnewyddu ffabrig ffisegol y canolfannau.

**10.76** Mae darparu amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol, iechyd, crefyddol ac addysgol sy'n hygyrch i gynifer o bobl â phosibl yn ofyniad hanfodol er mwyn sicrhau cymunedau cynaliadwy. Mae cyfleusterau o'r fath yn gyflogwyr lleol sylweddol a gallant gyfrannu tuag at adfywio ardaloedd lleol. Yn ogystal, mae'r gwasanaethau hyn yn hanfodol i gynnal a gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd.

**10.77** Mae'r ymagwedd uwchgynllunio sydd wedi'i fabwysiadu i roi fframwaith ar gyfer datblygu safleoedd strategol yn cydnabod yn llawn y manteision posibl y gall datblygiadau newydd eu cynnig i ardaloedd cyfagos. Gellir manteisio ar gyfleoedd i gyflawni nodau'r Polisi hwn drwy gael datblygiadau newydd yn gwella ansawdd ac ystod y ddarpariaeth bresennol o amrywiaeth o gyfleusterau a gwasanaethau.

**10.78** Er mwyn cefnogi adfywio cymunedau o amddifadedd ymhellach yn y ddinas, bydd y CDLl yn cefnogi gweithredu rhaglen Cynlluniau Adnewyddu Cymdogaethau'r Cyngor, sy'n ceisio cau'r bwlch rhwng y cymdogaethau â'r amddifadedd mwyaf a'r ddinas yn ei chyfanrwydd.



**10.79** Er mwyn sicrhau cymunedau cynaliadwy a chydnabod ymrwymiad Caerdydd i wneud Caerdydd yn Ddinas sy'n Dda i Blant ac yn Ddinas sy'n Dda i Bobl Hŷn, mae'n bwysig bod y CDLl yn helpu i hyrwyddo diwylliant lle mae amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi a chyfle cyfartal yn realiti. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gyfuniad o bolisïau o fewn y Cynllun, yn enwedig y rhai sy'n creu lleoedd sy'n annog rhyngweithio a chydlyniant cymdeithasol.

## PS12: SICRHAU IECHYD A LLES A GWYTNWCH

**Bydd Caerdydd yn cael ei gwneud yn lle iachach i fyw ac yn ceisio lleihau anghydraddoldebau iechyd trwy greu amgylcheddau hygyrch ac iach, annog dulliau byw iach, mynd i'r afael â ffactorau cymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd, creu cyfleusterau gofal iechyd hygyrch a chefnogi'r adferiad wedi'r pandemig. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gefnogi datblygiadau sy'n mabwysiadu ymagwedd creu lleoedd, gan gynnwys darparu ar gyfer teithio llesol, mannau cymunedol, ystod o dai yn ôl angen y boblogaeth, mannau gwyrdd a glas hygyrch y gellir eu defnyddio, a mannau tyfu bwyd fel rhandiroedd.**

**10.80** Mae'r Polisi hwn yn cyd-fynd â'r nod yn Polisi Cynllunio Cymru i 'creu lleoedd cynaliadwy sy'n ddeniadol, cymdeithasol, hygyrch, gweithredol, diogel, croesawgar, iach a chyfeillgar' (Polisi Cynllunio Cymru Para. 2.3) drwy sicrhau bod iechyd a llesiant yn cael ei ystyried mewn datblygiadau newydd. Mae hefyd yn cynorthwyo i gyflawni nifer o egwyddorion cynllunio allweddol Polisi Cynllunio Cymru, gan gynnwys hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach a chreu a chynnal cymunedau. Mae effaith datblygu ar iechyd pobl yn brif elfen ar ddatblygu cynaliadwy a bydd ei ystyried yn codi unrhyw faterion o bwys y mae angen eu hystyried."

**10.81** Mae gweithredu'r polisi hwn yn cefnogi amcanion Cynllun Llesiant Lleol Caerdydd 2023-2028, y Cynllun Symud Mwy Bwyta'n Iach 2020-2023 (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol), strategaeth gordewdra Pwysau Iach: Cymru Iach (Llywodraeth Cymru, 2019) ac mae'n cyfrannu at gyflawni nifer o'r nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

**10.82** Yn gyffredinol, mae'r polisïau a'r canllawiau hyn yn dod i'r casgliad bod yr amgylchedd adeiledig a naturiol ynghyd ag ymddygiadau ffordd o fyw yn cyfrannu at wella iechyd. Mae'r mesurau allweddol i wella iechyd y boblogaeth yn cynnwys darparu a chynnal:

- Cyfleoedd teithio llesol fel cerdded a beicio;
- Cymdogaethau sydd â mynediad da i gyfleusterau, addysg a manwerthu lleol;
- Mannau gydag ansawdd aer da a gostyngiad mewn llygryddion niweidiol;
- Mannau i gymunedau gysylltu;
- Tai diogel, priodol, o ansawdd sy'n galluogi pobl i fyw yn eu cartrefi am fwy o amser;
- Mynediad i fannau agored wedi eu cynnal yn dda ar gyfer gweithgarwch corfforol a thyfu bwyd; a
- Mynediad i gyfleusterau gofal iechyd.

**10.83** Bydd mesurau o'r fath yn helpu i:

- Sicrhau a chynnal pwysau iach;
- Lleihau'r risg o afiechyd;
- Lleihau salwch cronig;
- Gwella a gwarchod iechyd meddwl.

### PS13: DIOGELU A GWELLA TREFTADAETH A DIWYLLIANT ADEILEDIG

**Caiff asedau treftadaeth nodedig Caerdydd eu gwarchod, eu rheoli a'u gwella, yn benodol, olion archeolegol a chymeriad a lleoliad ei Henebion Cofrestredig; ei Hadeiladau Rhestredig; Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig; Ardaloedd Cadwraeth; Adeiladau a Restrir yn Lleol a nodweddion eraill o ddiddordeb lleol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol i hynodrwydd gweledol a diwylliannol y ddinas.**

**10.84** Mae'r Polisi hwn yn cynnig amddiffyniad polisi strategol i amgylchedd hanesyddol Caerdydd fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth a Pholisi Cynllunio Cymru. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd â phen draw iddo, yn adnodd a rennir na ellir ei adnewyddu, sy'n cyfoethogi bywydau pobl ac ymddangosiad gweledol y ddinas. Mae'n adlewyrchu amrywiaeth a diwylliant y cymunedau sydd wedi ffurfio dros amser, yn dystiolaeth o orffennol Caerdydd ac yn helpu i ddiffinio hunaniaeth a chymeriad y ddinas heddiw. Gall dealltwriaeth o arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol y ddinas gynnig cyd-destun ar gyfer rheoli newid ac mae'n creu cefnlen ar gyfer arloesi wrth ddylunio datblygiadau newydd i siapio dyfodol y ddinas.

**10.85** Ar hyn o bryd mae 32 o Henebion Cofrestredig yng Nghaerdydd. Mae'r Polisi hwn yn cynnig gwarchodaeth briodol i'r henebion hyn a rhai eraill a allai gael eu rhestru dros gyfnod y Cynllun, yn ogystal ag olion archeolegol pwysig eraill a nodwyd yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Mae'r CCA Archaeoleg ac Ardaloedd Sensitif yn Archaeolegol yn rhoi arweiniad pellach, gan ganolbwyntio'n benodol ar bedair ardal o'r ddinas lle cofnodwyd darganfyddiadau o bwys.

**10.86** Ar hyn o bryd mae bron i 1,000 o adeiladau yng Nghaerdydd ar y rhestr statudol o Adeiladau o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig, a ddynodwyd gan Cadw ar ran Llywodraeth Cymru. Ynghyd â'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati uchod, mae'r Polisi hwn yn rhoi amddiffyniad priodol i'r adeiladau rhestredig statudol hyn ac eraill y gallai Cadw eu hychwanegu at y rhestr dros gyfnod y Cynllun.

**10.87** Mae gan y Cyngor hefyd Restr Leol o Adeiladau Teilwng. Mae'r Polisi hwn yn nodi'r arwyddocâd sydd i'r adeiladau rhestredig lleol hyn (ac eraill y gallai'r Cyngor eu hychwanegu at y rhestr dros gyfnod y Cynllun) wrth ffurfio cymeriad yr ardal. Mae Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol a'r canllaw cysylltiedig Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru yn nodi'r pwysau y gall eu dynodiad ei gael wrth asesu cynigion datblygu.

**10.88** Ar hyn o bryd mae 27 ardal gadwraeth yng Nghaerdydd, fel y nodwyd ar y Map Cyfyngiadau. Ynghyd â'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati uchod. Mae'r Polisi hwn yn rhoi amddiffyniad priodol i'r rhain ac ardaloedd eraill a allai gael eu dynodi gan y Cyngor dros gyfnod y Cynllun. Dylid darllen y Polisi ar y cyd â'r Arfarniad Ardal Gadwraeth mabwysiedig a baratowyd ar gyfer pob ardal. Bydd CCA Treftadaeth Adeiledig yn cael ei baratoi o fewn cyfnod y cynllun.

**10.89** Yn olaf, mae 18 safle hanesyddol ar hyn o bryd ar Gofrestr Parciau a Gerddi Hanesyddol Cadw (statudol erbyn hyn). Yn ogystal, mae Gwastadeddau Gwynllŵg (yn rhannol yng Nghaerdydd) ar restr ymgynghorol Cadw - Cofrestr Tirweddau Hanesyddol yng Nghymru. Mae'r Polisi hwn yn rhoi amddiffyniad priodol i'r parciau, gerddi a'r tirweddau hanesyddol hyn a rhai eraill y gallai Cadw eu hychwanegu at y gofrestr dros gyfnod y Cynllun.



# 3. Gwyrddach

### PS14: AMDDIFFYN LLEOLIAD Y DDINAS TRWY GYFRWNG LLETEM LAS

**Er mwyn rheoli ffurf drefol Caerdydd yn strategol ac er mwyn diogelu lleoliad yr ardal drefol, cynigir Lletem Las ar dir i'r gogledd o'r M4. Yn yr ardal hon, ni chaniateir datblygiadau a fydd yn cyfaddawdu ar natur agored y tir hwn. Caiff bioamrywiaeth gadarnhaol a mesurau lliniaru tirwedd a newid yn yr hinsawdd a mesurau rheoli a gwella hamdden anffurfiol eu hannog yn yr ardal hon er mwyn gwella rôl hirdymor yr ardal ymhellach fel adnodd naturiol allweddol a fydd o fudd i'r ddinas.**

**10.90** Ynghyd â Pholisi Allweddol PS15, mae'r Polisi hwn yn ceisio rheoli'n strategol ffurf adeiledig ardal drefol Caerdydd yn y dyfodol. Mae'r ardal ddynodedig yn ffurfio tir i'r gogledd o'r M4 yng Nghaerdydd fel y dangosir ar y Diagram Allweddol. Heb os, mae'r tir hwn yn ffurfio cefnlen werdd nodedig, amlwg ac adnabyddus i'r ddinas gan greu lleoliad strategol bwysig i'r ardal drefol. Yn gyffredinol, mae'r tir hefyd wedi'i amgylchynu'n dda gan ffin ffisegol gref Traffordd yr M4 i'r de.

**10.91** Mae Paragraff 4.81 Polisi Cynllunio Cymru yn cynnig canllaw penodol ar ystyried ceisiadau cynllunio o fewn dynodiad y Lletem Las..

### PS15: RHEOLI TWF GOFODOL DRWY FFINIAU ANEDDIADAU

**Er mwyn rheoli twf gofodol Caerdydd yn strategol, cynigir ffiniau aneddiadau. Ym mhob ardal y tu hwnt i ffiniau anheddiad diffiniedig, a elwir fel arall yn gefn gwlad, bydd rhagdybiaeth gyfatebol yn erbyn datblygu amhriodol.**

**10.92** Mae ffiniau aneddiadau yn fecanwaith allweddol ar gyfer helpu i reoli twf drwy ddiffinio'r ardal lle byddai datblygiad fel arfer yn cael ei ganiatáu, yn amodol ar ystyriaethau cynllunio perthnasol. Mae'r Polisi hwn yn ategu'r Polisi Strategol Lletem Las PS14 a nodir uchod. Bydd y polisi yn gosod rheolaeth lem ar ddatblygiad holl gefn gwlad Caerdydd y tu allan i ffiniau'r aneddiad a nodwyd. Bydd y ffiniau anheddiad hyn yn cael eu dangos ar y Map Cynigion sy'n cyd-fynd â cham nesaf y gwaith o baratoi Cynllun Adneuo y CDLl Newydd.

**10.93** Mae cefn gwlad Caerdydd yn adnodd gwerthfawr sydd â phen draw iddo ac sydd dan bwysau cynyddol o bob math o ddatblygu oherwydd ei agosrwydd i'r ardal drefol, gan gynnwys arallgyfeirio ar ffermydd a chynigion sy'n gysylltiedig â cheffylau, ac oherwydd y nifer fawr o eiddo a pharseli bach o dir gwasgaredig sydd yn nwylo gwahanol berchnogion ledled cefn gwlad. Er bod angen annog cynigion sensitif sy'n cefnogi cefn gwlad sy'n fan gweithio, mae cefn gwlad Caerdydd yn arbennig o agored i effaith gronnol datblygiadau newydd ansensitif a allai niweidio ei chymeriad a'i hymddangosiad ynghyd â 'maestrefoli' tirweddau deniadol.

## PS16: DARPARU TRAFNIDIAETH GYNALIADWY A THEITHIO LLESOL

**Bydd datblygu yng Nghaerdydd yn cael ei integreiddio â seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth er mwyn cynyddu teithio llesol. Disgwylir i ddatblygiadau helpu i:**

**i. Gyrraedd y targed ar gyfer 64% a 76% o'r holl deithiau i gael eu gwneud drwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2025 a 2030 fel y nodir ym Mhapur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd;**

**ii. Gwella llesiant trigolion Caerdydd drwy greu datblygiadau yn unol â'r nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Llwybr Newydd: Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021, Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 a Chynllun Llesiant Lleol Caerdydd;**

**iii. Lleihau'r galw am deithio a dibyniaeth ar y car;**

**iv. Galluogi a gwneud y defnydd gorau o ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy a llesol;**

**v. Integreiddio dulliau teithio;**

**vi. Darparu ar gyfer pobl sydd â gofynion mynediad a symudedd penodol;**

**vii. Gwella diogelwch i bob teithiwr;**

**viii. Gwella swyddogaeth creu lleoedd y seilwaith trafnidiaeth a bod datblygiadau newydd yn garbon niwtral.**

**ix. Cynnal a gwella effeithlonrwydd a dibynadwyedd y rhwydwaith trafnidiaeth;**

**x. Gwella ansawdd aer;**

**xi. Cefnogi symud nwyddau ar y rheilffordd neu ar ddŵr; a**

**xii. Rheoli cludo nwyddau ar y ffordd, lleihau effeithiau'r symudiadau hyn a, lle bo hynny'n bosibl, trosglwyddo nwyddau pellter hir i faniau llai neu feiciau e-gargo ar gyfer danfoniadau'r filltir olaf trwy gyfrwng canolfannau aml-foddol.**

**10.94** Fel prifddinas, mae Caerdydd yn ffocws ar gyfer cyflogaeth, manwerthu, hamdden, diwylliant a thwristiaeth. Mae gan Gaerdydd uchelgais i ddod yn ddinas beicio a theithio cynaliadwy o'r radd flaenaf gyda gwell ansawdd aer, llai o dagfeydd a gwell ardal gyhoeddus. Mae Papur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd yn gosod y targed ar gyfer 64% a 76% o'r holl deithiau i'w gwneud trwy gerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2025 a 2030. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn mewn lleoliadau sydd â gofod ffyrdd cyfyngedig, mae angen ail-flaenoriaethu gofod ffyrdd er mwyn hyrwyddo dulliau cynaliadwy o symud, cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

**10.95** Mae gan Gyngor Caerdydd, yn rhinwedd ei rôl fel Awdurdod Cynllunio a Phriffyrdd Lleol, rôl allweddol i gyflawni'r newid i'r rhwydwaith symud drwy siapio lleoedd. Er bod penderfyniadau trafnidiaeth strategol eraill sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, y diwydiant rheilffyrdd a gweithredwyr bysiau, mae gan y Cynllun Datblygu Lleol rôl bwysig wrth helpu i weithredu a chefnogi prosiectau trafnidiaeth ac egwyddorion teithio cynaliadwy. Gall gael effaith bwysig ar symud yng Nghaerdydd drwy ei bolisïau ar ddwysedd, dyluniad a lleoliad datblygiadau newydd, parcio a gofynion ar gyfer darparu seilwaith yn deillio o ddatblygiadau newydd, yn enwedig gwelliannau i deithio cynaliadwy.



**10.96** Cefnogir y twf a'r datblygiad a gynigir yn y cynllun hwn gan Bapur Gwyn Trafnidiaeth Cyngoru Caerdydd 2019 sy'n gynllun uchelgeisiol 10 mlynedd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, lleihau tagfeydd a gwella ansawdd aer ym mhrifddinas Cymru, Strategaeth Drafnidiaeth Cyngor Caerdydd

**10.97** Mae'r Papur Gwyn Trafnidiaeth yn cynnwys:

- Ehangu ar gynlluniau'r Metro i greu llwybrau a gorsafoedd tram-drenau newydd
- Cyflwyno gwasanaethau Bysus Cludiant Cyflym newydd a safleoedd Parcio a Theithio, a gwneud teithio ar fws lawer yn rhatach; ac
- Ail-flaenoriaethu ein strydoedd i roi mwy o ofod i bobl sy'n cerdded a beicio.

**10.98** TBydd hyn yn sicrhau newid sylweddol mewn dewisiadau teithio ar gyfer symudiadau amrywiol o fewn ac i mewn i Gaerdydd a manylir ymhellach ar hyn yn y polisïau trafnidiaeth yn y cynllun hwn.

**10.99** Mae'r amcanion symud penodol canlynol yn bwysig er mwyn sicrhau bod pobl yn cael dulliau effeithlon, deniadol a chynaliadwy o symud ledled Caerdydd:

- Blaenoriaethu cerdded a beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, ac ailddyrannu gofod ffyrdd yn ôl yr hierarchaeth foddol yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru;
- Cefnogi mesurau rheoli galw ychwanegol ochr yn ochr â'r mesurau presennol, a allai gynnwys cyfyngiadau traffig;
- Newid i reoli traffig, a allai gynnwys ailddyrannu gofod ffyrdd, lle byddai gofod ffyrdd yn cael ei neilltuo ar gyfer llwybrau beicio ar wahân, blaenoriaeth i fysiau a darparu llwybrau troed lletach ac ardal gyhoeddus well yn unol â Deddf Teithio Llesol Cymru a Phapur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd;
- Caniatáu treiddiad gwasanaethau ac arosfannau trafnidiaeth gyhoeddus aml ac mor agos â phosibl at ganol y ddinas, canolfannau ardal a safleoedd cyflogaeth a phreswyl newydd, yn ogystal â gwella'r cyfnewid rhwng moddau teithio; Optimeiddio capasiti canol y ddinas a chanolfannau ardal ar gyfer cerdded a beicio drwy greu rhwydwaith cynhwysfawr a dealladwy a gwell ardal gyhoeddus;
- Lleihau lefelau tagfeydd i sicrhau bod bysiau yn oedi cyn lleied â phosibl, i wella gwasanaeth i deithwyr, lleihau llygredd a dileu'r angen am amseroedd adfer amserlenni hir i ddarparu gwasanaeth dibynadwy ledled y ddinas;
- Galluogi twf yn nifer y teithwyr trafnidiaeth gyhoeddus, trwy egwyddorion gweithredol, seilwaith a cherbydau "Bysus Cludiant Cyflym (BCC) mwy effeithlon a;
- Sicrhau y gellir rheoli gwasanaethu a danfon nwyddau yn effeithlon gan ganolbwyntio'n benodol ar chwilio am ddewisiadau amgen i'r danfoniadau milltiroedd cyntaf / olaf, er enghraifft negeswyr beicio.

**10.100** Nod yr amcanion allweddol hyn yw gwella'r proffiad i bobl sy'n teithio nôl a blaen o Gaerdydd ac oddi mewn iddi. Byddai mesurau o'r fath yn arwain at ostyngiad mewn llygredd aer a sŵn, ac amgylchedd mwy cynhwysol gyda gwell diogelwch ar y ffyrdd. Bydd cynigion ar gyfer ffurfiau arloesol o deithio cynaliadwy a fyddai'n helpu i gyflawni'r amcanion hyn yn cael eu cefnogi.

**10.101** Mae dylunio cynhwysol yn ei gwneud yn ofynnol i anghenion pob person anabl gael eu hystyried o'r dechrau'n deg ar gyfer unrhyw

seilwaith trafnidiaeth a cherddwyr, gan gynnwys cynlluniau cynnal a chadw, fel nad yw arwynebau palmentydd botymog er enghraifft, a ddarperir ar gyfer pobl â nam ar eu golwg, yn creu peryglon baglu nac yn achosi anghysur gormodol i bobl â chyflyrau fel arthritis. Dylid dylunio a lleoli arosfannau bysiau, llwybrau troed, cyfleusterau beicio a pharcio mewn ffordd gynhwysol gydag anghenion pobl ag anableddau mewn golwg.

**10.102** Yn 2019 cyhoeddodd Cyngor Caerdydd Argyfwng Newid yn yr Hinsawdd. Mae'n hanfodol bod pawb yn chwarae eu rhan wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae ymchwil yn dangos bod pryder y cyhoedd dros newid yn yr hinsawdd yn uwch nag erioed. Yng Nghaerdydd, dwedodd 81.2% o'r bobl a gymerodd ran yn Arolwg Holi Caerdydd eu bod naill ai'n "bryderus iawn" neu'n "eithaf pryderus" am y newid yn yr hinsawdd. Mae'r wyddoniaeth yn glir - mae angen gweithredu fel mater o frys i leihau allyriadau carbon. Dim ond ychwanegu at ffigyrau carbon a wna'r defnydd uchel o deithiau car ag un person i mewn i Gaerdydd ac o gwmpas y ddinas. Bydd dod â gwasanaethau a nwyddau yn agosach at bobl drwy gynllun datblygu cydgysylltiedig a defnyddio'r cysyniadau dinas 20 munud a 15 munud yn lleihau'r angen i deithio yng Nghaerdydd. Bydd adeiladu rhwydwaith o ddewisiadau trafnidiaeth amgylcheddol ymwybodol sy'n annog pobl allan o'u ceir yn lleihau'r effaith y mae trafnidiaeth yn ei chael ar yr amgylchedd. Mae'r argyfwng hinsawdd yn ychwanegu brys at y penderfyniad y mae angen i ni ei wneud ynghylch dyfodol ein plant. Mae Caerdydd nid yn unig yn gweithio tuag at darged allyriadau sero-net y Deyrnas Gyfunol erbyn 2050, rydym am gyrraedd yno'n gyflymach.

**10.103** Yn dilyn ymgynghori ledled y ddinas, mae'r Strategaeth Un Blaned yn adlewyrchu blaenoriaethau rhanddeiliaid ar draws y ddinas a'n camau gweithredu i gyflawni Targed Carbon Niwtral 2030 Dinas a Chyngor Caerdydd, gan gefnogi'r uchelgais i gadw cynhesu byd-eang islaw 1.5˚C.

**10.104** Traffig ffordd hefyd yw prif achos llygredd aer. Mae effeithiau llygredd aer ar iechyd wedi eu hymchwilio a'u dogfennu'n dda. Ynghyd â'n diffyg gweithgarwch corfforol dyma yw un o broblemau iechyd mwyaf ein hoes. Mae gan Gaerdydd rai o'r lefelau llygredd Nitrogen Deuocsid (NO2) uchaf yng Nghymru. Mewn gwirionedd, mae'r lefelau yn uwch nag uchafswm cyfyngiadau'r Undeb Ewropeaidd a'r rhai cenedlaethol ar gyfer NO2 mewn rhai ardaloedd. Mae gan Gaerdydd Gynllun Aer Glân sy'n ceisio mynd i'r afael â lefelau NO2 yn y tymor byr, ond rydym am i'r aer a anadlwn yn y ddinas fod cyn laned â phosibl. Mae gwella dewisiadau teithio cynaliadwy a chynyddu nifer y teithiau a wneir trwy deithio llesol (cerdded a beicio) yn rhan allweddol o'r cynllun hwn. Mae effeithiau aer o ansawdd gwael yn amlwg, ar gyfer ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, rhagamcennir fod nifer y marwolaethau oherwydd llygredd aer hirdymor oddeutu 178-227 y flwyddyn. Gall gwella ansawdd aer a chynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ddiogelu ein hiechyd, a gall helpu i leihau'r gwariant sydd ei angen ar wasanaethau iechyd hefyd.

**10.105** Creu Cymunedau Diogel ac Iach Mae gan drafnidiaeth rôl fawr i'w chwarae wrth wneud lle rydym yn byw yn fwy diogel, hapus a deniadol. Mae'n hawdd anghofio mai prif achos marwolaethau plant rhwng 5 a 14 oed yw cael eu taro gan gerbyd. Mae ofn traffig sy'n symud a'r ceir sy'n tagu ein strydoedd wedi atal plant rhag chwarae y tu allan ac wedi cyfyngu ar eu hannibyniaeth trwy lawer o'n dinas. Mae gwaith ymchwil diweddar yn dangos bod dau draean o yrrwyr yn teimlo nad yw hi'n aml yn ddiogel i blant gerdded neu feicio oherwydd y traffig yn



ninasoedd y Deyrnas Gyfunol. Mae strydoedd sy'n ddiogel i blant yn strydoedd sy'n dda i bob un ohonom. Trwy greu rhwydwaith trafnidiaeth sy'n canolbwyntio ar bobl, yn ogystal â cherbydau, bydd ein strydoedd, ein cymdogaethau a'n gofodau cyhoeddus yn fwy diogel, glân a thawel. Yn creu lleoedd lle mae pobl yn dewis treulio amser ynddynt gyda theulu a ffrindiau. Mae bod â chymunedau diogel a mannau cyhoeddus deniadol hefyd yn hanfodol os ydym eisiau hyrwyddo teithio llesol (cerdded a beicio). Nid yn unig am mai dyma yw'r ffordd wyrddaf o deithio - gan greu llai o lygredd a helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd - ond mae hefyd yn helpu i'n cadw ni'n heini wrth arbed arian i ni hefyd.

**10.106** Mae gan ddatblygiadau newydd rôl hanfodol wrth ddylunio mannau diogel ar gyfer pob modd o deithio. Mae deddfwriaeth y Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022 yn golygu y bydd terfynau cyflymder ar y rhan fwyaf o ffyrdd cyfyngedig yn lleihau o 30mya i 20mya o fis Medi 2023. Mae hwn yn gam allweddol i leihau nifer y gwrthdrawiadau, i wneud strydoedd yn fwy diogel a helpu i wella ein hiechyd a'n llesiant.

## PS17: SICRHAU SEILWAITH TRAFNIDIAETH NEWYDD

**Bydd datblygiadau sy'n cefnogi cyflawni'r prosiectau seilwaith newydd canlynol yng Nghaerdydd yn cael eu cefnogi:**

- **Prosiect bws cyflym rhanbarthol - Gwasanaeth bws uniongyrchol newydd gyda gorsafoedd trafnidiaeth a chyfnewidfeydd yn cysylltu prif drefi ac ardaloedd rhanbarthol - gan gynnwys y Maerdy, Coed Duon a Phontypridd - â Chaerdydd erbyn 2024.**
- **Coridor y Gogledd-orllewin – Gallai hwn gynnwys Bysus Cludiant Cyflym a thram-drenau i gysylltu cymunedau Llantrisant, Tonysguboriau â Chaerdydd. Mae hyn yn cynnwys cyfnewidfa drafnidiaeth newydd sy'n cynnwys parcio a theithio yn C33 yr M4. Mae cyfleoedd i greu cyfnewidfa ar gyfer C34, ynghyd â'r posibilrwydd o ffordd gyswllt newydd a fyddai'n cefnogi cyflawni mesurau bysiau â blaenoriaeth hefyd dan ystyriaeth.**
- **Coridorau'r Gogledd a'r De-ddwyrain - Mae opsiynau'n cael eu hystyried i wella cysylltiadau trafnidiaeth, gan gynnwys seilwaith cerdded a beicio.**
- **Coridor y De-orllewin - Mae nifer o opsiynau'n cael eu hystyried i leihau tagfeydd rhwng Penarth a Chaerdydd. Mae'r rhain yn cynnwys cynllun beiciau trydan peilot, cyfleusterau cyfnewidfa yng ngorsaf drenau Cogan; ymchwilio i ddichonolrwydd cyfleusterau cerdded a beicio o amgylch pentir Penarth, a chyswllt bws Morglawdd Caerdydd rhwng Penarth a Chaerdydd.**
- **Coridor y Gogledd - Mae Coridor CLYFAR yn defnyddio data amser real helaeth i reoli symudiad traffig, trafnidiaeth gyhoeddus, cerddwyr a beicwyr i mewn i'r ddinas.**

**10.107** Gwelwyd cryn lwyddiant wrth gyflawni gwelliannau trafnidiaeth mawr yng Nghaerdydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yr uwchraddiad diweddar i Stryd y Castell, datblygu Beicffordd 1 a Grangetown Werddach. Mae'r cynlluniau hyn, yn ogystal â gwella opsiynau teithio cynaliadwy a diogelwch o amgylch y ddinas, hefyd wedi creu gwelliannau mawr i'r amgylchedd a'r treflun lleol. Fodd bynnag, gyda thwf parhaus Caerdydd, mae angen mwy o fuddsoddiad i sicrhau bod anghenion y seilwaith trafnidiaeth yn cael eu diwallu.

### Prosiect Bws Cyflym Rhanbarthol

10.108 Mae Caerdydd yn cynnig gweithredu gwasanaeth bws cyflym, uniongyrchol newydd a fydd yn cysylltu prif drefi ac ardaloedd rhanbarthol - gan gynnwys y Maerdy, Coed Duon a Phontypridd - â Chaerdydd erbyn 2024. Bydd y rhain yn wasanaethau bws fforddiadwy a rheolaidd ar fysus modern gydag USB a Wi-Fi. Byddai newid rhwng dulliau teithio a gwasanaethau gwahanol yn hawdd mewn gorsafoedd a chyfnewidfeydd trafnidiaeth.

### Coridor y Gogledd-orllewin

**10.109** Gwell cysylltiadau o Gaerdydd â chymunedau Llantrisant, Tonysguboriau a Chaerdydd. Gallai hyn gynnwys Bysus Cludiant Cyflym a Thram-drenau. Mae gwaith wedi cychwyn er mwyn creu cyfnewidfa drafnidiaeth newydd yn cynnwys parcio a theithio yng nghyffordd 33 yr M4 a fydd yn rhoi dewisiadau trafnidiaeth i bobl yn y porth coridor allweddol hwn. Rydym yn ymchwilio i bosibiliadau cyfnewidfa ar gyfer C34, ynghyd â'r posibilrwydd o gysylltiad ffordd newydd a fyddai'n cefnogi darparu mesurau bysiau â blaenoriaeth.

### Coridor y Gogledd

**10.110** Mae Coridor CLYFAR yn defnyddio data amser real helaeth i reoli symudiad traffig, trafnidiaeth gyhoeddus, cerddwyr a beicwyr i'r ddinas mewn modd clyfar. Bydd hefyd yn dylanwadu ar ymddygiad teithio trwy helpu pobl i wneud penderfyniadau teithio gwell, gan gefnogi symud i foddau teithio gwahanol. Byddai hyn yn helpu i:

- Reoli coridorau strategol yn well er mwyn rheoli ciwio a lliniaru effeithiau ailddyrannu gofod ffyrdd i ddulliau teithio cynaliadwy;
- Gwella ansawdd aer;
- Cynnig gwybodaeth teithio amser real i annog teithio cynaliadwy;
- Blaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus Mae cynllun peilot yn cael ei ddatblygu ar gyfer rhan bwysig o goridor yr A470 rhwng Coryton a Gabalfa. Os yw'n llwyddiannus, gellid cyflwyno'r un egwyddorion a'u gweithredu ar goridorau eraill. Mae opsiynau ar gyfer Coridorau'r Gogledd a'r De-ddwyrain yn cael eu hystyried er mwyn gwella'r cysylltiadau trafnidiaeth - llwybrau cerdded a beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a gwelliannau i'r briffordd - yn ne-ddwyrain y ddinas a fyddai o fudd i rai o'n cymunedau lleiaf cysylltiedig. Gallai Bysus Cludiant Cyflym wella cysylltiadau rhwng Caerdydd a Chasnewydd.

**10.111** Bydd y cynlluniau yn cefnogi twf yn ogystal â rhoi hwb i'r economi ranbarthol trwy:

- Ddarparu capasiti trafnidiaeth newydd a lleihau amseroedd teithio;
- Gwella cysylltedd ar draws y rhanbarth i roi gwell mynediad i ystod ehangach o swyddi;
- Cefnogi twf clystyrau busnes yn y dinasoedd mwy;
- Gwella llesiant a mynediad at gyfleoedd.

### Coridor y De-orllewin

**10.112** Mae coridor Penarth - Caerdydd yn hanfodol ar gyfer dod o Fro Morgannwg ond mae'n dioddef lefelau uchel o dagfeydd a gwasanaethau trafnidiaeth annibynadwy. Mae nifer o opsiynau ar gyfer gwella darpariaeth teithio llesol a chynaliadwy yn cael eu datblygu a'u hadolygu, gan gynnwys cynllun peilot beics trydan, cyfleusterau cyfnewidfa yng ngorsaf



Cogan, Cysylltiad Pentir Penarth ar gyfer teithio llesol a chysylltiad bws Morglawdd Caerdydd i gynnig gwasanaethau

## PS18: SICRHAU GWYTNWCH O RAN YR HINSAWDD, DAD-GARBONEIDDIO AC YNNI ADNEWYDDADWY MEWN DATBLYGIADAU NEWYDD

**Er mwyn lliniaru yn erbyn achosion newid yn yr hinsawdd ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd, dylai cynigion datblygu ddangos sut y maent wedi gweithio tuag at:**

**i. Leihau allyriadau carbon ac atal datblygu sy'n gosod baich datgarboneiddio ychwanegol ar y ddinas;**

**ii. Diogelu a chynyddu sinciau carbon trwy warchod priddoedd a llystyfiant a chynyddu plannu coed;**

**iii. Addasu i oblygiadau newid yn yr hinsawdd ar lefel dylunio manwl a strategol;**

**iv. Hyrwyddo effeithlonrwydd ynni a chynyddu'r cyflenwad o ynni adnewyddadwy; a**

**v. Osgoi ardaloedd sy'n agored i berygl llifogydd yn y lle cyntaf yn unol â'r dull dilyniannol a nodir mewn canllawiau cenedlaethol; ac**

**vi. Atal datblygu sy'n cynyddu'r perygl o lifogydd.**

**10.113** Un o swyddogaethau craidd y Cynllun yw sicrhau bod yr holl ddatblygiadau yn y ddinas yn gynaliadwy, gan ystyried goblygiadau lleihau'r defnydd ar adnoddau a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Mae'r Polisi hwn yn cynnig fframwaith ar gyfer twf cynaliadwy trwy hyrwyddo datblygiad sy'n lliniaru achosion newid yn yr hinsawdd ac sy'n gallu addasu i'w effeithiau tebygol. Mae'r dull hirdymor hwn yn hanfodol os yw Caerdydd am wireddu'r amcanion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a nodir yn y Weledigaeth.

**10.114** Yn y lle cyntaf, bydd gostyngiad mewn allyriadau carbon yn cael ei gyflawni drwy reoli'r galw am ynni sy'n gysylltiedig â datblygu trwy wneud y mwyaf o effeithlonrwydd ynni. Yn ail, dylid ymgorffori ffynonellau ynni cynaliadwy, heb ddibynnu ar danwydd ffosil.

**10.115** Mae sinciau carbon yn fodd i wrthbwyso allyriadau carbon drwy ddulliau naturiol. Mae coed a phriddoedd yn gronfeydd carbon sylweddol, yn atafaelu carbon atmosfferig, ac yn cyfrannu'n sylweddol at briddoedd, sy'n cronni carbon yn gynt dan gysgod y coed na than ffurfiau eraill o lystyfiant. Mae'r cyflenwad hwn o garbon fel arfer yn cael ei allyrru fel nwy tŷ gwydr os caiff coed eu torri neu eu difrodi, neu os caiff pridd ei echdynnu, ei orchuddio neu ei symud (drwy gywasgu neu halogi) yn ystod y broses adeiladu.

**10.116** Dylid cadw a gwarchod coed, cyhyd â bod hynny'n ymarferol, a dylai tir a gedwir fel pridd llystyfiant gweithredol fod yn agored i ddeunydd organig ddisgyn arno, gyda datblygwyr yn darparu coed a llwyni newydd lle bo'n bosibl. Pan na all coed a llwyni gael eu hamgylchynu gan bridd agored, ni ddylid defnyddio arwynebau caled oni bai bod angen â blaenoriaeth i wneud hynny, a dylid cadw ardaloedd nad oes eu hangen at ddibenion cerddwyr neu gerbydau ar gyfer tirwedd feddal. Mae mannau agored, coed a phriddoedd Caerdydd yn chwarae rhan hollbwysig wrth liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ar lefel leol. Mae priddoedd agored â llystyfiant yn amsugno glaw a dŵr ffo.

**10.117** Bydd addasu i oblygiadau'r newid yn yr hinsawdd yn gofyn am adeiladau sy'n gallu ymdopi â'r ystodau tymheredd uwch tebygol, llifogydd amlach a mwy difrifol a mwy o dywydd eithafol. Dylid cynllunio adeiladau a seilwaith cysylltiedig i fod yn hyblyg nid yn unig i newid yn yr hinsawdd ond hefyd i ddarparu ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau dros eu hoes yn hytrach na bod yn addas ar gyfer un defnydd yn unig. Bydd y dirwedd yn fater hanfodol gyda choed yn cynnig amddiffyniad trwy gysgodi ac oeri gweithredol. Bydd angen yr effaith oeri hwn yn enwedig yng nghanol y ddinas a Chanolfannau Ardal, a lle mae plant ifanc, pobl hŷn, a phobl â namau symudedd yn ymgynnull.

**10.118** Bydd y Cyngor yn mynnu safonau uchel o effeithlonrwydd ynni mewn datblygiadau newydd. Bydd gweithredu'r Polisi hwn, sy'n annog ymgorffori cynhyrchu ynni adnewyddadwy, hefyd yn lleihau allyriadau llygryddion awyr, a thrwy hynny wrthbwyso'r cynnydd mewn allyriadau awyr sy'n deillio o weithredu polisïau eraill yn y Cynllun. Byddai hyn yn cyfrannu at osgoi effeithiau sylweddol ar Safleoedd Ewropeaidd.

**10.119** Bydd osgoi perygl llifogydd diangen yn cael ei gyflawni drwy asesu'n llym oblygiadau perygl llifogydd cynigion datblygu o fewn ardaloedd sy'n agored i lifogydd llanw neu afonol ac atal datblygu sy'n cynyddu'r risg yn annerbyniol. Yn unol â NCT15: Datblygu a Risg Llifogydd, Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad hynod agored i lifogydd mewn parth cyngor datblygu C2. Bydd datblygu ond yn cael ei ystyried mewn ardaloedd eraill sydd â risg uchel o lifogydd lle gellir dangos y gall y safle gydymffurfio â chyfiawnhad a gofynion asesu NCT15: Perygl Llifogydd (2004 - Adran 6, 7 ac Atodiad 1).

## PS19: GWARCHOD, DIGOLLEDU A GWELLA SEILWAITH GWYRDD A BIOAMRYWIAETH

**Mae seilwaith gwyrdd (i gynnwys glas ac awyrol) yn cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur i ystod o faterion amgylcheddol a chymdeithasol, megis yr argyfwng yn yr hinsawdd, yr argyfwng natur, llifogydd, llygredd aer, ynys wres drefol, iechyd y cyhoedd a lles meddyliol. Mae asedau seilwaith gwyrdd/bioamrywiaeth yn allweddol i gymeriad, gwerth ac arbenigrwydd Caerdydd a'i hymdeimlad o le. Mae asedau seilwaith gwyrdd Caerdydd yn cynnwys:**

- **i. Cefn gwlad ac arfordir sydd heb eu datblygu.**
- **ii. Safleoedd gwarchodedig statudol ac anstatudol.**
- **iii. Cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth/gwarchodedig, a'r ystod gyffredinol o rywogaethau ledled Caerdydd.**
- **iv. Nodweddion o ran tirlun, daeareg a threftadaeth sy'n cyfrannu at leoliad y ddinas.**
- **v. Rhwydweithiau hydrolegol gan gynnwys dyffrynnoedd afonydd strategol bwysig yr afonydd Elái, Taf, Nant Fawr a Rhymni, nentydd, llynnoedd a phyllau.**
- **vi. Coed, coetiroedd a gwrychoedd**
- **vii. Priddoedd.**
- **viii. Lleiniau ymylon ffyrdd, ynysoedd cylchfannau a phlannu ar hyd ffyrdd er mwyn sgrinio.**



- **ix. Llwybrau hamdden a beicio strategol a'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus.**
- **x. Ystod o reilffyrdd actif ac anweithredol, sy'n cysylltu cynefinoedd ledled y ddinas.**
- **xi. Parciau, caeau chwarae, ardaloedd chwarae gwyrdd a mannau agored.**
- **xii. Mannau tyfu gan gynnwys rhandiroedd, perllannau cymunedol a gerddi preifat.**
- **xiii. Cynefinoedd dŵr croyw megis Bae Caerdydd, Cronfeydd Dŵr Llanisien a Llys-faen, a rhwydwaith o byllau ar hyd a lled y ddinas, a**
- **xiv. Systemau rheoli dŵr wyneb integredig holistig.**

**Disgwylir i ddatblygiadau ddiogelu a gwella cyfanrwydd, hyd a lled, amrywiaeth, ansawdd a chysylltedd asedau seilwaith gwyrdd; darparu mannau gwyrdd amlswyddogaethol; darparu "Manteision Net ar gyfer Bioamrywiaeth"; a sicrhau y gellir cynnal gwydnwch ecosystemau. Ni chaniateir datblygiad sy'n peryglu cyfanrwydd asedau seilwaith gwyrdd / bioamrywiaeth, a'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd cyffredinol. Bydd angen Asesiad Seilwaith Gwyrdd ar gyfer pob cynnig datblygu sylweddol.**

**10.120** Nod y polisi yw sicrhau bod asedau seilwaith gwyrdd Caerdydd yn cael eu cynllunio a'u darparu'n strategol trwy rwydwaith seilwaith gwyrdd. Mae'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd yn bwysig er ei fwyn ei hun ac am ei gyfraniad i ansawdd bywyd yn ehangach, gan gynnwys y gwerth y mae pobl yn ei roi arno. Mae hefyd yn creu amrywiaeth o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan gynnwys lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd, gwella cynefinoedd bioamrywiaeth a chysylltedd rhywogaethau, darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer chwaraeon a hamdden, cyfrannu at iechyd a lles cymunedau a manteision gweledol i bawb.

**10.121** Mae'n bwysig ystyried ystyriaethau bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau yn gynnar wrth ystyried cynigion datblygu. Yn unol â Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau (Dyletswydd Adran 6) a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid cymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau a dylid cydbwyso'r rhain ag anghenion ehangach economaidd a chymdeithasol busnesau a chymunedau.

**10.122** Pan ganiateir datblygiad, bydd amodau cynllunio a/neu rwymedigaethau yn cael eu defnyddio i warchod neu wella'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd. Dylai datblygiadau newydd gynnwys seilwaith gwyrdd newydd a / neu well sydd o faint, math a safon briodol i sicrhau nad oes unrhyw ddarnio na cholli cysylltedd. Dylent hefyd ddangos sut y bydd y datblygiad yn cyflawni budd bioamrywiaeth net ac yn hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.

**10.122.** Byddai gweithredu polisïau sydd wedi'u cynllunio i ddarparu a gwarchod mannau agored cyhoeddus ledled Caerdydd hefyd yn gwrthbwyso unrhyw gynnydd mewn pwysau hamdden ar ACA Coed Ffawydd Caerdydd, a thrwy hynny helpu i osgoi effaith sylweddol debygol ar y safle hwnnw.

**10.123** Dylai rheolaeth dros rwydwaith seilwaith gwyrdd Caerdydd fod ar waith cyn y datblygiad, a dylid ceisio rhwymedigaethau cynllunio priodol. Mae'r CCA Seilwaith Gwyrdd yn amlinellu hyd a lled seilwaith gwyrdd a glas Caerdydd a sut bydd y polisi hwn yn cael ei weithredu'n fanylach.

## PS20: LLEIHAU'R EFFEITHIAU AR ADNODDAU NATURIOL

**Er budd datblygiad cynaliadwy hir-dymor Caerdydd, rhaid i gynigion datblygu ystyried yn llawn yr angen i leihau'r effeithiau ar adnoddau naturiol y ddinas a lleihau llygredd, yn benodol yr elfennau canlynol:**

**i. Gwarchod y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas;**

**ii. Gwarchod ansawdd a maint yr adnoddau dŵr, gan gynnwys dŵr wyneb, tanddaearol a dyfroedd arfordirol;**

**iii. Lleihau llygredd sŵn ac aer o ffynonellau diwydiannol, domestig a thrafnidiaeth ffyrdd a rheoli ansawdd aer; ac**

**iv. Adfer halogiad tir trwy ailddatblygu safleoedd halogedig.**

**10.124** Mae'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (Graddau 1, 2 a 3a y Dosbarthiad Tir Amaethyddol) yn adnodd â phen draw iddo. Ar ôl ei golli i ddatblygu, anaml y mae'n ymarferol dychwelyd tir o'r fath i gynhyrchu amaethyddol o'r ansawdd gorau. Nid oes map diffiniol cyfoes o ansawdd tir amaethyddol ar gyfer Caerdydd gyfan, ond mae'n hysbys bod y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas i'w gael mewn rhannau o'r gorllewin, y gogledd a dwyrain Caerdydd. Nod y Polisi yw diogelu tir o'r fath rhag datblygiad, lle nad oes modd cyfiawnhau'r golled gan ystyriaethau eraill.

**10.125** Mae afonydd, llynnoedd, pyllau a chrynofeydd dŵr Caerdydd yn bwysig ar gyfer ystod eang o ddefnyddiau a defnyddwyr. Mae gan ddatblygu y potensial i effeithio ar ansawdd a maint y dŵr. Mae'n bwysig bod datblygiad ond yn cael ei ganiatáu lle na fyddai unrhyw niwed annerbyniol i ansawdd a maint yr adnoddau dŵr a lle gellir darparu unrhyw seilwaith sy'n ofynnol i ddiogelu ansawdd a maint y dŵr. Dylai datblygiadau newydd feddu ar gyflenwad dŵr digonol a system garthffosiaeth i wasanaethu'r datblygiad. Mae'r polisi hwn, sydd wedi'i anelu'n rhannol at wella effeithlonrwydd defnyddio adnoddau dŵr, yn sicrhau cyflenwad dŵr digonol heb effeithiau niweidiol i ACA Aber Afon Hafren, a thrwy hynny helpu i osgoi'r tebygolrwydd y bydd y CDLl hwn yn cael effaith sylweddol ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd.

**10.126** Gall ansawdd aer gwael effeithio ar iechyd, ansawdd bywyd ac amwynder pobl a gall effeithio ar gadwraeth natur a diddordebau treftadaeth adeiledig. Mae potensial gan ddatblygiadau i achosi llygredd aer, neu gall problemau ansawdd aer presennol effeithio ar ddatblygiadau sensitif mewn ardal. Yng Nghaerdydd, allyriadau trafnidiaeth yw un o'r prif gyfranwyr at ansawdd aer gwael. Ni chaniateir datblygiad os byddai'n achosi neu'n arwain at niwed annerbyniol oherwydd llygredd aer. Bydd gweithredu'r Polisi hwn hefyd yn helpu i wrthweithio unrhyw gynnydd mewn llygredd atmosfferig o ganlyniad i'r Cynllun, a thrwy hynny helpu i osgoi'r tebygolrwydd y bydd y CDLl hwn yn cael effaith sylweddol ar safleoedd sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol.

**10.127** Mae ailddatblygu safleoedd â halogiad tir yn caniatáu i dir o'r fath gael ei ddefnyddio mewn modd buddiol, yn atal adfeilio ac yn lleihau'r angen i ddatblygu safleoedd maes glas. Bydd yn ofynnol i ddatblygwyr ddangos y gellir goresgyn unrhyw halogiad gwirioneddol neu bosibl, a thrwy hynny sicrhau bod y tir yn addas ar gyfer y datblygiad arfaethedig.



## PS21: RHEOLI GWASTRAFF

**Rheolir gwastraff sy'n deillio o Gaerdydd drwy:**

**i. Gefnogi atal ac ailddefnyddio gwastraff a darparu cyfleusterau sy'n defnyddio cynnyrch wedi'i ailgylchu neu ei gompostio.**

**ii. Hyrwyddo ac ategu cyfleusterau, mesurau a strategaethau rheoli gwastraff cynaliadwy ychwanegol mewn modd sy'n dilyn yr hierarchaeth wastraff ac egwyddorion rhwydwaith integredig a digonol o osodiadau gwastraff; y man gosod agosaf priodol; hunangynhaliaeth a gwarchod iechyd pobl a'r amgylchedd;**

**iii. Annog darparu cyfleusterau triniaeth mewnol i ardaloedd presennol a dynodedig o ddiwydiant cyffredinol; a**

**iv. Cefnogi darpariaeth a chynnal a chadw trefniadau storio a chasglu rheoli gwastraff cynaliadwy ym mhob datblygiad newydd priodol;**

**10.128** Mae'n bwysig i'r Cyngor reoli goblygiadau defnydd tir y gwastraff a gynhyrchir yn y Sir mewn ffordd sy'n dderbyniol yn amgylcheddol a chynaliadwy. Mae'r Cyngor yn symud tuag at arferion rheoli gwastraff mwy cynaliadwy yn unol â chanllawiau Ewropeaidd a chenedlaethol, drwy leihau faint o wastraff a gynhyrchir a gwneud y mwyaf o ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer o ansawdd uchel, gyda'r nod o leihau faint o wastraff a anfonir i'w waredu.

**10.129 Yn** unol â NCT 21 'Gwastraff' (2014) a nodau 'Tuag at Ddyfodol Dim Gwastraff' (2010) a 'Tu Hwnt i Ailgylchu' (2021), bydd y Cyngor yn gweithio gydag eraill yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru i fonitro lefelau gwastraff a gofynion capasiti. Bydd yn ymateb i anghenion a nodwyd drwy gyfrannu tuag at ddarparu rhwydwaith integredig a digonol o gyfleusterau rheoli gwastraff ar draws y rhanbarth. Mae'n debygol y bydd angen cyfleusterau rheoli, trin ac adfer gwastraff ychwanegol yng Nghaerdydd yn ystod cyfnod y Cynllun.

**10.130** Dylai pob datblygiad newydd priodol gynnwys darpariaeth ar gyfer storio, ailgylchu a rheoli gwastraff. Bydd hyn yn annog lleihau gwastraff ac annog ailgylchu, compostio a gwahanu yn y fan a'r lle er mwyn cyfrannu tuag at gyrraedd targedau rheoli gwastraff.

# Atodiadau



## Atodiadau 1: Rhestr o Ddogfennau Ategol

1. Papur Technegol Cefndir Rhif 1 - Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2021-2036: Strategaeth a Ffefrir - Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol
2. Papur Technegol Cefndir Rhif 2 - Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2021-2036: Strategaeth a Ffefrir – Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
3. Papur Technegol Cefndir Rhif 3 - Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2021-2036: Strategaeth a Ffefrir – Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar Iechyd
4. Papur Technegol Cefndir Rhif 4 - Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2021-2036: Strategaeth a Ffefrir – Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg
5. Papur Technegol Cefndir Rhif 5 - Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2021-2036: Strategaeth a Ffefrir – Grŵp Gorchwyl a Gorffen Craffu ar y Cyd – Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Canfyddiadau Opsiynau Strategol a Chyflawni
6. Papur Technegol Cefndir Rhif 6 - Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2021-2036: Strategaeth a Ffefrir - Crynodeb o Ymgyngoriadau a gynhaliwyd hyd yma
7. Papur Technegol Cefndir Rhif 7 - Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2021-2036: Strategaeth a Ffefrir – Asesiad Safle Ymgeisydd Cam 1
8. Papur Technegol Cefndir Rhif 8 – Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2021 i 2036 Strategaeth a Ffefrir – Papur Technegol Capasiti Trefol
9. Papur Technegol Cefndir Rhif 9 – Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2021 i 2036 Strategaeth a Ffefrir – Hunanasesiad o'r Strategaeth a Ffefrir yn erbyn Profion Cadernid
10. Papur Technegol Cefndir Rhif 10 – Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2021 i 2036 Strategaeth a Ffefrir – Trafnidiaeth
11. Astudiaeth Ddemograffeg, Edge Analytics, Hydref 2021
12. Astudiaeth Tir Cyflogaeth, Hardisty Jones Associates, Mawrth 2022
13. Asesiad Drafft o Farchnad Dai Leol Caerdydd, Cyngor Caerdydd, Mehefin 2023
14. Astudiaeth Manwerthu a Hamdden, Nexus Planning, Ionawr 2023
15. Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr, Tachwedd 2021

# Atodiadau 2: Asesiad Cydnawsedd

Tabl 1: Matrics Amcanion CDLl Newydd yn erbyn y Nodau Llesiant

| Amcan | Cymru Lewyrchus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Cartrefi Newydd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| 2. Swyddi Newydd a'r Economi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| 3. Seilwaith Newydd | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| 4. Newid yn yr Hinsawdd | | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| 5. Symudiad a Theithio Llesol | | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ |
| 6. Iechyd, Llesiant a Chydraddoldeb | | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| 7. Canol y Ddinas/Bae Caerdydd | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| 8. Adfer ar ôl y Pandemig | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 9. Ymagwedd Creu Lleoedd a Dylunio o Ansawdd Uchel | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 10. Seilwaith Gwyrdd ac Asedau Naturiol | | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| 11. Asedau hanesyddol a diwylliannol | | | | | | ✓ | ✓ |



Tabl 2: Matrics Amcanion CDLl Newydd yn erbyn Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Creu Lleoedd Cynaliadwy

| Amcan | Tyfu ein heconomi mewn modd cynaliadwy | Gwneud y defnydd gorau o adnoddau | Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach | Creu a chynnal cymunedau | Sicrhau'r diogelwch amgylcheddol mwyaf posibl a chyfyngu ar effaith amgylcheddol |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. Cartrefi Newydd | | ✓ | | ✓ | |
| 2. Swyddi Newydd a'r Economi | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| 3. Seilwaith Newydd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| 4. Newid yn yr Hinsawdd | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| 5. Symudiad a Theithio Llesol | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| 6. Iechyd, Llesiant a Chydraddoldeb | | | ✓ | ✓ | |
| 7. Canol y Ddinas/Bae Caerdydd | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| 8. Adfer ar ôl y Pandemig | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 9. Ymagwedd Creu Lleoedd a Dylunio o Ansawdd Uchel | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 10. Seilwaith Gwyrdd ac Asedau Naturiol | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 11. Asedau hanesyddol a diwylliannol | | | | | ✓ |

**Tabl 3: Matrics Polisïau Strategol CDLl Newydd yn erbyn y Nodau Llesiant**

| Amcan | Cymru Lewyrchus | Cymru Gydnerth | Cymru Iachach | Cymru fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PS1 Darparu ar gyfer twf cynaliadwy | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| PS2 Cynnal twf economaidd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| PS3 Sicrhau dull o brif gynllunio | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| PS4 Sicrhau dyluniad cynaliadwy o ansawdd da | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| PS Sicrhau Seilwaith newydd | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| PS6 Sicrhau rhwymedigaethau cynllunio | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| PS7 Cefnogi Ardal Fusnes Canol a Bae Caerdydd | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| PS8 Cefnogi rôl porthladd Caerdydd | ✓ | | ✓ | ✓ | | | |
| PS9 Twristiaeth | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| PS10 Cynnal cyflenwad o fwynau | ✓ | | ✓ | ✓ | | | |
| PS11 Darparu cymdogaethau cynaliadwy, cydlyniant cymdeithasol a thai fforddiadwy | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| PS12 Sicrhau iechyd a lles a gwydnwch | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| PS13 Diogelu a gwella diwylliant a threftadaeth adeiledig | | | | | | ✓ | ✓ |
| PS14 Diogelu lleoliad y ddinas gyda Lletem Las | | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| PS15 Rheoli twf gofodol trwy ffiniau aneddiadau | | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| PS16 Darparu trafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesol | | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ |
| PS17 Sicrhau seilwaith trafnidiaeth newydd | | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ |
| PS18 Sicrhau gwydnwch hinsawdd, datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy mewn datblygiadau newydd | | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| PS19 Diogelu, digolledu a gwella seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth | | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| PS20 Lleihau'r effeithiau ar adnoddau naturiol | | ✓ | ✓ | | | | ✓ |
| PS21 Rheoli gwastraff | | ✓ | ✓ | | | | ✓ |



**Tabl 4: Matrics Amcanion CDLl Newydd yn erbyn Egwyddorion Cynllunio Allweddol a Chanlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Creu Lleoedd Cynaliadwy**

| Amcan | Tyfu ein heconomi mewn modd cynaliadwy | Gwneud y defnydd gorau o adnoddau | Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach | Creu a chynnal cymunedau | Sicrhau'r diogelwch amgylcheddol mwyaf posibl a chyfyngu ar effaith amgylcheddol |
|---|---|---|---|---|---|
| PS1 Darparu ar gyfer twf cynaliadwy | | ✓ | | ✓ | |
| PS2 Cynnal twf economaidd | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| PS3 Sicrhau dull o brif gynllunio | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| PS4 Sicrhau dyluniad cynaliadwy o ansawdd da | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| PS Sicrhau Seilwaith newydd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| PS6 Sicrhau rhwymedigaethau cynllunio | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| PS7 Cefnogi Ardal Fusnes Canol a Bae Caerdydd | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| PS8 Cefnogi rôl porthladd Caerdydd | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| PS9 Twristiaeth | ✓ | | ✓ | ✓ | |
| PS10 Cynnal cyflenwad o fwynau | ✓ | ✓ | | | |
| PS11 Darparu cymdogaethau cynaliadwy, cydlyniant cymdeithasol a thai fforddiadwy | | | ✓ | ✓ | |
| PS12 Sicrhau iechyd a lles a gwydnwch | | | ✓ | ✓ | |
| PS13 Diogelu a gwella diwylliant a threftadaeth adeiledig | | | | | ✓ |
| PS14 Diogelu lleoliad y ddinas gyda Lletem Las | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| PS15 Rheoli twf gofodol trwy ffiniau aneddiadau | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| PS16 Darparu trafnidiaeth gynaliadwy a theithio llesol | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| PS17 Sicrhau seilwaith trafnidiaeth newydd | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| PS18 Sicrhau gwydnwch hinsawdd, datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy mewn datblygiadau newydd | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| PS19 Diogelu, digolledu a gwella seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| PS20 Lleihau'r effeithiau ar adnoddau naturiol | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| PS21 Rheoli gwastraff | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

# Atodiadau 3: Adolygiad o Bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig

Diben yr asesiad hwn yw nodi a yw Polisïau Rheoli Datblygu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Mabwysiedig ar hyn o bryd yn gweithio'n effeithiol, a oes unrhyw newidiadau yn debygol o fod yn ofynnol ac a yw'n briodol bwrw ymlaen â'r polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN). Dylid ei drin yn fynegol ar hyn o bryd am y gall tystiolaeth newydd, canllawiau neu ffactorau lleol ddod i'r amlwg wrth i broses y Cynllun fynd yn ei blaen i gyfiawnhau dull gwahanol i'r un a nodir isod. Bydd angen ail-grwpio/aildrefnu'r polisïau hefyd i adlewyrchu adran Polisïau Strategol y CDLlN a gall meysydd polisïau newydd ddod i'r amlwg wrth i'r Cynllun Adneuo gael ei lunio. Amlinellir yr asesiad yn y tabl isod.

| | |
|---|---|
| **Yn nodi y bydd y polisi Rheoli Datblygu yn cael ei gario ymlaen o bosibl gyda mân newidiadau.** | (gwyrdd) |
| **Yn nodi y bydd y Rheoli Datblygu yn cael ei gario ymlaen fel polisi Rheoli Datblygu gyda newidiadau i adlewyrchu tystiolaeth wedi'i diweddaru a chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol wedi'u diweddaru.** | (glas) |
| **Yn nodi bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddileu'r polisi naill ai yn ei gyfanrwydd neu drwy gyfuno/cynnwys amcan y polisi gyda pholisi arall.** | (coch) |

| Polisi Rheoli Datblygu presennol | | Sylwadau | Argymhelliad |
|---|---|---|---|
| H1 | Safleoedd tai anstrategol | Angen newidiadau a diweddariadau i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol gyda safleoedd tai anstrategol rhestredig a chanlyniadau proses asesu safle ymgeiswyr. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn CDLlN gyda newidiadau i adlewyrchu tystiolaeth wedi'i diweddaru. |
| H2 | Trosi i ddefnydd preswyl | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd angen mân newidiadau i adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd gan arolwg swyddogion cynllunio. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i adlewyrchu adborth o arolwg y swyddogion cynllunio. |



| Polisi Rheoli Datblygu presennol | | Sylwadau | Argymhelliad |
|---|---|---|---|
| H3 | Tai fforddiadwy | Mae egwyddor polisi yn parhau'n berthnasol. Efallai y bydd angen diwygiadau i adlewyrchu canfyddiadau'r Astudiaeth Dichonoldeb Tai Fforddiadwy a'r adborth a dderbyniwyd o arolwg y swyddogion cynllunio. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn CDLlN gyda newidiadau i adlewyrchu tystiolaeth ac adborth wedi'u diweddaru o arolwg y swyddogion cynllunio. |
| H4 | Newid defnydd tir a neu eiddo preswyl | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| H5 | Rhannu neu drosi eiddo preswyl | Angen diwygiadau i gryfhau'r polisi yn unol â chanfyddiadau'r Pwyllgor Craffu a'r adborth a dderbyniwyd o arolwg y swyddogion cynllunio. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn CDLlN gyda newidiadau i adlewyrchu tystiolaeth ac adborth wedi'u diweddaru o arolwg y swyddogion cynllunio. |
| H6 | Newid defnydd neu ailddatblygu at ddefnydd preswyl | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| H7 | Safleoedd Carafanau Teithwyr a Sipsiwn | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| EC1 | Tir cyflogaeth presennol | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Diwygiadau'n angenrheidiol i adlewyrchu canfyddiadau'r Adolygiad Tir Cyflogaeth. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn CDLlN gyda newidiadau i adlewyrchu tystiolaeth wedi'i diweddaru. |
| EC2 | Darparu cyfleusterau ategol ar gyfer cyflogeion mewn datblygiadau busnes a warws diwidiannol | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn CDLlN gyda newidiadau. |
| EC3 | Defnydd arall ar dir ac eiddo cyflogaeth | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Mae angen mân newidiadau i egluro cwmpas y polisi. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn CDLlN gyda mân newidiadau. |
| EC4 | Diogelu swyddfeydd yn ardaloedd busnes canol y ddinas a'r bae | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |

| Polisi Rheoli Datblygu presennol | | Sylwadau | Argymhelliad |
|---|---|---|---|
| EC5 | Datblygu Gwesty | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd angen mân newidiadau i adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd o arolwg y swyddogion cynllunio. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i adlewyrchu adborth o arolwg y swyddogion cynllunio. |
| EC6 | Safle cyflogaeth anstrategol | Dileu'r polisi am fod y safle bellach wedi'i ddatblygu ar gyfer y defnydd a fwriadwyd. | Dileu'r polisi yn y CDLlN |
| EC7 | Cynigion cyflogaeth ar dir nad yw'n cael ei adnabod at ddefnydd cyflogaeth | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| EN1 | Diogelu Cefn Gwlad | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd angen mân newidiadau i adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd o arolwg y swyddogion cynllunio. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i adlewyrchu adborth o arolwg y swyddogion cynllunio. |
| EN2 | Trosi, ymestyn a disodli adeiladau yn y wlad | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| EN3 | Diogelu Tirwedd | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| EN4 | Coridorau Afonydd | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd angen mân newidiadau i adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd o arolwg y swyddogion cynllunio. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i adlewyrchu adborth o arolwg y swyddogion cynllunio. |
| EN5 | Safleoedd Dynodedig | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| EN6 | Rhwydweithiau ecolegol a nodweddion o bwys i fioamrywiaeth | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Bydd angen diwygiadau i adlewyrchu'r canllawiau cynllunio cenedlaethol diweddaraf. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i adlewyrchu'r canllawiau cynllunio cenedlaethol diweddaraf. |



| Polisi Rheoli Datblygu presennol | | Sylwadau | Argymhelliad |
|---|---|---|---|
| EN7 | Cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| EN8 | Coed, coetiroedd a gwrychoedd | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd angen mân newidiadau i adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd o arolwg y swyddogion cynllunio. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i adlewyrchu adborth o arolwg y swyddogion cynllunio. |
| EN9 | Cadw'r amgylchedd hanesyddol | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Angen mân newidiadau i adlewyrchu terminoleg wedi'i diweddaru | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| EN10 | Dyluniad Sensitif o ran Dŵr | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Mae angen newidiadau i adlewyrchu gofynion SAB ac i adlewyrchu adborth a dderbyniwyd o arolwg y swyddogion cynllunio. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i adlewyrchu adborth o ofynion yr SAB ac adborth o arolwg y swyddogion cynllunio. |
| EN11 | Diogelu adnoddau dŵr | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| EN12 | Technolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Angen diwygiadau i adlewyrchu canllawiau cynllunio cenedlaethol wedi'u diweddaru a chanfyddiadau sylfaen dystiolaeth | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar y diwygiadau sydd eu hangen i adlewyrchu canllawiau cynllunio cenedlaethol wedi'u diweddaru a sylfaen dystiolaeth wedi'i diweddaru. |
| EN13 | Aer, Sŵn, llygredd golau a halogiad | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| EN14 | Perygl bwyd | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd angen mân newidiadau i adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd o arolwg y swyddogion cynllunio. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i adlewyrchu adborth o arolwg y swyddogion cynllunio. |

| Polisi Rheoli Datblygu presennol | | Sylwadau | Argymhelliad |
|---|---|---|---|
| T1 | Cerdded a beicio | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Angen diwygiadau i adlewyrchu deddfwriaeth wedi'i diweddaru a chanllawiau cenedlaethol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd gyda geiriad diwygiedig i adlewyrchu deddfwriaeth wedi'i diweddaru a chanllawiau cenedlaethol. |
| T2 | Gwelliannau strategol i gludiant cyflym a choridorau bws | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Bydd angen diwygiadau i adlewyrchu strategaeth Bws Cludiant Cyflym (BCC) Caerdydd a llwybrau wedi'u diogelu. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar eiriad diwygiedig. |
| T3 | Cyfnewidfeydd Trafnidiaeth | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Angen diwygiadau i adlewyrchu cynlluniau Metro Prifddinas Caerdydd a chanllawiau teithio llesol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar eiriad diwygiedig. |
| T4 | Gorsaf Drafnidiaeth Ranbarthol | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Newidiadau i gyfeirio at ganolfannau rhanbarthol yng nghynllun y Metro hefyd. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar eiriad diwygiedig. |
| T5 | Rheoli effeithiau trafnidiaeth | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Gallai newidiadau i gyfeirio at ganllawiau cenedlaethol wedi'u diweddaru a mân newidiadau fod yn angenrheidiol i adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd o arolwg y swyddogion cynllunio | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar eiriad diwygiedig. |
| T6 | Effaith ar rwydweithiau trafnidiaeth a gwasanaethau | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Angen newidiadau i gyfeirio at ganllawiau cenedlaethol wedi'u diweddaru. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar eiriad diwygiedig. |
| T7 | Seilwaith trafnidiaeth strategol | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| T8 | Llwybrau hamdden stratego | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd angen geiriad wedi'i ddiweddaru i gyfeirio at lwybrau newydd yn y Papur Gwyn Trafnidiaeth. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar eiriad diwygiedig. |
| T9 | Rhwydwaith 'Metro' Dinas-ranbarth Caerdydd | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Geiriad wedi'i ddiweddaru i gefnogi seilwaith digidol y cyfeirir ato ym Mholisi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar eiriad diwygiedig. |



| Polisi Rheoli Datblygu presennol | | Sylwadau | Argymhelliad |
|---|---|---|---|
| R1 | Hierarchaeth manwerthu | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| R2 | Datblygiad yn yr ardal siopa ganolog | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd angen mân newidiadau i adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd o arolwg y swyddogion cynllunio. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i adlewyrchu adborth o arolwg y swyddogion cynllunio. |
| R3 | Ffryntiadau siopa gwarchodedig | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd angen mân newidiadau i adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd o arolwg y swyddogion cynllunio. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i adlewyrchu adborth o arolwg y swyddogion cynllunio. |
| R4 | Canolfannau ardal | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Angen mân adolygiadau ffiniau i adlewyrchu canfyddiadau arolygon safle a mân newidiadau i eiriad i gadarnhau bod newid defnydd A1 gweithredol yn llai tebygol o gael ei gefnogi. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn CDLlN gyda mân newidiadau i adlewyrchu tystiolaeth wedi'i diweddaru a newidiadau i eiriad polisi. |
| R5 | Canolfannau lleol | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Angen mân adolygiadau ffiniau i adlewyrchu canfyddiadau arolygon safle a mân newidiadau i eiriad i gadarnhau bod newid defnydd A1 gweithredol yn llai tebygol o gael ei gefnogi. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn CDLlN gyda mân newidiadau i adlewyrchu tystiolaeth wedi'i diweddaru a newidiadau i eiriad polisi. |
| R6 | Datblygiad manwerthu (y tu allan i'r canol) | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| R7 | Darpariaeth fanwerthu mewn safleoedd strategol | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| R8 | Defnyddiau bwyd a diod | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Angen mân adolygiadau ffiniau i adlewyrchu canfyddiadau arolygon safle a mân newidiadau i eiriad i gadarnhau bod newid defnydd A1 gweithredol yn llai tebygol o gael ei gefnogi. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn CDLlN gyda mân newidiadau i adlewyrchu tystiolaeth wedi'i diweddaru a newidiadau i eiriad polisi. |
| C1 | Cyfleusterau cymunedol | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |

| Polisi Rheoli Datblygu presennol | | Sylwadau | Argymhelliad |
|---|---|---|---|
| C2 | Diogelu cyfleusterau cymunedol presennol | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| C3 | Diogelwch cymunedol/creu amgylcheddau diogel | Mae'r byrdwn cyffredinol Polisi wedi ei ymgorffori ym Mholisi Strategol SP4 Sicrhau ansawdd da a dylunio cynaliadwy. | Dileu ymgorffori ym Mholisi Strategol SP4 Sicrhau ansawdd da a dylunio cynaliadwy. |
| C4 | Diogelu mannau agored | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd angen mân newidiadau i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â pholisi cynllunio cenedlaethol wedi'i ddiweddaru | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar unrhyw eiriad polisi diwygiedig. |
| C5 | Darparu ar gyfer mannau agored, hamdden awyr agored, chwarae plant a chwaraeon | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd angen newidiadau i adlewyrchu safonau polisi cynllunio cenedlaethol wedi'u diweddaru. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd gydag unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i'r safonau. |
| C6 | Iechyd | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Diwygiadau i'r polisi'n angenrheidiol oherwydd deddfwriaeth wedi'i diweddaru a chanllawiau cynllunio cenedlaethol a sylfaen dystiolaeth | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu, yn amodol ar eiriad diwygiedig. |
| C7 | Cynllunio ar gyfer ysgolion | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| M1 | Cronfeydd ac adnoddau mwynau calchfaen | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Angen mân newidiadau i adlewyrchu statws yr hen ardal a ffefrir yn chwarel Creigiau sydd bellach wedi cael caniatâd cynllunio. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar eiriad diwygiedig. |
| M2 | Trefn a ffefrir o ryddhau adnoddau mwynau | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Angen mân newidiadau i adlewyrchu statws yr ardal sydd wedi ei hymestyn yn chwarel Creigiau sydd bellach wedi cael caniatâd cynllunio. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar eiriad diwygiedig. |



| Polisi Rheoli Datblygu presennol | | Sylwadau | Argymhelliad |
|---|---|---|---|
| M3 | Cau chwareli a therfynau ymestyn | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Mae angen mân newidiadau i adlewyrchu cau rhannau deheuol a gorllewinol chwarel Creigiau a gyflawnwyd fel rhan o'r caniatâd cynllunio newydd ar gyfer y chwarel. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar eiriad diwygiedig. |
| M4 | Parthau Clustogi Mwynau | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| M5 | Adfer ac ôl-ddefnydd o waith mwynau | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Mae angen adolygu geiriad y polisi er mwyn adlewyrchu deddfwriaeth bresennol a pholisi'n ymwneud â bioamrywiaeth. | Parhau fel polisi rheoli datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar eiriad diwygiedig. |
| M6 | Ardaloedd Gwarchod Angorfeydd Tywod | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| M7 | Diogelu adnoddau tywod a graean, glo a chalchfaen | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Mae angen mân newidiadau i'r polisi oherwydd deddfwriaeth wedi'i diweddaru a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, sy'n dileu'r gofyniad i ddiogelu adnoddau glo. | Parhau fel polisi rheoli datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar ddileu cyfeiriad at ddiogelu adnoddau glo. |
| M8 | Mannau lle na fydd gwaith glo yn dderbyniol | Dileu polisi oherwydd, yn sgil deddfwriaeth wedi'i diweddaru a chanllawiau cynllunio cenedlaethol, nid oes gofyniad bellach i nodi ardaloedd diogelu ar gyfer adnoddau glo a lleiniau clustogi o'u cwmpas o ganlyniad. | Dileu'r polisi yn y CDLlN |
| W1 | Safleoedd i gyfleusterau rheoli gwastraff | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd angen newidiadau i adlewyrchu canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd. |
| W2 | Darparu cyfleusterau rheoli gwastraff mewn datblygiad newydd | Mae'r polisi'n gweithio'n effeithiol. Efallai y bydd angen mân newidiadau i adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd o arolwg y swyddogion cynllunio. | Parhau fel Polisi Rheoli Datblygu yn y CDLl Newydd, yn amodol ar unrhyw newidiadau sydd eu hangen i adlewyrchu adborth o arolwg y swyddogion cynllunio. |

**Troednodyn:** Mae arolwg Swyddogion Cynllunio yn cyfeirio at faterion a godwyd yn ystod arolwg mewnol o Swyddogion Cyngor Caerdydd sy'n cwmpasu'r meysydd pwnc gwahanol.

# Atodiadau 4: Canllaw Cynllunio Atodol i'w Baratoi

Mae'r Tabl isod yn rhoi rhestr o CCA fydd yn cael eu paratoi i gefnogi'r Cynllun unwaith y bydd yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor. Bydd y rhestr hon yn cael ei hadolygu'n barhaus wrth baratoi'r CDLl Newydd, a bydd rhestr ddiwygiedig yn cael ei chreu i gefnogi'r CDLl Adneuo. Bydd yr amserlenni ar gyfer paratoi'r CCA hwn ar ôl mabwysiadu'r cynllun yn cael eu nodi yn y Fframwaith Monitro fydd yn cael ei greu i gefnogi gweithredu'r Cynllun.

| Canllaw Cynllunio Atodol | Cam Gweithredu a Gynigir |
|---|---|
| Tai Amlfeddiannaeth | Adolygu'r CCA presennol a baratowyd ar gyfer y CDLl mabwysiedig |
| Casglu Gwastraff a Chyfleusterau Storio | Adolygu'r CCA presennol a baratowyd ar gyfer y CDLl mabwysiedig |
| Lleoli Cyfleusterau Rheoli Gwastraff | Adolygu'r CCA presennol a baratowyd ar gyfer y CDLl mabwysiedig |
| Rhwymedigaethau Cynllunio | Adolygu'r CCA presennol a baratowyd ar gyfer y CDLl mabwysiedig |
| Adeiladau Uchel | Adolygu'r CCA presennol a baratowyd ar gyfer y CDLl mabwysiedig |
| Canllaw Dylunio Preswy | Adolygu'r CCA presennol a baratowyd ar gyfer y CDLl mabwysiedig |
| Gofal Plant | Adolygu'r CCA presennol a baratowyd ar gyfer y CDLl mabwysiedig |



| Canllaw Cynllunio Atodol | Cam Gweithredu a Gynigir |
|---|---|
| Cynllunio ar gyfer Iechyd a Llesiant | Adolygu'r CCA presennol a baratowyd ar gyfer y CDLl mabwysiedig |
| Canllawiau Dylunio Mewnlenwi | Adolygu'r CCA presennol a baratowyd ar gyfer y CDLl mabwysiedig |
| Canllawiau Estyniadau a Newidiadau Preswyl | Adolygu'r CCA presennol a baratowyd ar gyfer y CDLl mabwysiedig |
| Seilwaith Gwyrdd (yn cynnwys Mannau Agored, Ecoleg a Bioamrywiaeth, Coed, Priddoedd, Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Choridorau Afonydd) | Adolygu'r CCA presennol a baratowyd ar gyfer y CDLl mabwysiedig |
| Defnyddiau Bwyd, Diod a Hamdden | Adolygu'r CCA presennol a baratowyd ar gyfer y CDLl mabwysiedig |
| Ardaloedd Archeolegol Sensitif | Adolygu'r CCA presennol a baratowyd ar gyfer y CDLl mabwysiedig |
| Rheoli Effeithiau Cludiant (yn cynnwys Safonau Parcio) | Adolygu'r CCA presennol a baratowyd ar gyfer y CDLl mabwysiedig |
| Addasu Fflatiau | Adolygu'r CCA presennol a baratowyd ar gyfer y CDLl mabwysiedig |
| Llety Myfyrwyr | Adolygu'r CCA presennol a baratowyd ar gyfer y CDLl mabwysiedig |
| Canllaw Blaen Siopau ac Arwyddion | Adolygu'r CCA presennol a baratowyd ar gyfer y CDLl mabwysiedig |

# Atodiadau 5: Rhestr Termau

**Mabwysiadu**

Cam olaf paratoi CDLl pan ddaw'r CDLl yn Gynllun Datblygu statudol at ddibenion y Ddeddf.

**Hygyrchedd**

Gallu pobl i symud o amgylch ardal a chyrraedd lleoedd a chyfleusterau, gan gynnwys pobl oedrannus ac anabl, y rhai â phlant ifanc a'r rhai sydd â chesys neu siopa.

**Tai Fforddiadwy**

Mae tai fforddiadwy yn cynnwys tai rhent cymdeithasol sy'n eiddo i awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn ogystal â thai canolradd lle mae prisiau neu rhenti'n uwch na rhenti cymdeithasol ond yn is na phrisiau neu rhenti tai ar y farchnad agored.

**Dyraniad**

Tir a nodwyd ar y map cynigion CDLl mabwysiedig.

**Galw am Safleoedd Ymgeiswyr**

Proses lle mae'r Cyngor yn gwahodd tir neu adeiladau i gael eu cyflwyno i'w cynnwys yn y CDLl.

**Dinas Pentrefi**

Mae'r rhain wedi'u cynnwys fel cenhadaeth yn Strategaeth Adfer ac Adnewyddu'r Cyngor, Gwyrddach, Tecach, Cryfach sy'n nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'r pandemig. Mae'r ddinas pentrefi yn seiliedig ar y rhwydwaith presennol o ganolfannau lleol ac ardal llwyddiannus drwy eu gwneud yn fwy bywiog, prysur a pherthnasol i gymunedau lleol.

**Ymrwymiadau**

Tir heb ei ddatblygu gyda chaniatâd cynllunio neu dir sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

**Cymuned**

Pobl sy'n byw mewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig, neu sy'n rhannu buddiannau cyffredin eraill.



**Cytundeb Cyflawni**

Dogfen sy'n cynnwys amserlen yr ACLl ar gyfer paratoi'r CDLl ynghyd â'i Gynllun Cynnwys Cymunedau, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i'w chytuno.

**Dwysedd**

Yn achos datblygiad preswyl, mesur naill ai nifer yr ystafelloedd y gellir byw ynddynt fesul hectar neu nifer yr anheddau fesul hectar.

**Cynllun Adnau**

Y fersiwn o'r CDLl a gyflwynir i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w harchwilio gan y cyhoedd.

**Datblygiad**

Diffinnir datblygiad yn Adran 55 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel "cyflawni gwaith adeiladu, peirianneg, mwyngloddio neu waith arall mewn, ar, dros neu o dan dir, neu wneud unrhyw newid sylweddol i'r defnydd a wneir o unrhyw adeilad neu dir arall." Gall rhai gweithgareddau fod o arwyddocâd mor gyfyngedig fel bod yr awdurdod cynllunio lleol perthnasol yn penderfynu nad ydynt yn ddatblygiad (h.y. yn de minimis).

**Canolfannau Ardal**

Fel arfer, grwpiau o siopau, sydd ar wahân i ganol tref, yn cynnwys o leiaf un archfarchnad fwyd a gwasanaethau nad ydynt yn rhai manwerthu, megis banciau, cymdeithasau adeiladu a bwytai.

**Archwiliad**

Proses lle mae cadernid y CDLl yn cael ei brofi'n gyhoeddus.

**Cymru'r Dyfodol**

Cymru'r Dyfodol - y Cynllun Cenedlaethol 2040 yw fframwaith datblygu cenedlaethol Llywodraeth Cymru, sy'n pennu'r cyfeiriad ar gyfer datblygu yng Nghymru hyd at 2040. Mae'n gynllun datblygu ag iddo strategaeth ar gyfer ymdrin â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol trwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, sicrhau datgarboneiddio a gwydnwch yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau.

**Tir neu Safle Maes Glas**

Tir (neu safle ddiffiniedig) fel arfer tir fferm, nad yw wedi'i ddatblygu o'r blaen.

**Seilwaith Gwyrdd**

Rhwydwaith o fannau gwyrdd amlswyddogaeth, trefol a gwledig, sy'n gallu sicrhau ystod eang o fanteision amgylcheddol ac ansawdd byw i gymunedau lleol.

**Seilwaith**

Gwasanaethau sylfaenol sy'n angenrheidiol ar gyfer datblygu, er enghraifft, ffyrdd, trydan, carthffosiaeth, dŵr, addysg a chyfleusterau iechyd.

**Materion, Opsiynau ac Opsiynau a Ffefrir**

Y camau ymgynghori "cyn cyflwyno" o ran Dogfennau Cynlluniau Datblygu gyda'r nod o gael consensws cyhoeddus ynghylch cynigion cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w harchwilio'n annibynnol

**Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI)**

Offeryn ar gyfer arfarnu polisïau a chynigion i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy (h.y. ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd). Mae'n ofynnol yn ôl A62(6) y Ddeddf i bob ACLl gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd AoG)) y CDLl. Mae'r AoG integredig yn ymgorffori gofynion y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn llawn a bydd hefyd yn cynnwys asesiad o effeithiau iechyd a chydraddoldeb.

**Banc Tir**

Yn cyfeirio at gartrefi ar safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio. Mae hefyd yn cynnwys cartrefi ar safleoedd sydd wedi bod i'r pwyllgor cynllunio lle penderfynodd y Cyngor roi caniatâd cynllunio yn amodol ar lofnodi cytundeb cyfreithiol. Nid yw dyraniadau presennol wedi'u cynnwys yn y banc tir.

**Cytundeb Cyfreithiol**

Cytundeb cyfreithiol rhwng ymgeisydd a'r awdurdod cynllunio lleol i sicrhau bod datblygiad yn cael ei wneud mewn ffordd benodol. Cyfeirir atynt hefyd fel Cytundeb Adran 106 neu Rwymedigaeth Gynllunio.

**Canolfannau Lleol**

Grwpiau bach, fel arfer yn cynnwys siop bapur newydd, siop groser cyffredinol, is-Swyddfa'r Post ac weithiau fferyllfa, siop trin gwallt a siopau bach eraill o natur leol.



**Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)**

Y cynllun datblygu statudol y mae'n rhaid i bob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru ei weithredu dan Ran 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Cynllun defnydd tir sy'n destun archwiliad annibynnol, a fydd yn ffurfio'r cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal awdurdod lleol at ddibenion y Ddeddf. Dylai gynnwys gweledigaeth, strategaeth, polisïau yn cwmpasu'r ardal ar gyfer mathau o ddatblygiadau, dyraniadau tir, a pholisïau a chynigion lle bo angen ar gyfer ardaloedd allweddol o newid a gwarchod. Rhaid dangos polisïau a dyraniadau yn ddaearyddol ar y Map Cynigion sy'n rhan o'r cynllun.

**Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl)**

Awdurdod cynllunio sy'n gyfrifol am baratoi CDLl; h.y. Cyngor Sir neu Fwrdeistref neu Awdurdod Parc Cenedlaethol.

**Ardal Twf Cenedlaethol neu Strategol**

Mae'r rhain yn ardaloedd a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn Cymru'r Dyfodol Cynllun Cenedlaethol 2040 ar gyfer twf mewn cyfleoedd cyflogaeth a thai a buddsoddiad mewn seilwaith.

**Twf Poblogaeth Naturiol**

Mae'r cynnydd yn y boblogaeth yn cael ei bennu gan enedigaethau a marwolaethau.

**Ardal Defnydd Cymysg**

Darpariaeth cymysgedd o ddefnyddiau ategol, megis defnydd preswyl, cymunedol a hamdden, ar safle neu o fewn ardal benodol.

**Amcan**

Datganiad o'r hyn a fwriedir, gan nodi'r newid cyfeiriad mewn tueddiadau a ddymunir.

**Caerdydd Un Blaned**

Ymateb strategol y cyngor i'r argyfwng hinsawdd.

**Egwyddorion Creu Lleoedd**

Mae creu lleoedd yn golygu creu lleoedd ac yn canolbwyntio ar drawsnewid mannau cyhoeddus er mwyn cryfhau'r cysylltiadau rhwng pobl a'r lleoedd hyn. Mae creu lleoedd yn broses sy'n canolbwyntio ar bobl a'u hanghenion, eu dyheadau, eu dymuniadau a'u gweledigaethau, sy'n dibynnu'n gryf ar gyfranogiad cymunedol.

**Caniatâd Cynllunio**

Cymeradwyaeth ffurfiol a geisir gan gyngor, a roddir yn aml gydag amodau, sy'n caniatáu i ddatblygiad arfaethedig fynd rhagddo. Gellir gofyn am ganiatâd mewn egwyddor drwy geisiadau cynllunio amlinellol, neu am ganiatâd manwl drwy geisiadau cynllunio llawn.

**Strategaeth a Ffefrir**

Cam paratoi ac ymgynghori'r cynllun cyn i'r CDLl Adneuo gael ei gwblhau a'i gymeradwyo gan y Cyngor.

**Tir a Ddatblygwyd yn Flaenorol (PDL) neu 'Dir Llwyd'**

Tir a ddatblygwyd yn flaenorol yw tir sydd neu a feddiannwyd gan adeiledd parhaol (ac eithrio adeiladau amaethyddol neu goedwigaeth) a seilwaith arwyneb-sefydlog cysylltiedig. Mae'r diffiniad yn ymdrin â chwrtil y datblygiad.

**Coridorau Twf Tramwy Cyhoeddus**

Twf wedi'i ganoli ar hyd coridorau trafnidiaeth gyhoeddus presennol neu arfaethedig (rheilffyrdd, tram, bws).

**Adfywio**

Adnewyddu economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a gwella ardaloedd gwledig a threfol.

**Adfer**

Y gwaith sydd ei angen i godi ansawdd y tir i lefel dderbyniol cyn iddo gael ei ddefnyddio neu ei ddatblygu. Er enghraifft, efallai y bydd angen tynnu llygryddion o dir halogedig.

**Gofyniad Gweddilliol**

Cartrefi ychwanegol y bydd angen i'r CDLl ddod o hyd iddynt, yn ychwanegol i gartrefi sydd eisoes â chaniatâd cynllunio neu sy'n debygol o gael eu hadeiladu ar safleoedd annisgwyl.

**Ffin Aneddiadau**

Llinell wedi'i thynnu o amgylch yr ardal drefol a'i nodi ar y Map Cynigion CDLl mabwysiedig

**Datblygu Cynaliadwy**

Datblygiad sy'n diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy eu hunain.



**Trafnidiaeth Gynaliadwy**

Unrhyw deithio effeithlon, diogel a hygyrch, gydag effaith isel gyffredinol ar yr amgylchedd, gan gynnwys cerdded a beicio, cerbydau allyriadau isel ac isel iawn, rhannu ceir a thrafnidiaeth gyhoeddus.

**Dwysáu Trefol**

Gwneud y mwyaf o gapasiti'r ardal drefol i gyflawni datblygiadau newydd.

**Safleoedd heb eu Dyrannu'n Benodol**

Safle heb ei ddyrannu'n benodol i'w ddatblygu a ddaw ar gael i'w ddatblygu yn ystod oes cynllun datblygu.

**Cymdogaethau 20 munud neu gymdogaethau cynaliadwy**

Mae'r syniad o'r 'gymdogaeth 20 munud' (a elwir hefyd yn ddinasoedd 15 munud) wedi tyfu gyda diddordeb ledled y byd, yn enwedig gan fod pandemig COVID-19 wedi taflu'r sylw ar bwysigrwydd gallu ymarferol byw lle rydym yn byw.

Mae'n ffordd arall o ddisgrifio cymdogaeth gyflawn, gryno a chysylltiedig, lle gall pobl ddiwallu eu hanghenion bob dydd o fewn taith gerdded neu dro byr ar feic, mae'r syniad o'r gymdogaeth 20 munud yn cynnig manteision lluosog gan gynnwys rhoi hwb i economïau lleol, gwella iechyd a llesiant pobl, cynyddu cysylltiadau cymdeithasol mewn cymunedau, a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

# Atodiadau 6: Llyfryddiaeth


1. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Llywodraeth y DU
2. Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
3. Mwy nag Ailgylchu, Llywodraeth Cymru 2021
4. Creu Mwy o Swyddi a Swyddi Gwell, Strategaeth Economaidd Caerdydd, Cyngor Caerdydd 2019
5. Cynllun Lles Caerdydd 2023 i 2028, Cyngor Caerdydd 2023
6. Papur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd: Gweledigaeth Trafnidiaeth hyd at 2030, Cyngor Caerdydd 2020
7. Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'u diwygiwyd), Llywodraeth y DU
8. Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, Rhifyn 3, Mawrth 2022, Llywodraeth Cymru
9. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
10. Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040, Chwefror 2021, Llywodraeth Cymru
11. Gwyrddach, Tecach, Cryfach, Strategaeth Adfer ac Adnewyddu'r Ddinas, Cyngor Caerdydd 2021
12. Pwysau Iach: Strategaeth Gordewdra Cymru Iach, Llywodraeth Cymru 2019
13. Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
14. Archwiliadau Cynllun Datblygu Lleol: Canllawiau Gweithdrefn Llywodraeth Cymru 2022
15. Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru, Llywodraeth Cymru
16. Cynllun Symud Mwy Bwyta'n Iach 2020 i 2023, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro
17. Caerdydd Un Blaned, Cyngor Caerdydd 2021.
18. Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Cynulliad Cenedlaethol Cymru





19. Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) Chwefror 2021, Llywodraeth Cymru
20. Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
21. Papur Ymgynghori Opsiynau Strategol CDLl Newydd, Cyngor Caerdydd Tachwedd 2021
22. Papur Ymgynghori Gweledigaeth, Materion ac Amcanion CDLl Newydd, Cyngor Caerdydd 2021
23. Gorchymyn Ffyrdd Cyfyngedig (Terfyn Cyflymder 20 mya) (Cymru) 2022, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
24. Cryfach, Tecach, Gwyrddach, Cyngor Caerdydd 2022
25. Nodiadau Cyngor Technegol (Amrywiol), Llywodraeth Cymru
26. Datganiadau Technegol Rhanbarthol, 2il Adolygiad (2020), Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru
27. Tuag at Ddyfodol Diwastraff, Llywodraeth Cymru 2010
28. Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2021, Llywodraeth Cymru
29. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
30. Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 13/97 "Rhwymedigaeth Gynllunio", Llywodraeth Cymru

CRYFACH
TECACH
GWYRDDACH

Cynllun
Datblygu
Lleol 2021 > 2036

CARDIFF
CAERDYDD